

# Rhaglen Gyflawn



Tuag at Ragoriaeth  
Towards Excellence



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



CONWY  
CYNGOR SWADESTRYF SIRIOL  
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR  
Sir Ddinbych  
Denbighshire  
COUNTY COUNCIL



CYNGOR  
Sir y Fflint  
Flintshire  
COUNTY COUNCIL



wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR SWADESTRYF SIRIOL  
wrecsam

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 11EG TACHWEDD, 2020**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 5 Tachwedd 2020)

# **CYD-BWYLLGOR GWE**

## **Aelodau a phleidlais**

### **Y Cynghorwyr**

Cynghorydd Julie Fallon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Meirion Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynghorydd Cemlyn Rees Williams	Cyngor Gwynedd

## **Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais**

Rosalind Williams	Eglwys yng Nghymru
Claire Armitstead	Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Richard Collet	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr

## **Swyddogion Heb Bleidlais**

Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Claire Homard	Cyngor Sir y Fflint
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd
Rhys Howard Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Karen Evans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Geraint Davies	Cyngor Sir Ddinbych

## **Swyddogion yn bresennol**

Dafydd L. Edwards	Awdurdod Lletyol
Sion Huws	Awdurdod Lletyol
Susan Owen Jones	Rheolwr Busnes GwE
Annwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Arwyn Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Gareth Williams	Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE

## **Sylwebydd**

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2020/21.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2020-21.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 12

(ynghlwm).

## 7. TREFNIADAU LLYWODRAETHU : ARCHWILIO MEWNOL

13 - 16

Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, i gyflwyno a gofyn am gymeradwyaeth y Cydbwyllgor mewn perthynas â threfniadau archwilio mewnol.

## 8. ADRODDIADAU ARCHWILIADAU MEWNOL

17 - 31

Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, i rannu adroddiadau archwilio perthnasol a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol y rhanbarth ar y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol.

## 9. COFRESTR RISG

32 - 36

Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, i gyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

## 10. CYLLIDEB - MONITRO AIL CHWARTER

37 - 41

Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd i ddiweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor am yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.

- 11. RHAGLEN TRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL** 42 - 63
- Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, i gyflwyno offeryn hunanasesu i aelodau'r Cyd-Bwyllgor fydd yn cynorthwyo'r Awdurdodau Lleol i asesu eu parodrwydd ar gyfer gweithredu'r diwygiadau fel yr amlinellir yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Drafft Cymru
- 12. CANLYNIADAU 2020 - ADOLYGIAD ANNIBYNNOL Y GWEINIDOG ADDYSG** 64 - 108
- Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, i gynnal trafodaeth yn y Cyd-bwyllgor ar yr Adolygiad Annibynnol o ddyfarnu Cymwysterau yng Nghymru yn 2020 yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar 10 Tachwedd 2020.
- 13. ADNODDAU DYSGU CYFUNOL** 109 - 111
- Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, i rannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor am y strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion i sicrhau parhad y dysgu.
- 14. ADRODDIAD LLESIANT** 112 - 114
- Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, i rannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor am y dull rhanbarthol o gefnogi lles ein plant a'n gweithlu
- 15. ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN** 115 - 124
- Arwyn Thomas, Rheolwr Cyfarwyddwr GwE, i ddiweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor ynglŷn ag Adolygiad Thematig Estyn.
- 16. YSGOLION MEWN CATEGORI** 125 - 128
- Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, i ddiweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y sefyllfa bresennol o ran yr ysgolion sydd mewn Categori Statudol Estyn a Chategori Adolygu gan Estyn.



---

## CYD-BWYLLGOR GWE – 15/09/20

---

### Yn bresennol:

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Richard Collet (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd) a Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

**Swyddogion Heb bleidlais:** Dr Lowri Brown (Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Karen Evans a Dafydd Ifans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych).

**Swyddogion yn bresennol:** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Iwan Evans (Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol – eitem 7), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Annwen Morgan (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd, Cyngor Gwynedd – Yr Awdurdod Lletyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE), Anwen Gwilym (Cymhorthydd Personol GwE) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol).

**Hefyd yn bresennol:** Ian Howse (Deloitte UK) – ar gyfer eitem 5

Croesawyd Richard Collet (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych) ac Ian Howse (Deloitte UK) i'r cyfarfod.

### 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

### 4. COFNODION

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd yn gofnod priodol o'r cyfarfod ar 15 Gorffennaf, 2020.

### 5. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2020 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

## PENDERFYNIAD

- (a) Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau i'r adroddiad, sef –
- Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru;
  - Datganiad o'r Cyfrifon 2019/20 (yn dilyn archwiliad), gyda'r addasiadau hwyr a nodwyd yn y cyfarfod ar gais yr archwilwyr allanol, yn dilyn rhyddhau'r Datganiad i aelodau'r Cyd-bwyllgor.
- (b) Awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), i arwyddo'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) wedi i'r Cyd-bwyllgor ystyried y wybodaeth yn yr atodiadau.

### Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd yn egluro y bu y Datganiad o Gyfrifon GwE am 2019/20 a gyflwynwyd i gyfarfod 15 Gorffennaf, 2020 o'r Cyd-bwyllgor yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nododd ymhellach fod angen i'r cyfarfod hwn o'r Cyd-bwyllgor ystyried y wybodaeth yn adroddiad 'ISA260' Archwilydd Cyffredinol Cymru, oedd yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte, ynghyd â'r fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2019/20.

Wedi i'r Cyd-bwyllgor ystyried yr uchod, roedd gofyn i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), arwyddo'n electronig y Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru).

Nodwyd ymhellach, yn dilyn cyhoeddi rhaglen y Cyd-bwyllgor, y bu i'r archwilwyr allanol roi gwybod bod angen i gyfrifon GwE, fel cyflogwr yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd, adlewyrchu'r ansicrwydd prisio cyffredinol yn gysylltiedig â buddsoddiadau mewn cronfeydd eiddo ym mhortffolio asedau'r Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2020, fel a ganlyn:-

### **ADRODDIAD NARATIF (paragraff 3) [tud 2]**

*“Mae y cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.”*

### **NODYN 1 – POLISI'AU CYFRIFO [tud 12]**

#### **1.1 Egwyddorion Cyffredinol**

*“Mae y cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.”*

### **NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR [tud 18]**

*“Mae'r pandemig Coronafirws (COVID-19) wedi effeithio marchnadoedd ariannol ac eiddo yn fyd-eang. Yn sgil yr anweddolrwydd yng nghyflwr y farchnad, mae adroddiadau prisio diwedd flwyddyn a ddarperir i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisio yn gysylltiedig â chronfeydd eiddo DU a reolir ar ran y Gronfa. Cyfanswm gwerth cronfeydd eiddo DU ar 31 Mawrth 2020 yw £191m ac mae £1.7m i'w briodoli i GwE. O ganlyniad, gall prisiau'r gronfa eiddo ar 31 Mawrth 2020 fod yn destun lefel uwch o ansicrwydd.”*

Gwahoddwyd Ian Howse o gwmni Deloitte UK i gyflwyno adroddiad 'ISA260' Deloitte ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru. Nododd:-

- Y bwriedid cyhoeddi barn ddiamod ar gyfrifon eleni, unwaith y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i arwyddo.
- Nad oedd yna risgiau sylweddol i'w hamlygu.
- Bod y sefyllfa COVID wedi cael effaith ar yr amserlen y gwaith eleni.
- Ni chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau, oedd dal heb eu cywiro, yn y cyfrifon.
- Nad oedd angen cywiro unrhyw ddatganiadau o ganlyniad i'r gwaith archwilio. Roedd y newidiadau i'r cyfrifon o ganlyniad i'r gwaith archwilio yn ymwneud â mân faterion datgelu yn unig.
- Nad oedd yna unrhyw faterion arwyddocaol yn codi yn y cyfrifon am y flwyddyn.
- Ei fod yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn gofyn i'r Cyd-bwyllgor gadarnhau nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw dwyll.

Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd y Cyd-bwyllgor yn ymwybodol o unrhyw dwyll, a diolchodd i'r Pennaeth Cyllid a'r Tîm am gyflwyno'r cyfrifon fel bod modd eu harwyddo gyda mân newidiadau'n unig.

Diolchodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i'r Pennaeth Cyllid, y Cyfrifydd Grŵp a'r Uwch Gyfrifydd a phawb o'r tîm am eu cefnogaeth gadarn bob amser, gan nodi bod safon y Datganiad o'r Cyfrifon a barn gadarnhaol Deloitte arno yn cadarnhau bod y gwasanaeth Cyllid a dderbynnir gan yr awdurdod lletya yn un arbennig o dda.

Diolchodd y Cadeirydd yn ffurfiol am y gefnogaeth gyllidol, a diolchodd hefyd i Ian Howse am ei fewnbwn ac am roi sicrwydd i'r Cyd-bwyllgor.

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i Ian Howse, Lauren Parsons a gweddiill tîm Deloitte UK am eu cydweithrediad yn yr archwiliad.

## **6. CYLLIDEB – MONITRO CHWARTER 1**

### **PENDERFYNIAD**

#### **Derbyn yr adroddiad.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn diweddar aelodau'r Cyd-bwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21, gan hefyd egluro'r rhesymau y tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelid.

Nododd y Pennaeth Cyllid, er bod COVID wedi cael ardrawiad ar GwE, na fu hynny cynddrwg â'r effaith ar rai gwasanaethau eraill, megis hamdden. Diolchodd i'r Cyfrifydd Grŵp, yr Uwch Gyfrifydd a'r tîm am baratoi'r gyllideb.

Gan gyfeirio at y golled incwm, nododd y Cadeirydd fod rhai cynghorau wedi derbyn cymorth gan y Llywodraeth, a holodd a oedd y consortia wedi'u diystyru. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod modd i GwE hawlio, ond nad oedd hynny wedi digwydd oherwydd nad oedd Llywodraeth Cymru am ddigolledu awdurdodau am leihad mewn incwm mewnol, fel incwm GwE o'r awdurdodau a'r ysgolion.

## **7. ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL – COSTAU TEITHIO GWE**

### **PENDERFYNIAD**

**(a) Bod y Cyd-bwyllgor yn cadarnhau ei fod yn sicr bod GwE yn:-**

- **Dilyn y newid polisi gan Gyngor Gwynedd ers mis Gorffennaf 2018;**
  - **Cefnogi'r gofyn i reolwyr GwE adolygu hawliadau treuliau teithio.**
- (b) Gofyn i Reolwr Gyfarwyddwr GwE, mewn ymgynghoriad â Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd, adolygu'r trefniadau llywodraethu ac adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor.**

#### Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn rhoi sicrwydd i'r Cyd-bwyllgor fod GwE wedi cydymffurfio gyda pholisi Cyngor Gwynedd ar gyfer ad-dalu treuliau teithio, lle bydd swyddogion yn hawlio ad-daliad dim ond am nifer y milltiroedd busnes a deithir yn ychwanegol at nifer y milltiroedd a deithir rhwng y cartref a'r gwaith / y gwaith a'r cartref. Eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod GwE wedi gweithredu ar ôl ymgynghori ag Adran Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd a dod i gytundeb llawn â'r adran honno. Ymhellach, roedd yr adroddiad yn darparu sicrwydd bod GwE wedi mynd i'r afael â'r cam lliniaru a ddeilliodd o'r Adroddiad Archwilio Mewnol, sef 'Atgoffa rheolwyr i adolygu hawliadau treuliau teithio'.

#### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:-

- Cyfeiriwyd at drafodaeth gyhoeddus yng nghyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd ar 30 Gorffennaf, 2020, am delerau gwaith a hawliadau treuliau teithio GwE, a gofynnwyd i Reolwr Gyfarwyddwr GwE roi sicrwydd i'r aelodau os bu canfyddiad camarweiniol yn deillio o hynny. Mewn ymateb, eglurodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod staff GwE yn dilyn yr un drefn â Chyngor Gwynedd, ac yn cyd-fynd â'r hyn a gytunwyd gydag Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd.
- Nododd aelod, yn dilyn y drafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, iddo ddarllen yn y wasg am faterion nad oedd yn ymwybodol ohonynt, a mynegodd ei siomedigaeth â'r awdurdod lletyol am beidio dod â'r materion hyn gerbron y Cyd-bwyllgor cyn i'r wasg gael gafael ar y stori. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ei fod yn cydnabod bod yna wersi i'w dysgu, a chadarnhaodd y byddai swyddogion GwE a'r awdurdod lletyol yn edrych ar y gwersi hynny, yn trafod sut i gyfathrebu i'r dyfodol, ac yn adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth oedd canfyddiad yr awdurdod lletyol o'r sefyllfa, nododd y Pennaeth Cyllid fod gwersi wedi'u dysgu gan bawb. Tra nad oedd rhybudd wedi'i roi i'r Cyd-bwyllgor, nodwyd fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i reolaeth GwE ers mis Mawrth 2020, ac nid oedd wedi disgwyl i fanylion y mater godi yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Yn amlwg, byddai wedi bod yn llywodraethu gwell petai'r Cyd-bwyllgor wedi derbyn yr wybodaeth, ond y peth cyntaf a wnaeth ar ôl deall bod y mater yn mynd gerbron y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu oedd trefnu'r eitem gerbron y cyfarfod hwn.
- Nodwyd yr ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE ar y mater a'u bod yn fodlon â'r trefniadau arfaethedig ar y pryd, ac wedi'u sicrhau bod GwE yn cydymffurfio gyda pholisi Cyngor Gwynedd, ac y byddai'r hawliadau treuliau teithio'n cael eu monitro.
- Nodwyd mai'r cwestiynau a godwyd gan aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu oedd wedi gwneud y penawdau, yn hytrach na'r adroddiad archwilio ei hun. Roedd GwE wedi cyfarch y materion a godwyd yn yr adroddiad, ac yn cyd-weithio'n agos gyda'r awdurdod lletyol ar y cytundebau a'r llywodraethu rhwng yr awdurdodau wrth fynd yn eu blaenau.
- Awgrymwyd y gallai'r gwersi a ddysgwyd o'r un mater hwn, a hefyd y ffaith bod GwE yn datblygu ac yn newid, olygu ei bod bellach yn amserol i ystyried adolygu trefniadau llywodraethu GwE.

- Nodwyd ei bod yn bwysig bod materion perthnasol yn dod gerbron y Cyd-bwyllgor yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd y bydd hyn yn dod allan o'r adolygiad o'r trefniadau llywodraethu perthnasol.
- Croesawyd y bwriad i gael adroddiad yn ôl ar y trefniadau llywodraethu a gweld pa welliannau y gellir eu gwneud.

## **8. ASESIAID RISG: SWYDDFEYDD, YMWELD AG YSGOLION A STAFF**

### **PENDERFYNIAD**

- (a) **Cymeradwyo cynnwys yr Aseidiadau Risg.**
- (b) **Rhoi awdurdod i Fwrdd Rheoli GwE gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Aseidiadau Risg i ymateb i sefyllfa Cofid-19, gan gydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafirws, canllawiau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth lechyd a Diogelwch, yn cynnwys rheoli dychwelyd i'r swyddfeydd, ysgolion a hyfforddiant wyneb yn wyneb, mewn ffordd ddiogel**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn cyflwyno Aseidiadau Risg GwE i'r Cyd-bwyllgor (COVID-19 - Diogelu Cymru yn y Gwaith).

Eglurwyd bod gan GwE ddyletswydd gyfreithiol i reoli'r risgiau yn y gweithle, gan gynnwys y risgiau o COVID-19, yn unol â Rheoliadau Coronafirws Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau oedd â'r hawl i weithredu, neu leoliadau oedd â'r hawl i agor wneud hynny'n ddiogel, yn ogystal â gofynion cyfreithiol eraill ar gyflogwyr (megis deddfwriaeth lechyd a Diogelwch).

Gan fod yr aseidiadau risg yn ddogfennau byw oedd yn cael eu hadolygu yn rheolaidd, gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor awdurdodi Bwrdd Rheoli GwE i gymeradwyo unrhyw newidiadau, er mwyn sicrhau bod y mesurau yn dal yn effeithiol ac yn ymateb i sefyllfa COVID-19. Nodwyd hefyd y byddai'r Bwrdd yn darparu gwybodaeth ac yn adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor ar y prif newidiadau pan fyddai'n amserol i wneud hynny.

Diolchodd y Cadeirydd am drylwyrdd yr aseidiadau risg. Nododd y byddai'r aelodau etholedig yn dymuno derbyn diweddariad ar y sefyllfa pan fyddai'n addas i wneud hynny.

Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y byddai hynny yn digwydd drwy swyddogion statudol yr Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau llinellau cyfathrebu clir. Nodwyd bod y Bwrdd Rheoli eisoes wedi cychwyn trafod sut orau i adrodd yn ôl i'r aelodaeth ehangach.

Yn yr un modd, pan fyddai'n amserol i ail-gychwyn ymweliadau ag ysgolion, gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor awdurdodi Bwrdd Rheoli GwE i gymeradwyo hynny. Nodwyd bod y sefyllfaoedd yn yr ysgolion yn ddyrys wrth geisio rheoli'r argyfwng, ac ar hyn o bryd, dylid parhau gyda thrafodaethau o bell. Cytunwyd i gael trafodaeth agored pan fydd hi'n amserol.

## **9. CANLYNIADAU 2020 – ADOLYGIAD ANNIBYNNOL Y GWEINIDOG ADDYSG**

### **PENDERFYNIAD**

- (a) **Nodi cynnwys y papur a sicrhau mewnbwn i'r adolygiad annibynnol.**
- (b) **Bod y Cadeirydd yn anfon llythyr ar fyrder at Gymwysterau Cymru, CBAC, y Gweinidog Addysg a Phrif Weinidog Cymru yn amlygu pryderon y Cyd-bwyllgor ynglŷn â thymor arholiadau 2021, ac yn datgan y dylid gwneud penderfyniad nawr i ddefnyddio graddau asesu canolfannau ar gyfer tymor 2021, yn hytrach nag oedi ymhellach.**

## Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn codi ymwybyddiaeth y Cyd-bwyllgor o'r Adolygiad Annibynnol o ddyfarnu Cymwysterau yng Nghymru yn 2020,

Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE fod y pryder ynglŷn â thymor arholiadau 2021 wedi'i gyfleu i Gymwysterau Cymru yn ôl ym mis Ebrill. Er bod yr Adolygiad o ddyfarnu cymwysterau 2020 yn digwydd, byddai'r gwersi fyddai'n deillio o hynny erbyn Rhagfyr yn rhy hwyr i'w rhoi mewn lle ar gyfer tymor arholiadau 2021.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Na welid sut y gellid arddel system sy'n mynd i ddibynnu ar arholiadau yn 2021 pan fo materion ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn peri pryder o ran sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion.
- Bod angen gweithredu ar unwaith er mwyn lleihau'r ardrawiad ar y disgyblion hynny sy'n colli cyfnodau o'u haddysg drwy orfod aros gartref yn hunan-ynysu wrth aros am brawf COVID.
- Bod GwE a'r 6 awdurdod wedi rhyddhau cyfres o ddatganiadau i'r wasg dros yr haf.
- Bod pobl ifanc wedi colli'r cyfle i fynd i'r Brifysgol eleni oherwydd y sefyllfa, ac ni ddylent gollu eu cyfleoedd bywyd oherwydd y pandemig.
- Byddai'r flwyddyn nesaf yn fwy heriol hyd yn oed, gan y byddai'r bobl ifanc ddylai sefyll arholiadau yn haf 2021 wedi dioddef dwy flynedd o ddryswch i'w haddysg.
- Dylai'r bobl ifanc fod yn ganolog i'r holl drafodaeth, ac ni ddylent gael eu cosbi am y sefyllfa.
- Ei bod yn ymddangos mai amddiffyn y brand oedd yn bwysig.
- Er y feirniadaeth ynglŷn ag athrawon yn codi graddau eleni, roedd angen dull teg o asesu, a nawr oedd yr amser i weithredu rhag wynebu'r un sefyllfa o ddryswch ac anrhefn flwyddyn nesaf.
- Y dylai GwE a'r 6 awdurdod ymateb yn gryf i hyn.

Nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:-

- Nad oedd yna unrhyw eglurder hyd yma ynglŷn â'r hyn fyddai'n digwydd yn 2021.
- Bod Cymwysterau Cymru yn dueddol o ddilyn yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr.
- Bod yr ysgolion yn cynllunio yn y tywyllwch ac angen gwybod ar unwaith beth fydd yn digwydd flwyddyn nesaf, fel y gallent baratoi ar gyfer hynny.
- Mai'r unig ateb oedd defnyddio graddau asesu canolfannau eto'r flwyddyn nesaf, a nododd ei barodrwydd i lunio llythyr ar y llinellau yma.

Awgrymwyd hefyd y gallai'r Aelodau Cabinet Addysg godi'r mater yn eu cyfarfodydd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chytunodd Aelod Cabinet Addysg Gwynedd, fel aelod o Fwrdd CBAC, i gyfleu teimladau cryf y Cyd-bwyllgor yno.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Gyfarwyddwr lunio a rhannu llythyr drafft gydag aelodau'r Cyd-bwyllgor.

## 10. RHAGLEN WAITH GWE A BLAENORIAETHAU'R GWASANAETH

### PENDERFYNIAD

**Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad, rhaglen waith GwE a'r blaenoriaethau drafft a fydd yn cael eu hadolygu'n barhaus i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE, wedi ei ddiweddarau i aelodau'r Cyd-Bwyllgor, am raglen waith GwE yn ystod Tymor yr Haf 2020 ac yn amlinellu'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr, gan fod y sefyllfa mor wahanol eleni, yr awgrymid cynnal gweithdy gydag aelodau'r Cyd-bwyllgor i drafod y camau nesaf o ran y blaenoriaethau tymor byr a gofynion Llywodraeth Cymru yn y cyd-destun hwn. Ychwanegodd mai un elfen i'w hadeiladau i mewn i'r blaenoriaethau oedd sut i gefnogi lles penaethiaid ysgolion, a phenaethiaid addysg, yn y cyfnod hwn o ddryswch ac ansicrwydd.

## **11. DYSGU PROFFESIYNOL – CYNNIG GWE I YSGOLION TYMOR YR HAF 2020**

### **PENDERFYNIAD**

**Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE mewn ymateb i Covid-19.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE yn cynnig gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am y Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE i ysgolion yn ystod pandemig Covid-19.

Diolchwyd i'r staff am y gwaith ardderchog a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynorthwyo'r penaethiaid a'r staff dysgu.

## **12. RHAGLEN DYSGU CARLAM**

### **PENDERFYNIAD**

**Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad a chefnogi'r dull a'r model rhanbarthol mewn perthynas â'r Rhaglen Dysgu Carlam ar gyfer Gogledd Cymru.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn rhannu gwybodaeth bellach ag aelodau'r Cyd-bwyllgor am y Rhaglen Dysgu Carlam ar gyfer Gogledd Cymru, gan amlinellu ymhellach yr Adnoddau Cyflymu Dysgu a ddatblygwyd yn y rhanbarth, sy'n cynnwys cyfres o dystiolaeth o Addysgu Gwybodus a Deunyddiau Dysgu.

Nodwyd bod y Bwrdd Rheoli wedi derbyn cyflwyniad ar hyn ac yn cymeradwyo'r adnodd gwerthfawr hwn.

Holwyd sut roedd yr effaith ar y dysgwyr yn cael ei fonitro. Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr, o'r holl grantiau, y byddai hwn yn cael ei graffu o bersbectif gwleidyddol. Roedd yn rhaid gweithio'n agos gyda'r ysgolion, ac roedd hyn yn golygu ail-ymgysylltu gyda'r dysgwyr yn barhaus. Nodwyd bod GwE yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr yn y maes. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, nad oedd angen rhoi pwysau ychwanegol ar y plant.

Cyfeiriwyd at y ddarpariaeth ar draws y sir, a holwyd a oedd yn ofynnol i'r ysgolion ddarparu cynllun yn egluro sut y byddent yn defnyddio'r arian. Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod GwE yn cadw taenlen yn nodi'r holl grantiau a'r cynlluniau

ar gyfer pob ysgol, a nododd y byddai'n hapus i rannu hynny drwy'r Bwrdd Ansawdd Sirol, neu drwy'r gweithdy fydd yn cael ei drefnu i drafod y blaenoriaethau.

### **13. ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN**

#### **PENDERFYNIAD**

#### **Nodi cynnwys yr adroddiad.**

Trafodaeth

Cyflwynwyd – adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr GwE yn cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am Adolygiad Thematig arfaethedig Estyn, fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a gyflwynwyd.

Cwestiynwyd amseriad yr adolygiad, gan y byddai'n rhoi pwysau ychwanegol a diangen ar y penaethiaid a'r ysgolion, sydd eisoes dan eu sang.

Nodwyd y cynhelid cyfarfod gydag Estyn yn fuan a gallai'r Aelodau godi'r mater hwn yno.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12.25yp.

---

**CADEIRYDD**





## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

11 Tachwedd 2020

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Trefniadau Llywodraethu: Archwiliad Mewnol

---

### 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno a gofyn am gymeradwyaeth y Cydbwyllgor mewn perthynas â threfniadau archwilio mewnol.

### 2. Cefndir

2.1 Yn ystod cyfarfod diwethaf Cydbwyllgor GwE (eitem 7, 15/09/20), gofynnodd yr aelodau i Reolwr Gyfarwyddwr GwE, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd, adolygu'r trefniadau llywodraethu ac adrodd yn ôl iddynt y Cydbwyllgor.

### 3. Trefniant Arfaethedig

#### 3.1 Cyd-destun Statudol

Mae GwE yn 'gorff perthnasol' sy'n gorfod cynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system rheolaeth fewnol. O dan Adran 151 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972, mae Swyddog 'Adran 151' yr awdurdod lletyol yn gyfrifol am

---

sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli ar gyfer rheoli materion ariannol GwE. Mae'n dibynnu yn sylfaenol ar Archwilio Mewnol i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Rhan o swyddogaeth Archwilio Mewnol yw rhoi sicrwydd bod trefniadau yn ddarostyngedig i lefel briodol o reolaeth fewnol, ac i adrodd ar unrhyw risgiau neu wendidau yn y system rheolaeth fewnol, neu unrhyw golled ariannol neu afreoleidd-dra i'r Swyddog Adran 151 yn ogystal â'r rheolaeth briodol a'r Cydbwyllgor sy'n gyfrifol am lywodraethu GwE.

3.2 Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn, darperir gwasanaeth archwilio mewnol i GwE yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus ("PSIAS"). Mae'r Safonau yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol yn y sector gyhoeddus, boed yn fewnol, gwasanaethau a rennir neu allanol.

3.3 Mae'r Safonau yn diffinio Archwilio Mewnol fel a ganlyn: "Mae Archwilio Mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad gyflawni ei amcanion drwy werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu mewn modd disgybledig, systematig."

#### **4.0 Trefniadau Rheolaethol a Llywodraethu Arfaethedig**

4.1 Mae gan GwE broses i adnabod yr angen am archwiliad mewnol a gweithredu ar yr argymhellion, sef:

- 1) Adnabod yr angen am archwiliad mewn meysydd penodol. Bydd y cynllun gwaith hyn yn cael ei ddatblygu lle'n bosib trwy ystyried cofrestrau risg, adroddiadau perfformiad, chynlluniau busnes ayb.
- 2) Cyfarfod rhwng Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.
- 3) Cytuno ar y rhaglen archwilio am y flwyddyn gyda'r Bwrdd Rheoli.
- 4) Cynnwys y rhaglen i'w rhannu hefo'r Cydbwyllgor.
- 5) Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i gynnal yr archwiliadau.
- 6) Rhannu adroddiadau archwilio drafft gyda rheolwyr perthnasol GwE am gywirdeb ac i gytuno camau gweithredu i gyfarch unrhyw risgiau.

- 7) Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i anfon adroddiadau archwilio i Reolwr Gyfarwyddwr a rheolwyr perthnasol GwE.
  - 8) Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar gamau gweithredu cytunedig (materion gweinyddol fydd ddim angen mewnbwn y Cydbwyllgor).
  - 9) Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i rannu adroddiadau archwilio unigol gyda'r Bwrdd Rheoli.
  - 10) Rheolwr Archwilio'r awdurdod lletyol yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cydbwyllgor ar unrhyw archwiliadau y cynhelir yn ystod y flwyddyn.
  - 11) Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar benderfyniadau'r Cydbwyllgor.
  - 12) Swyddogion GwE i adrodd ar gynnydd fel bo angen i'r Cydbwyllgor.
- 4.2 Bydd dilyn y broses yma yn sicrhau eglurder rôl GwE yn adrodd ar ganfyddiadau'r uned archwilio mewnol a chyfathrebu clir a llywodraethiant priodol i wasanaeth rhanbarthol.
- 4.3 Er mwyn ffurfioli'r drefn yma ymhellach, bydd y Cydbwyllgor yn cael cyfle buan i ystyried a mabwysiadu Siarter Archwilio Mewnol, fel sy'n ofynnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus.

## **5. Argymhelliad**

- 5.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r trefniadau fel y nodir yn adran 3.

## **6. Goblygiadau Ariannol**

- 6.1 Nid oes unrhyw ymrwymïadau ariannol ychwanegol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **7. Effaith Cydraddoldeb**

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## **8. Goblygiadau Personél**

- 8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**9. Ymgynghori sydd wedi digwydd**

9.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid yr awdurdod lletyol.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae darparu trefniadau archwilio priodol yn rhan o'r fframwaith sicrwydd i'r Cynghorau a'r Cyd-Bwyllgor ynglŷn a llywodraethu GwE. Cynigir trefn ar gyfer gweithredu y system yma sydd yn darparu eglurdeb ar gyfer ymdrin a rhaglennu archwiliadau a chyfathrebu adroddiadau o fewn y trefniadau presennol. Mae'n bwysig nodi hefyd fod gan y Cynghorau angen am drefniadau archwilio cadarn ac annibynnol ac nad yw'r drefn yma yn hepgor adrodd i Bwyllgor Archwilio unrhyw Gyngor pe bai angen penodol gwneud hyn.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad, ac rwy'n cadarnhau fy nghefnogaeth i gydweithio ar sail y trefniadau arfaethedig a gyflwynir yma.



## **ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

### **11 Tachwedd 2020**

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Adroddiadau Archwilio

---

#### **1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Rhannu adroddiadau archwilio perthnasol a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol y rhanbarth ar y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol.

#### **2.0 Cefndir**

2.1 Fel y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru, GwE sydd yn cydlynu ac yn gweinyddu'r grantiau rhanbarthol a ddyfernir gan Lywodraeth Cymru.

2.2. Yn ogystal â'r archwiliad blynyddol ar gyfrifon, cynhelir nifer o archwiliadau ar agweddau penodol ar reolaethau, gweithdrefnau a phrosesau yn flynyddol.

2.3 Pwrpas yr archwiliadau yw cadarnhau bod rheolaethau a phrosesau priodol a digonol mewn lle o fewn GwE, yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a'r awdurdodau lleol wrth weinyddu'r grantiau a bodloni amodau a thelerau Llywodraeth Cymru.

#### **3.0 Ystyriaethau**

3.1 Dyma'r adroddiadau sy'n cael eu cynnwys:

- Adroddiad Archwiliad Grant Datblygu Disgyblion - Cyngor Gwynedd
- Adroddiad Archwiliad Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol - Cyngor Gwynedd

- Grant Datblygu Disgyblion - Adroddiad Archwiliad dyraniad Plant sy'n Derbyn Gofal - Cyngor Sir Ynys Môn

3.2 O'r archwiliadau a gynhaliwyd, darparwyd sicrwydd sylweddol / uchel bod rheolaethau digonol a phriodol mewn lle. Nid oedd unrhyw risgiau wedi'u hadnabod ar gyfer rheolaeth.

#### **4.0 Argymhelliad**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Cynhaliwyd yr archwiliadau hyn gan swyddogion o'r awdurdodau lleol perthnasol.

#### **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad A: Adroddiad Archwiliad Grant Datblygu Disgyblion - Cyngor Gwynedd

9.2 Atodiad B: Adroddiad Archwiliad Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol - Cyngor Gwynedd

9.3 Atodiad C: Grant Datblygu Disgyblion - Adroddiad Archwiliad dyraniad Plant sy'n Derbyn Gofal - Cyngor Sir Ynys Môn

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim byd i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'n galonogol i weld lefel sicrwydd 'Uchel' / 'Sylweddol' o fewn y 3 adroddiad archwiliad mewnol cyflwynir yma. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau priodol sydd wedi'u sefydlu o fewn GwE ac yn awdurdodau'r rhanbarth i weinyddu'r grantiau rhanbarthol yma.

**ADRODDIAD  
ARCHWILIAD  
MEWNOL**



# GRANT DATBLYGU DISGYBLION

**ADDYSG**

**2020/21**

**RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD  
PUTTING THE PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO**



## GRANT DATBLYGU DISGYBLION ADDYSG

### 1. Cefndir

- 1.1 Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Bwriedir iddo oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial llawn.
- 1.2 Caiff y grant ei ddirprwyo i'r Ysgolion / lleoliadau blynyddoedd cynnar gan eithrio'r elfen 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a caiff ei reoli yn rhanbarthol gan y Consortiwm Addysg Lleol, sef GwE. Mae GwE hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant a'u cefnogi i'r perwyl hynny. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Arweiniol y Grant ar ran Awdurdodau y gogledd.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cadarnhau cywirdeb y Dystysgrif Archwilio, sef datganiad o wariant yr Awdurdod ar gyfer grant 2019/20, a chadarnhad bod systemau a rheolaethau mewnol yn eu lle i sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion priodol. Yn ogystal, cadarnhawyd bod y grant wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod trefniadau priodol ar gyfer monitro'r grant a hawlio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
<b>UCHEL</b>	<b>Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</b>

### 4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Gwelwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu'r Grant Datblygu Disgyblion. Cysonwyd y gwariant ar y Dystysgrif Archwilio gyda'r cyfriflyfr ac ymddengys fod y gwariant yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant.



## **CYDNABYDDIAETH**

Yr archwiliwr ac awdur yr adroddiad hwn yw:

Bleddyn Rhys  
Arweinydd Archwilio  
BleddynRhys@gwynedd.llyw.cymru  
Est. 34680  
01286 682680

Adolygwyd yr adroddiad gan:

Luned Fôn Jones  
Rheolwr Archwilio  
LunedFonJones@gwynedd.llyw.cymru  
Est. 34687  
01286 682687

Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r swyddogion perthnasol am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

### **LUNED FÔN JONES**

**Rheolwr Archwilio**

Hydref 2020

#### **Dosbarthiad:**

##### **Terfynol**

Pennaeth Cyllid

Pennaeth Addysg

Rheolwr Busnes a Chyllid GwE

Cyfrifydd Grwp - Addysg ac Economi a Chymuned

Uwch Gyfrifydd

Pennaeth Cynorthwyol - Cyllid

**ADRODDIAD  
ARCHWILIAD  
MEWNOL**



**GRANT CONSORTIA  
RHANBARTHOL GWELLA  
YSGOLION**

**ADDYSG**

**2020/21**

**Tud. 22**



## GRANT CONSORTIA RHANBARTHOL GWELLA YSGOLION ADDYSG

### 1. Cefndir

- 1.1 Ar 1af Ebrill 2015, crëwyd y Grant Gwella Addysg (GGA) wedi i Lywodraeth Cymru gyfuno'r grantiau canlynol:
- Cyfnod Sylfaen
  - Llwybrau Dysgu 14-19
  - Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)
  - Grant y Gymraeg mewn Addysg
  - Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
  - Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr
  - Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwysu
  - Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch
  - Ysgolion Arweiniol a Datblygol
  - Cefnogaeth i Brofion Darllen a Rhifedd
  - Cyllid i Ysgolion Band 4 a 5
- 1.2 Bellach mae'r GGA wedi ei ymgorffori i grant newydd, sef, 'Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion – (GRCGY)'. Diben y grant yw gwella deilliannau addysgol ar gyfer pob dysgwr a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau dysgwyr.
- 1.3 Egwyddor craidd y grant yw bod y mwyafrif helaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth rheng flaen gydag amodau a thelerau grant 2019-20 yn nodi'r disgwyliad bod isafswm o 80% o gyfanswm y GRCGY yn cael ei ddatganoli'n uniongyrchol i'r ysgolion. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod arweiniol GRCGY a GwE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant ac yn cefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu GRCGY 2019-20, er mwyn lliniaru risgiau yn unol ag amodau a thelerau'r grant yn ogystal â chadarnhau bod sail i'r ffigyrau a gyflwynir ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant a dilyn trywydd y ffigyrau i'r cyfriflyfr i gadarnhau eu cywirdeb a'u priodoldeb.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

#### **4. Prif Ddarganfyddiadau**

- 4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion. Dilynwyd sampl o'r ffigyrau yn ôl i gyfriflyfr ariannol y Cyngor, ac fe'u cafwyd yn gywir, yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant.
- 4.2 Ymddengys bod trefniadau da yn bodoli ar gyfer gweinyddu'r GRCGY. Gwelwyd bod y canran priodol o'r cyllid gros wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod y canran priodol o'r arian grant wedi ei ddargadw ar gyfer pwrpas gweinyddiaeth yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

## **CYDNABYDDIAETH**

Yr archwiliwr ac awdur yr adroddiad hwn yw:

Gwawr Mererid Owen  
Uwch Archwiliwr  
GwawrMereridOwen@gwynedd.llyw.cymru  
Est. 34688

Adolygwyd yr adroddiad gan:

Bleddyn Rhys  
Arweinydd Archwilio  
BleddynRhys@gwynedd.llyw.cymru  
Est. 34680

Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r swyddogion perthnasol am eu cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

**LUNED FÔN JONES**  
**Rheolwr Archwilio**  
Medi 2020

### **Dosbarthiad:**

#### **Terfynol**

Pennaeth Cyllid  
Pennaeth Addysg  
Cyfrifydd Grwp  
Uwch Gyfrifydd Datblygu  
Rheolwr Busnes a Chyllid GwE  
Pennaeth Cynorthwyol Cyllid



# Grant Datblygu Disgyblion – Dyraniad Plant sy'n Derbyn Gofal

Medi 2020

## Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA

Eurwen Williams BA (Hons)



## 1 RHAGARWEINIAD

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru (LLC) y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) er mwyn cael effaith barhaol ar ganlyniadau dysgwyr difreintiedig, i'w helpu i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial llawn.

Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu elfen ar wahân o'r cyllid Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant a arferai dderbyn gofal mewn addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid yn flynyddol i'r consortia addysg ar sail ranbarthol gan ddefnyddio data ar nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ardal yr awdurdod lleol (a oedd yn 2019-20 yn gysylltiedig â Chyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yng Nghymru 2018).

Mae GwE, y consortiwm effeithiolrwydd ysgolion a gwella rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, yn cydlynu ac yn gweinyddu elfen Plant sy'n Derbyn Gofal y Grant Datblygu Disgyblion.

Cyfanswm cyffredinol Grant Datblygu Disgyblion y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 oedd £102,575.

£86,473 oedd y gwariant a gafwyd yn uniongyrchol gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod y cyfnod a chafwyd £16,100 o wariant ychwanegol gan GwE ac a gofnodwyd yn ganolog gan y consortiwm.

## 2 SGÔP

Cyfyngwyd yr adolygiad i'r Grant Datblygu Disgyblion (dyraniad Plant sy'n Derbyn Gofal) a ddyrannwyd i'r Cyngor drwy GwE ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020 ac roedd cyfyngiadau pellach ar y cwmpas fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd gwaith profi cyfyngedig o sampl o wariant a gofnodwyd i ddarparu sicrwydd bod y gwariant a hawliwyd yn gymwys ac wedi'i ddatgan yn deg.
- Nid yw'r gwaith yn darparu sicrwydd llwyr nad oes unrhyw gamgymeriadau, colledion neu dwyll yn bodoli.

## 3 CRYNODEB O'R GWAITH PROFI

### 3.1 DATGANIAD O WARIANT REFENIW 2019/20 – MAE COFNODION YN COFNODI'R GWIR SYMIAU A GAFWYD YN GWYR

Dyraniad GDD Plant sy'n Derbyn Gofal (gan GwE):	
Clystyrau Lleol (a gymeradwywyd gan GwE)	£76,931.75
Elfennau lleol: bwrsariaethau, rhwydweithio a dysgwyr tu allan i Gymru	£25,643.75
Cyfanswm dyraniad	£102,575.50
Llai gwariant a gafwyd yn uniongyrchol gan GwE	£16,100.00
Balans	£86,475.00 <sup>1</sup>
Gwir Wariant Cymwys a Gafwyd	£86,473.00 <sup>2</sup>

<sup>1</sup> Incwm ar y ledjer ar gyfer 2019-20 wedi cael ei ostwng gan £144.10 o ganlyniad i addasiad i'r dyraniad grant yn 2018-19

<sup>2</sup> Addasiad o £2 yn y gwariant a hawliwyd oherwydd amrywiad yn yr anfoneb gan Gyngor Sir Ddinbych (croniad 2018-19)

Cyfanswm y Grant a Hawliwyd	£86,473.00
Hawl i Grant	£86,473.00
Amrywiad	Dim

Mae'r Gwasanaeth Cyllid yn cadw taenlen i gofnodi manylion y gwariant a gafwyd mewn perthynas â'r grant. Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion ar wahân ar gyfer gweithgarwch dan y grant yn y ledjer ariannol yn erbyn y cod canolfan cost AD799, ac mae'r incwm grant a ddyrennir i Blant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei gofnodi dan y côd manylion S0004 ac mae gwariant y grant yn cael ei nodi ar wahân dan godau manylion amrywiol eraill sy'n ymwneud â thaliadau i glystyrau lleol, bwrsariaethau, gwasanaethau a deunyddiau.

Gwnaethom ddilysu fod y ffigwr a ddatganwyd ar gyfer y gwir wariant a gafwyd, cyfanswm o £86,473.00, yn cyfateb i'r ffigwr ar gyfer cyfanswm y gwariant ar gyfer y grant hwn yn y ledjer ariannol yn y cyfnod 2019/20 (gyda mân amrywiad oherwydd gwahaniaeth o £2 yn ymwneud ag anfoneb gan Gyngor Sir Ddinbych).

Er mwyn darparu sicrwydd fod y gwariant a gofnodwyd yn cynrychioli'n gywir y gwir symiau a gafwyd gan y Cyngor mewn perthynas â phwrpas y grant, adolygwyd sampl o eitemau gwariant a restrwyd ar y daenlen 'AD799 monitro Plant sy'n Derbyn Gofal' a gedwir gan y Gwasanaeth Cyllid a'u cysoni yn erbyn y ledjer ariannol a system daliadau credydwy'r Cyngor, a gyda dogfennau cefnogol. Gwnaed gwaith profi fel a ganlyn:

Mae rhan o'r grant ar gyfer bidiau clwstwr, sef ceisiadau am symiau dros £1,150. Mae ysgolion yn anfon y ceisiadau hyn yn uniongyrchol at GwE, at yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant ar gyfer Llesiant. Mae panel yn GwE yn adolygu pob cais ac yn derbyn mewnbyn gan Gydlynnydd Addysg Plant Sy'n Derbyn Gofal y Cyngor. Mae GwE yn hysbysu'r Cyngor am y ceisiadau llwyddiannus a'r symiau perthnasol i'w talu. Roedd ein profion yn cynnwys adolygu bid clwstwr am £18,750, a adnabuwyd o'r daenlen 'AD799 monitro Plant sy'n Derbyn Gofal', y gwnaethom ei gysoni yn erbyn y ledjer ariannol a'i ddilysu drwy adolygu'r ffurflen gais am grant a gohebiaeth gan GwE yn rhoi cyfarwyddiadau i dalu'r swm y cytunwyd arno yn dilyn cyflwyno cais llwyddiannus.

Mae'r grant yn cynnwys bidiau lleol hyd at swm o £1,150 hefyd. Mae ysgolion yn anfon y ceisiadau hyn at Gydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal y Cyngor, ac maent yn cael eu trafod mewn panel lleol. Mae'r panel lleol yn cynnwys y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Uwch Reolwr Lles (Addysg) a Chydlynnydd Cyllid Addysg. Roedd ein profion yn cynnwys bid lleol gan ysgol uwchradd i ddatblygu eu Canolfan Cefnogi Disgyblion. Derbyniom y cais am grant, am swm o £8,900, sy'n uwch na'r terfyn o £1,150. Dilyswyd fod y panel wedi cymeradwyo grant o £5,000 mewn perthynas â'r cais hwn a chafwyd tystiolaeth fod Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant - Llesiant GwE wedi bod yn rhan o'r broses o adolygu'r cais a chymeradwyo'r taliad grant.

Mae gwariant arall, (h.y. gwariant nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol ag ysgolion), yn cael ei gofnodi dan gôd ar wahân, sy'n ymwneud â gwasanaethau a deunyddiau ac yn cynnwys, er enghraifft, llogi ystafelloedd a lletygarwch ar gyfer digwyddiadau rhwydweithio lleol. Roedd ein profion yn cynnwys adolygu sampl o ddau o drafodion ar gyfer gwariant arall fel a ganlyn:

Mae'r cyntaf, am swm o £452.50, yn ymwneud â chroniad dyledwr o'r llynedd (2018-19). Mae'r croniad ar gyfer gwerth net y trafodiad, £377.08 (heb gynnwys TAW) ac yn ymwneud â digwyddiad rhwydweithio a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019. Talodd y Cyngor yr anfoneb, dyddiedig 25/03/2019, drwy'r system daliadau credydwy'r ar 08/04/2019, gan hawlio ad-daliad am yr elfen TAW. Dilyswyd y symiau gennym (a gafodd eu cofnodi o dan godau amrywiol) yn erbyn dogfennau gwreiddiol a chanfuwyd tystiolaeth foddhaol o'r gwariant.

Mae'r ail drafodiad am swm o £257.48 (heb gynnwys TAW) yn wariant cronus ar gyfer 2019/20, yn ymwneud â chais am gymorth grant i brynu gliniadur i alluogi plentyn sy'n derbyn gofal i barhau i wneud gwaith ysgol gartref ar ôl y dyddiad pan ddaeth y cyfnod clo cenedlaethol i rym oherwydd coronafeirws (23/03/2020). Gwelsom fod gan y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal dystiolaeth o'r pryniant a threfnwyd ad-daliad drwy'r system daliadau credydwy'r, a phroseswyd y taliad ar 14/05/2020, gan gynnwys yr elfen TAW. Oherwydd yr amgylchiadau, ni



chynhaliwyd panel ffurfiol ond cadarnhaodd y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyngofal iddi drafod y pryniant gyda'r Uwch Reolwr Lles (Addysg) a dod i gytundeb yn ei gylch.

O'r profion sampl a gynhaliwyd, gallwn ddarparu sicrwydd fod y Datganiad o Wariant Refeniw yn adlewyrchu'n gywir y gwir wariant cymwys a gafwyd mewn perthynas â'r Grant Datblygu Disgyblion - elfen Plant sy'n Derbyngofal yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20.

### **3.2 GWARIANT YN UNOL Â THELERAU AC AMODAU / DIBEN Y GRANT**

Mae GwE wedi datblygu canllawiau ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal, ar draws y rhanbarth. Dosbarthwyd y canllawiau i uwch swyddogion, Cydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyngofal yn y chwe awdurdod lleol, ysgolion ac uwch swyddogion yn GwE, yn ogystal ag aelodau'r grŵp Sicrhau Ansawdd Strategol Rhanbarthol. Mae'r canllawiau'n cynnwys meini prawf y mae'n rhaid i geisiadau gan ysgolion eu bodloni gan gynnwys dangos sut y byddant yn defnyddio'r cyllid i gael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad ac ymgysylltiad dysgwyr.

Down i'r casgliad fod ein gwaith profi ar sampl o drafodion unigol mewn perthynas â'r grant hwn fod y gwariant yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant. Roedd y gwariant a gafwyd yn ymddangos yn rhesymol er mwyn cwrdd ag amcanion y grant fel y nodwyd gan GwE.

### **3.3 CYNNAL MESURAU RHEOLI A CHOFNODION I SICRHAU FOD Y GRANT YN CAEL EI WEITHREDU'N BRIODOL**

Gwelwyd tystiolaeth fod y Gwasanaeth Cyllid yn cadw taenlen i gofnodi gwariant grant ar sail barhaus ar gyfer pob blwyddyn y derbynnir y grant a bod y Cyngor yn nodi incwm a gwariant ar wahân ar gyfer y grant yn y ledjer. Mae'r Cydlynnydd Cyllid Addysg yn mynychu cyfarfodydd panel, ynghyd â'r Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyngofal, yr Uwch Reolwr Lles (Addysg) ac Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant - Llesiant GwE. Mae proses gais (gweler 3.1 uchod) ac mae'r Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyngofal yn cadw cofnodion anffurfiol ar gyfer y panelau lle mae swyddogion yn trafod ceisiadau ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cymeradwyo neu wrthod ceisiadau yn unol â'r meini prawf cymeradwy.

Fel y tystia ein profion sampl, roedd y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyngofal a'r Cydlynnydd Cyllid Addysg yn gallu darparu tystiolaeth y cymeradwywyd taliadau mewn perthynas â cheisiadau clwstwr a bwrsariaethau ac ar gyfer gwariant arall, roedd y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyngofal yn gallu darparu tystiolaeth gefnogol ar gyfer y trafodion.

Rydym yn fodlon fod y Cyngor yn cadw cofnodion priodol ar gyfer gweithgarwch dan y grant a bod camau rheoli a systemau monitro priodol yn bodoli i sicrhau fod y grant yn cael ei weithredu'n gywir.

## **4 BARN SICRWYDD**

O'n hadolygiad o fesurau rheoli a chofnodion y grant, gallwn roi sicrwydd fod mesurau rheoli a chofnodion digonol a phriodol wedi eu cynnal gan y Cyngor mewn perthynas â'r Grant Datblygu Disgyblion - elfen Plant sy'n Derbyngofal ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

Gallwn gadarnhau hefyd fod ein gwaith profi yn rhoi sicrwydd fod y gwariant a hawliwyd yn gymwys yn unol â thelerau ac amodau'r grant, a'i fod wedi cael ei ddatgan yn deg yng nghyfrifon y Cyngor.

Nid ydym wedi nodi unrhyw risgiau y mae angen eu dwyn i sylw rheolwyr.

Cyfradd Sicrwydd	Diffiniad
<b>SICRWYDD SYLWEDDOL</b>	Mae trefniadau llywodraethiant, rheoli risg a rheoli mewnol yn dda.  Ni chanfuwyd unrhyw Faterion/Risgiau sylweddol na pherthnasol

## RHESTR GYLCHREDEG A DYDDIADAU ALLWEDDOL

### Adroddiad Terfynol

• Marc Jones - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
• Rhys H Hughes - Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
• Llio Jones - Rheolwr Cyllid, Adnoddau
• Heulwen Owen - Cydlynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg
• Gareth J Roberts - Uwch Gyfrifydd - Addysg, Adnoddau
• Y Cynghorydd Robin Wyn Williams, Aelod Portffolio Cyllid
• Y Cynghorydd R Meirion Jones, Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant
• Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
• Gwion Elis Jones - Uwch Gyfrifydd (Cyngor Gwynedd) drwy Cyllid

### Dyddiadau Allweddol

Cychwynnwyd yr Adolygiad	Medi 2020
Cwblhawyd yr Adolygiad	Medi 2020
Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Rhagfyr 2020
Dyddiad arfaethedig ar gyfer dilyn i fyny	Amherthnasol

# Eitem 9

GwE: Cyd-Bwyllgor 11/11/20

---



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

11 TACHWEDD 2020

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cofrestr Risg GwE

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

### 2.0 Cefndir

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau. Mae'r diwygiadau i'r gofrestr wedi eu hamlygu mewn coch.

Dilynwyd y matrices risg canlynol wrth bennu statws y risg.

Matrics Risg					
<b>Tebygolrwydd</b>	Bron yn sicr	Isel (4)	Canolig (8)	Uchel (12)	Uchel (16)
	Tebygol	Isel (3)	Canolig (6)	Canolig (9)	Uchel (12)
	Posib	Isel (2)	Isel (4)	Canolig (6)	Canolig (8)
	Annhebygol	Isel (1)	Isel (2)	Isel (3)	Isel (4)
		<b>Isel</b>	<b>Canolig</b>	<b>Uchel</b>	<b>Hynod uchel</b>
<b>Effaith</b>					

#### 4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr.
- 4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

#### 5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

#### 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### 7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### 8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 8.1 Mae Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio'r risgiau fel y bo'n briodol.

## **9.0 Atodiadau**

### **9.1 Cofrestr Risg GwE**

---

#### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

##### **Swyddog Monitro:**

Mae sistem adolygu risgiau yn rhan sylfaenol o lywodraethu effeithiol. O ystyried y proffil risg a amlygir yn y tabl mae'n bwysig fod y Cyd Bwyllgor yn rhoi sylw manwl i'r asesiad a'r ymateb.

##### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Rwyf wedi cydweithio gyda'r swyddogion perthnasol i baratoi'r asesiad a'r gweithrediad ynghylch risgiau cyllidol a byddaf yn cefnogi Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth eu rheoli. Cyflwynir sylwadau pellach ar risgiau penodol, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar y 11eg o Dachwedd.

RHIF RISG	CRYNODEB	AMCAN STRATEGOL GwE	RISG A NODWYD	TEBYGOLRWYDD RISG	EFFAITH RISG	TEBYGOLRWYDD X EFFAITH	GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU	RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL	TEBYGOLRWYDD X EFFAITH	PERCHENNOG RISG	CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL
1	Cyllidol	I GYD	Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.	C/U	U	2A	Mae cynllun Ariannol Tymor Canolig a Fframwaith a Pholisi Gwerth am Arian ar waith. Datblygwyd cynlluniau ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau.	C/U	2B	RhG / RhB	Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r pwysau cyllidebol erbyn 2021/22 (gan gofio effaith posibl Covid-19), er bydd setliad grant hwyr (22/12/2020) Llywodraeth Gymru ar gyfer yr awdurdodau lleol yn 2021/22 yn gwneud hyn yn amhosibl cyn mis Ionawr, pryd byddwn yn ymgynghori â phrif swyddogion awdurdodau cyfansodol ynghylch effaith unrhyw doriadau posibl mewn ariannu ar eu cyfraniadau ariannol. Ymhellach, mae adolygiad gwariant un-flwyddyn Llywodraeth San Steffan yn gwneud unrhyw adolygiad o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn llai cywir. Felly, lle bo hynny'n bosibl, byddai'n ddefnyddiol i GwE gynllunio'n hyblyg ar gyfer ystod eang o ddeilliannau.
2	Cyllidol	I GYD	Mae ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LIC yn llesteirio cynllunio strategol tymor hir. Mae oedi sylweddol o ran cadarnhau lefelau cyllido yn effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol.	C/U	U	2A	Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â'r Swyddog Adran 151. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys manylion ynghylch y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gweithredir modelu ariannol i lywio penderfyniadau.	C/U	2C	RhG / RhB / Bwrdd Rheoli	Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r pwysau cyllidebol erbyn 2021/22 (gan gofio effaith posibl Covid-19), er bydd setliad grant hwyr (22/12/2020) Llywodraeth Gymru ar gyfer yr awdurdodau lleol yn 2021/22 yn gwneud hyn yn amhosibl cyn mis Ionawr, pryd byddwn yn ymgynghori â phrif swyddogion awdurdodau cyfansodol ynghylch effaith unrhyw doriadau posibl mewn ariannu ar eu cyfraniadau ariannol. Ymhellach, mae adolygiad gwariant un-flwyddyn Llywodraeth San Steffan yn gwneud unrhyw adolygiad o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn llai cywir. Felly, lle bo hynny'n bosibl, byddai'n ddefnyddiol i GwE gynllunio'n hyblyg ar gyfer ystod eang o ddeilliannau.
5	Safonau	I GYD	Nad yw sgôp sylweddol y Diwygio Addysg sy'n mynd rhagddo, sy'n cynnwys atebolrwydd, dysgu proffesiynol, digidol, yr Iaith Gymraeg, datblygiad cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth ac ADY, yn cael ei gynnwys yn llawn a'i weithredu'n llwyddiannus. Mae ymwybyddiaeth ysgolion o'r pedwar diben Cwricwlwm i Gymru a datblygiad y Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm yn gyfyngedig ac mae'n creu ansicrwydd mewn ysgolion. Mae newidiadau i'r cwricwlwm ac i gymwysterau yn creu ansicrwydd mewn ysgolion. Mae pandemig Covid-19 wedi lleihau amserlen i ysgolion weithio ar ymgysylltu â'u paratoadau Cwricwlwm i Gymru gwreiddiol.	U	U	2A	Gweithiodd Hwyluswyr Clwstr Cwricwlwm i Gymru ar waith â ffocws ar draws eu hysgolion partner o fewn y continwmm 3-16 gyda llawer yn adlewyrchu ac yn rhannu cynnydd mewn cyfarfodydd clwstr lleol gydag YCG. Datblygwyd y cynllun dysgu proffesiynol traws-ranbarthol i ddechrau ar gyfer uwch arweinydd, arweinydd canol ac athrawon a llwyddodd pob rhanbarth i godi ymwybyddiaeth trwy'r rhwydweithiau presennol ym mis Ionawr 2020. Yn ystod 2020 cynnar, dechreuwyd cyflwyno'r cyntaf o'r sesiynau hyn ar arwain newid mewn sesiynau clwstr llai gyda dros 300 o uwch arweinydd wedi'u cofrestru. Fodd bynnag, oherwydd y cyfnod clo a'r ffocws cenedlaethol ar gefnogi dysgu o bell, seibiwyd yr holl waith ar gefnogi diwygio'r Cwricwlwm i Gymru. Ym mis Medi 2020, mae'r gwaith Dysgu Proffesiynol traws-ranbarthol hwn bellach wedi aildechrau a gwnaed newidiadau i alluogi hyn i gael ei gyflawni ar-lein. Ym mis Tachwedd 2020, mae'r cynnig Dysgu Proffesiynol bellach mewn lle i'w gynnig i bob ysgol gan ddechrau gyda newid blaenllaw a datblygu gweledigaeth a rennir. Mae GwE wedi gweithio gyda phartneriaid haen ganol a Llywodraeth Cymru i gyfrannu at ddogfen disgwyliadau cenedlaethol y system sy'n cyfleu disgwyliadau ar gyfer ysgolion rhwng nawr a 2022 a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.	C	2B	Uwch Arweinydd DU	Parhau i gefnogi pob ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn unol â disgwyliadau'r system yn y Daith hyd at 2022: Y cam ymgysylltu ac yna'r Cyfnod Dylunio, Cynllunio a Threialu - Codi ymwybyddiaeth o bob ymarferydd ysgol o ganllaw Cwricwlwm Cymru a Dysgu Proffesiynol traws-ranbarthol i gefnogi - Parhau i ymgysylltu â phob ysgol trwy'r cynnig PL rhanbarthol a hwyluso cydweithredu ar draws y continwmm 3-16 - Parhau i gefnogi pob ysgol i gynllunio ar gyfer disgwyliadau system a defnyddio cerrig milltir G6 Cwricwlwm Cymru, i gynnwys myfyrddodau ar unrhyw ddysgu ar ffyrdd newydd o weithio trwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol - Parhau â chyfarfodydd SIA tîm llawn rheolaidd i gefnogi gwneud synnwyr o Gwricwlwm Cymru a datblygu negeseuon cyson ar draws yr holl rwydweithiau - Parhau i gydweithio â Phrifysgol Bangor ac ysgolion Ymchwil Proffesiynol Arweiniol i ddatblygu rôl ymholi proffesiynol o fewn addysgu a dysgu. - Datblygu sianeli cyfathrebu effeithiol ymhellach ar gyfer rhannu datblygiadau cwricwlwm trwy wefan, Twitter a G6
6	Safonau	AS2	Anawsterau recriwtio Penaethiaid ar draws y rhanbarth/Recriwtio arweinyddiaeth o safon ar bob lefel.	C	C	2C	Cyflwyno Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol sy'n datblygu sgiliau arwain ymarferwr mewn cyd-destunau penodol trwy gydol pob carreg filtir o'r llwybr dysgu proffesiynol. Mae Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol wedi'u haddasu ar gyfer dull Cyfunol / Pellter fel y gallant barhau. Rhaglen ddatblygu arweinydd canol cenedlaethol newydd i gychwyn ym mis Rhagfyr / Ionawr. Rhaglen Uwch Arweinydd newydd yn cael ei datblygu - i gychwyn yn ystod tymor y Gwanwyn. Bydd hyn yn pontio'r bwch rhwng rhaglenni Arweinydd Canol a Darpar Benaethiaid / CPCP. Bydd y Rhaglen CPCP datblygiadol newydd yn cychwyn ym mis Ionawr, yn cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i 5 diwrnod datblygu gyda'r Ganolfan Asesu ym mis Chwefror 2022. Asesiad CPCP dim ond ar waith ar gyfer Chwefror 2021 ar gyfer ymgeiswyr sy'n barod am Brifathrawiaeth nawr gyda chefnogaeth minimal.	C/I	2D	RhG / CC	Parhau i gynnig amrediad eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth er mwyn datblygu arweinydd y presennol a'r dyfodol.
7	Safonau	I GYD	Mae toriadau i gyllidebau ysgolion yn effeithio ar allu ysgolion i barhau i godi safonau.	U	U	2A	Mae lefelau dirprwyo grantiau rhanbarthol ar ei uchaf ar hyn o bryd.	C/U	2B/C	AauLI/Ysgolion	Parhau i sicrhau bod lefelau dirprwyo yn parhau i godi. Gweithio'n agos gyda LIC/AauLI ac Ysgolion er sicrhau y targedir cyllid yn briodol a'i ddirprwyo ymhellach.
8	Busnes	I GYD	Nid yw defnydd y Grant Gwella Addysg wedi'i ymgorffori yn llawn yn y dull rhanbarthol - arafu a lleihau effaith cyflwyno'r Cynllun Busnes Strategol	U	U	2A	Cytunodd Bwrdd Rheoli GwE i gychwyn adolygiad o'r defnydd o'r EIG. Yn anffodus, oherwydd pandemig COVID-19, gohiriwyd yr adolygiad.	C	2B	Bwrdd Rheoli	Mae angen cytundeb ynghylch amserlenni diwygiedig ar gyfer yr adolygiad.
11	Safonau	AS3	Nad yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol/Perfformiad Disgyblion PYD.	C	C	3A	Yr YCG Llesiant sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a monitro'r cynllun busnes lefel 3 mewn perthynas â dysgwyr bregus a GDD. Parhau i weithio mewn partneriaeth efo'r AauLI i ddatblygu ymhellach y monitro a'r gwerthuso i sicrhau cysondeb yn y rhanbarth. Mae'r Grwpiau Strategol Rhanbarthol yn cyfarfod yn dymhorol ac mae ganddynt gylch gwaith clir. weithredu'r offeryn cynllunio grantiau rhanbarthol ar draws y rhanbarth o ran monitro'r PDG ar draws pob lleoliad.	C/I	3B	YCG - Llesiant	Gweithredu'r camau o fewn y cynllun busnes a monitro cynnydd drwy gyfrwng y broses rheoli perfformiad. Mynychu cyfarfodydd dysgwyr Bregus GDD/PMG LIC er sicrhau cyfathrebu clir ac atebolrwydd rhanbarthol. Cyflwyno'r dangosfwrdd cynllunio grantiau rhanbarthol i wella effeithiolrwydd ledled y rhanbarth.
14	Safonau	AS1	Amrywiad ym mherfformiad yr awdurdodau unigol yn CA4. Mae perfformiad disgyblion MATH mewn awdurdodau unigol ar draws y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol.	U	C/U	2A	Cynllunio fwy cadarn ar waith er mwyn sicrhau cymorth cynhwysfawr i ysgolion sy'n destun prydwr ac mae'r peilot braenaru mewn lle gydag un ALL. Mae modelau braenaru ymgysylltu â chymheiriaid yn cael eu treialu yn y rhanbarth eleni gyda ffocws ar arfarnu a chyflawni gwelliannau ar y cyd. Mae'r adborth cychwynnol gan randdeiliaid yn hynod o gadarnhaol. Gwell gweithgareddau rhwydwaith a chynnig proffesiynol gyda ffocws ar wella dysgu ac addysgu.	C	2B/2C	Bwrdd Rheoli	Mae LIC wedi atal dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2020 a 2021 ac ni fyddant yn rhyddhau unrhyw ddata cymharol neu feincnodi. Trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid i adnabod y ffordd orau o werthuso cynnydd yn CA4.

17	Safonau	AS1	Ysgolion uwchradd mewn categori Statudol Estyn.	U	U	2A	Mae 7 ysgol mewn categori statudol ar hyn o bryd. Mae rhaglenni ymyrraeth a chymorth dwys ar waith yn yr ysgolion hyn sy'n canolbwyntio ar wella dysgu ac addysgu; datblygu systemau tracio ac asesu; gwella arweinyddiaeth ar bob lefel a datblygu ymhellach drefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio gwelliant grymus. Mae rhaglen fraenaru yn cael ei threialu mewn un ALL gyda'r 3 ysgol sydd mewn categori statudol. Nodwyd 2 ysgol categori statudol arall yn y rhanbarth i fod yn rhan o'r rhaglen HVC genedlaethol ble bydd GwE yn gweithio'n agos gyda'r ALL, Estyn a Llywodraeth Cymru i yrru'r gwelliannau angenrheidiol.	U	2B	RhG/CC/Uwch Arweinwyr	Mae LIC wedi atal dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2020 a 2021 ac ni fyddant yn rhyddhau unrhyw ddata cymharol neu feincnodi. Trafodaethau yn parhau gydag Estyn i nodi'r ffordd orau o werthuso cynnydd yn erbyn argymhellion allweddol mewn ysgolion unigol. Codir mater hefyd gyda'r Bwrdd Rheoli a'r Cydbwylgior. Cytuno ar Gynlluniau Cymorth bob tymor oherwydd heriau a gyflwynir gan gyfyngiadau cloi Covid. Trafodir prosesau a gweithdrefnau ar gyfer dal cynnydd gyda Byrddau Ansawdd Lleol / BGC.
----	---------	-----	---	---	---	----	--	---	----	-----------------------	--





<b>CYFARFOD</b>	<b>Cyd-Bwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	11 Tachwedd 2020
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad 2il Chwarter</b>
<b>PWRPAS</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Diweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor am yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.</li><li>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr adroddiad.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

## 1. CASGLIAD

- 1.1 Mae'r adolygiad 2il chwarter yn amcangyfrif tanwariant net o (£31,502), yn bennaf yn sgil arbediad ar y gyllideb costau teithio craidd.
- 1.2 Er hynny mae effaith Covid-19 i'w weld yn effeithio ar amryw benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

### 2.1 **Gweithwyr:**

#### **Chwarter 2: gorwariant £31,302 Chwarter 1: niwtral**

Gorwariant yn bennaf oherwydd contractau tymor byr yn dod i ben i 2 aelod o staff, ond heb gyllideb i ariannu'r costau diswyddo. Er fod gan y ddau aelod o staff gontractau dros-dro, roedd cost diswyddo yn codi oherwydd bod gan yr unigolion wasanaeth di-dor, wedi'i gario ymlaen o'u cyflogaeth blaenorol, cyn i GwE eu cyflogi.

### 2.2 **Rhent:**

#### **Chwarter 2: gorwariant £58,080 Chwarter 1: gorwariant £58,080**

Mae'r gyllideb rhent yn ddibynnol ar incwm allanol, gan gynnwys defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol. Yn sgil yr argyfwng Covid-19, mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu mabwysiadu, gyda llawer mwy o weithio o bellter, a chyfarfodydd wedi'u cynnal ar-lein, yn defnyddio 'Teams' neu 'Zoom'.

Ni ragwelir y bydd defnydd o ystafelloedd y GwE yn y flwyddyn ariannol hon. Yn ogystal â hynny, nid oes dyddiad dychwelyd i'r swyddfa wedi'i bennu. Felly, nid yw'n debygol y bydd modd denu unrhyw incwm o dan y pennawd hwn. Mae'r diffyg incwm disgwyledig ar y pennawd cyfwerth â gorwariant yn 2020/21.

### 2.3 **Cludiant:**

#### **Chwarter 2: tanwariant (£94,928) Chwarter 1: tanwariant (£59,929)**

Yn Chwarter 1, adroddwyd bod disgwyl arbediad am y cyfnod Ebrill i Awst, gan fod ysgolion wedi cau yn sgil yr argyfwng. Bellach, mae swyddogion GwE wedi ailgychwyn ymweld ag ysgolion, ond nid i'r un raddfa ag yr oedden yn ei wneud cyn Covid-19, oherwydd cyfyngiadau. O ganlyniad rhagwelir bydd costau teithio yn tanwario mwy na'r hyn adroddwyd yn chwarter 1.

### 2.4 **Cyflenwadau a gwasanaethau:**

#### **Chwarter 2: tanwariant (£26,956) Chwarter 1: niwtral**

Tanwariant yn sgil llai o angen i archebu offer swyddfa, postio ac argraffu, ymysg pethau eraill. Mae gweithio o bellter yn golygu fod trefn gweithio yn symud tuag at weithio'n ddi-bapur, pan yn bosib. Fel un esiampl mae Dysgu Proffesiynol bellach yn rhithiol, yn hytrach nag yn wyneb yn wyneb, ac o ganlyniad nid oes adnoddau caled yn cael ei ddarparu, ond adnoddau ar lein.

## 2.5 **Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (GGYCR)**

### **Chwarter 2: niwtral** *Chwarter 1: niwtral*

Fel adroddwyd yn Chwarter 1, bu toriad cyffredinol o 3% (£957,939) i'r GGYCR, a thoriad (£1,263,019) ar gynlluniau penodol yn sgil ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng Covid-19 (gyda thoriad GwE yn £328,361 a thoriad yr awdurdodau / ysgolion yn £1,892,597). Er hynny, gan fod rhai cynlluniau wedi'u gohirio, gyda chynllunio ariannol cadarn, disgwyliar sefyllfa llêd-niwtral yn 2020/21.

#### Dadansoddiad o'r grant gyflawn isod:

Datganoledig*	£27,468,198
Heb ei ddatganoli	£ 7,822,609
Cyfanswm	<b>£35,290,807</b>
Grant	£32,804,527
Arian Cyfatebol	£ 2,486,280
Cyfanswm	<b>£35,290,807</b>

\* Nid yw cyfrifon y GwE yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

## 3. **CRONFA TANWARIANT**

- 3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2020/21 oedd £480,204.
- 3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £511,706 ar ddiwedd 2020/21, wedi ystyried y tanwariant ymylol a ragwelir uchod.
- 3.3 Oherwydd yr her ariannol yn sgil y toriad i'r grantiau, fe all arwain at fwy o ofyn ar y gyllideb graidd / cronfa tanwariant yn 2020/21.

### **ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2020/21 – Adolygiad 2il Chwarter.

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2020/21 : 2il Chwarter Gorffennaf - Medi 2020

Tud. 40

	Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 1) £	Addasiadau £	Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 2) £	Gwariant Rhagweilir £	Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2) £	Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 1) £
<b>Gwariant</b>						
Gweithwyr						
Cyflogau						
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	895,243		895,243	893,314	(1,929)	0
- Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant	3,741,134		3,741,134	3,722,180	(18,954)	0
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	(1,722,153)		(1,722,153)	(1,700,000)	22,153	0
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	42,043		42,043	72,075	30,032	0
Adeilad						
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	171,027		171,027	171,027	0	0
Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd	(58,080)		(58,080)	0	58,080	58,080
Cludiant						
Costau Teithio	135,506		135,506	40,578	(94,928)	(59,929)
Cyflenwadau a Gwasanaethau						
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	72,045		72,045	46,089	(25,956)	0
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	16,285		16,285	16,285	0	0
Ffioedd archwilio	11,308		11,308	11,308	0	0
Broceru	285,002		285,002	285,002	0	0
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd						
Cyfreithiol	5,652		5,652	5,652	0	0
Adnoddau Dynol	9,692		9,692	9,692	0	0
Cyllid	41,913		41,913	41,913	0	0
Technoleg Gwybodaeth	46,356		46,356	46,356	0	0
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	469,948		469,948	469,948	0	0
Prosiectau Penodol						
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	7,634,359	188,250	7,822,609	7,822,609	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	1,030,400		1,030,400	1,030,400	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol	100,000		100,000	100,000	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	148,678		148,678	148,678	0	0
Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	346,769		346,769	346,769	0	0
Trawsnewid Y System Ady	75,295		75,295	75,295	0	0
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>13,498,422</b>	<b>188,250</b>	<b>13,686,672</b>	<b>13,655,170</b>	<b>(31,502)</b>	<b>(1,849)</b>

	Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 1) £	Addasiadau £	Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 2) £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2) £	Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 1) £
<b>Incwm</b>						
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd						
- Cyngor Ynys Môn (19/20: 10.20% - 20/21: 10.15%)	(422,378)		(422,378)	(422,378)	0	0
- Cyngor Gwynedd (19/20: 17.64% - 20/21: 17.63%)	(733,820)		(733,820)	(733,820)	0	0
- Cyngor Conwy (19/20: 15.30% - 20/21: 15.30%)	(636,936)		(636,936)	(636,936)	0	0
- Cyngor Dinbych (19/20: 15.26% - 20/21: 15.30%)	(637,104)		(637,104)	(637,104)	0	0
- Cyngor Fflint (19/20: 22.71% - 20/21: 22.68%)	(944,123)		(944,123)	(944,123)	0	0
- Cyngor Wrecsam (19/20: 18.89% - 20/21: 18.94%)	(788,560)		(788,560)	(788,560)	0	0
Prosiectau Penodol						
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	(7,634,359)	(188,250)	(7,822,609)	(7,822,609)	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(1,030,400)		(1,030,400)	(1,030,400)	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol	(100,000)		(100,000)	(100,000)	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	(148,678)		(148,678)	(148,678)	0	0
Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	(346,769)		(346,769)	(346,769)	0	0
Trawsnewid Y System Ady	(75,295)		(75,295)	(75,295)	0	0
<b>Cyfanswm Incwm</b>	<b>(13,498,422)</b>	<b>(188,250)</b>	<b>(13,686,672)</b>	<b>(13,686,672)</b>	<b>0</b>	<b>0</b>
<b>Cyfanswm Cyllideb Net</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>(31,502)</b>	<b>(31,502)</b>	<b>(1,849)</b>
<b>Memorandwm -</b>						
<b>Y Gronfa Tanwariant</b>						
			<b>Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2020</b>		<b>(480,204)</b>	<b>(480,204)</b>
			<b>Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2020/21</b>		<b>(31,502)</b>	<b>(1,849)</b>
			Llai - Defnydd o'r Gronfa		0	0
			<b>Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2021</b>		<b>(511,706)</b>	<b>(482,053)</b>
<b>Cronfa Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth</b>						
			<b>Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2020</b>		<b>(71,320)</b>	<b>(71,320)</b>
			<b>Ychwaneger - Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2020/21</b>		<b>(16,285)</b>	<b>(16,285)</b>
			Llai - Defnydd o'r Gronfa		0	0
			<b>Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2021</b>		<b>(87,605)</b>	<b>(87,605)</b>



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

11 TACHWEDD 2020

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno offeryn hunanasesu i aelodau'r Cyd-Bwyllgor fydd yn cynorthwyo'r Awdurdodau Lleol i asesu eu parodrwydd ar gyfer gweithredu'r diwygiadau fel yr amlinellir yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Drafft Cymru.

### 2.0 Cefndir

2.1 Mae gan Awdurdodau Lleol ac asiantaethau perthnasol ddyletswydd i ystyried y Cod ADY (fersiwn derfynol ar gael ddiwedd Gwanwyn 2021) wrth gyflawni eu swyddogaethau. Rhaid i Awdurdodau Lleol ac asiantaethau priodol sicrhau fod eu polisiau, eu harferion a'u gwasanaethau gwybodaeth a chynghor yn ystyried gofynion cyfreithiol y Ddeddf yn llawn.

2.2 Cynhyrchwyd yr offeryn hunanasesu atodol (Atodiad 1) gan y Tîm Trawsnewid ADY Rhanbarthol i gefnogi Awdurdodau Lleol i asesu pa mor barod ydynt i weithredu'r Cod Drafft. Bydd defnyddio'r offeryn yn eu galluogi i wneud y canlynol:

- Asesu eu heffeithiolrwydd cyfredol
- Gwerthuso'r cynnydd a wnaed eisoes
- Cael gwell dealltwriaeth o'r meysydd sydd angen eu gwella

- Galluogi uwch arweinwyr i ddeall y cryfderau presennol a'r meysydd sydd angen eu gwella

Bydd hefyd yn rhoi trosolwg rhanbarthol o barodrwydd Awdurdodau Lleol ar gyfer gweithredu'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol.

### **3.0 Materion i'w hystyried**

- 3.1 Crëwyd yr offeryn hunanasesu hwn gyda'r bwriad o'i ddarllen a'i ddefnyddio ar sgrin. Trwy gydol yr offeryn, mae datganiadau i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i werthuso eu dulliau ymarfer mewn perthynas â disgwyliadau'r Cod Drafft gan ddefnyddio dull sgorio penodol.
- 3.2 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau, awgrymir y dylid cwblhau'r tasgau canlynol:
- Creu 'tabl gweithredu'
  - Ymgorffori y gweithredoedd a nodwyd mewn cofrestr risg
- 3.3 Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol gwblhau'r offeryn hunanasesu erbyn 4 Rhagfyr 2020 er mwyn galluogi'r rhanbarth i adrodd ar y sefyllfa gyfredol i Lywodraeth Cymru.
- 3.4 Yn ogystal, atodir gopi o'r Cynnig Proffesiynol ADY (Atodiad 2) fydd yn cefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd.

### **4.0 Argymhellion**

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r offeryn hunan asesu a'r Cynnig Proffesiynol ADY fydd yn cefnogi'r Awdurdodau Lleol a'r ysgolion i weithredu'r diwygiadau fel yr amlinellir yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Drafft Cymru.

### **5.0 Goblygiadau ariannol**

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

### **6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Hunan Asesiad Trawsnewid ADY

9.2 Atodiad 2 – Cynnig Proffesiynol ADY

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**


**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.





**Hunanasesiad i baratoi ar gyfer asesu i ba raddau mae Awdurdodau Lleol (ALI) yn barod am y Rolau, Cyfrifoldebau a Dyletswyddau sy'n cael eu hamlinellu yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Drafft Cymru**

Awdurdod Lleol: \_\_\_\_\_

Diweddarwyd/Cwblhawyd gan \_\_\_\_\_

Dyddiad: / / 20\_\_

Cyflwyniad

Mae gan awdurdodau addysg ac asiantaethau perthnasol ddyletswydd i ystyried y cod (fersiwn derfynol ar gael ddiwedd Gwanwyn 2021) wrth gyflawni eu swyddogaethau. Rhaid i awdurdodau addysg ac asiantaethau priodol sicrhau fod eu polisiau, eu harferion a'u gwasanaethau gwybodaeth a chynghor yn ystyried gofynion cyfreithiol y Ddeddf yn llawn. Dylai awdurdodau addysg ac asiantaethau sy'n ymwneud â chynghori neu gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd, annog a chefnogi eu gweithwyr i ddeall cynnwys y cod drafft a deall gofynion y ddeddf mewn perthynas â'u gwaith o ddydd i ddydd. .

Cynhyrchwyd yr offeryn hunanasesu hwn i'ch cefnogi chi (ALI) i asesu pa mor barod yr ydych ar hyn o bryd i allu gweithredu'r Cod Drafft. Bydd defnyddio'r offeryn yn eich galluogi i wneud y canlynol:

- Asesu eich effeithiolrwydd cyfredol
- Gwerthuso'r cynnydd a wnaed eisoes
- Cael gwell dealltwriaeth o'r meysydd sydd angen eu gwella
- Galluogi uwch arweinwyr i ddeall y cryfderau presennol a'r meysydd sydd angen eu gwella

Bydd hefyd yn rhoi trosolwg rhanbarthol o barodrwydd awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Crëwyd yr offeryn hunanasesu hwn gyda'r bwriad o'i ddarllen a'i ddefnyddio ar sgrin. Trwy gydol yr offeryn, mae datganiadau i'ch cynorthwyo i werthuso eich dulliau ymarfer yn eu herbyn ac mewn perthynas â disgwyliadau'r Cod Drafft gan ddefnyddio dull sgorio Gwyrdd (cywir / ar y trywydd iawn). Bydd yr offeryn hunanasesu hwn yn caniatáu ichi ymestyn y sgôr gychwynnol i werthusiad manylach, i ddechrau cynllunio gwelliannau a chamau gweithredu a chynhyrchu datganiadau sefyllfa. Noder fod tudalennau 7,8 a 9 yn atodiadau sy'n cynnwys Ystyriaethau sy'n deillio o'r Cod Gorfodol Drafft. Bydd clicio ar y penawdau sydd wedi eu tanlinellu yn y golofn 'gofynion cydymffurfio' yn eich dargyfeirio'n awtomatig at yr adran berthnasol sy'n rhestru ystyriaethau penodol pellach y'i disgrifir yn y Cod Drafft.

Ar ôl cwblhau'r offeryn hunanasesu, er mwyn sicrhau eich bod chi (ALI) yn cydymffurfio â'r rheoliadau rydym yn cynnig y dylid cwblhau'r tasgau canlynol:

- Creu 'tabl gweithredu' o fewn y drydedd golofn isod.
- Ymgorffori y gweithredoedd a nodwyd mewn cofrestr risg (templod wedi'i gynnwys yn atodiad 2)

Gofynion Cydymffurfiaeth	Mesurau Cydymffurfiaeth	Camau gweithredu
<p><a href="#">Pennod 2,3,6,9,10</a>  <a href="#">Dull Seiliedig ar Hawliau /</a>  <a href="#">Cynnwys a chefnogi plant,</a>  <a href="#">eu rhieni a phobl ifanc</a></p> <p><i>Rhaid ichi wneud trefniadau  ddarparu gwybodaeth a  chynghor i bobl am ADY a'r  refn ADY.</i></p> <p><i>Rhaid ichi gynnwys a  chefnogi plant, pobl ifanc  a'u rhieni</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Rhanddeiliaid</b> yn deall pwrpas y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg a'r rhaglen drawsnewid ehangach</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydweithio â <b>phartneriaid allweddol</b></li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Rhanddeiliaid</b> yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymarferwyr ALI yn cwblhau hyfforddiant <b>Haen 1 Eliesha</b> Llywodraeth Cymru</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Uwch ymarferwyr ALI yn cwblhau Hyfforddiant <b>Haen 4 Eliesha</b> Llywodraeth Cymru (Prif Weithredwyr)</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Newidiadau yn cael eu cyfleu i <b>blant, eu rhieni a phobl ifanc.</b></li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu canllawiau i egluro i <b>blant, pobl ifanc a rhieni</b> sut y bydd y symud o <b>AAA i ADY</b> ac o <b>ddatganiadau i CDUau</b> yn gweithio yn ardal yr awdurdod lleol</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghori â <b>phlant, pobl ifanc a rhieni</b> .</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cynllun Strategaeth Cyfathrebu</b> mewn lle</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefniadau mewn lle ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefniadau mewn lle ar gyfer datrys anghydfodau</li> </ul>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth glir am y gwasanaethau lleol sydd ar gael</li> </ul>		

<p><a href="#"><u>Pennod 4</u></a>  <a href="#"><u>Dyletswyddau i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau</u></a></p> <p><i>Rhaid ichi roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau</i></p> <p><i>Rhaid bod gennych ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i pherthynas â hygyrchedd a derbyniadau ynghyd â chynhwysiant ac amrywiaeth.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o Gonfensiwn Y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth weithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'r protocol dewisol cysylltiedig, wrth weithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc anabl.</li> </ul>	
<p><a href="#"><u>Pennod 5</u></a>  <a href="#"><u>Dyletswydd i adolygu'n barhaus y ddarpariaeth addysg ychwanegol</u></a></p> <p><i>Rhaid ichi adolygu'n barhaus y trefniadau a wneir gennych chi'ch hun a chan gyrff llywodraethol yr</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad o'r <b>Ddarpariaeth Addysgu Ychwanegol (ADY)</b> i sefydlu a yw'r Ddarpariaeth ADY a ddarperir yn yr ardal yn ddigonol i ddiwallu anghenion cyffredinol y boblogaeth o ddysgwyr ag ADY. (Noder -<i>Dylid cynnal adolygiadau mewn ffyrdd a fydd yn eich galluogi i asesu anghenion tebygol yn y dyfodol, cynllunio ar gyfer gofynion darpariaeth yn y dyfodol, ystyried comisiynu cynlluniau ymlaen llaw</i>)</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Coladu / Darparu tystiolaeth i ba raddau y mae'r canlynol ar gael ym mhob ysgol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr unigol ag ADY</li> <li>Addasiadau rhesymol priodol i alluogi mynediad i amgylchedd yr ysgol, cwricwlwm a chyfleusterau ar gyfer dysgwyr anabl</li> <li>Ymyrraeth wedi'i dargedu a</li> </ul> </li> </ul>	

<p>ysgolion a gynhelir yn eich ardal, ar gyfer plant a phobl ifanc (5.1).</p> <p>Rhaid sefydlu a chynnal cofrestr o'r rhai sydd â rhyw fath o anabledd, lle mae natur yr anabledd yn golygu ei bod yn debygol y bydd gan y dysgwr ADY.</p>	<p>chefnogaeth i ddysgwyr ag ADY • Systemau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd a chyflawniad dysgwyr ag ADY a'u cynnwys ym mywyd beunyddiol yr ysgol • Trefniadau ar gyfer cynnwys arbenigwyr lle bo angen • Trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd ymyriadau a ddefnyddir i gefnogi dysgwyr ag ADY a sgiliau ac arbenigeddau staff • Trefniadau ar gyfer cynnwys dysgwyr a rhieni ym mhob cam</p>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystyriaeth o ddigonolrwydd y <b>Ddarpariaeth Addysgu Ychwanegol yn y Gymraeg</b> (5.3)</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arweiniad i ysgolion ar ba ddarpariaeth y byddai disgwyl fel arfer Iddynt gael ei gynnig i <b>blant a phobl ifanc ag ADY</b> a chyhoeddi hynny.(Polisi ADY a map darpariaeth ALI)</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adnabod arfer gorau, datblygu astudiaethau achos a rhannu.</li> </ul>	
<p><b>Tud</b></p> <p><b>Rennod 8</b>  <a href="#">Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynw swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir gan Awdurdod Lleol. Dyma'r <b>Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynnyddoedd Cynnar</b> ('SAADY y Blynnyddoedd Cynnar') (8.38)</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu arferion a threfniadau gweithio cydweithredol effeithiol gydag eraill sy'n gweithio gyda phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol yn ardal yr awdurdod lleol.</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth addysgwyr cyn-ysgol o'r maes ADY</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu prosesau a phrotocolau cyfredol</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu arweiniad, cyngor a chefnogaeth ar gyfer lleoliadau a meithrinfeydd</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Prosesau i ddelio gyda'ch dyletswydd i baratoi <b>Cynllun Datblygu Unigol –(CDU) ar gyfer plentyn o dan oedran ysgol gorfodol</b> nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir gan Awdurdod Lleol</li> </ul>	
<u><a href="#">Pennod 9</a></u> <u><a href="#">Dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru</a></u>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi ysgolion i wreiddio ac atgyfnerthu datblygiadau yn y maes <b>Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn</b> (Person Centred Practice – PCP)</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi ysgolion i benderfynu ar <b>osod disgyblion ar gofrestrau ADY yn briodol</b></li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Meddu ar eglurder a chytundebau ynghylch <b>ymateb graddedig a meini prawf ar gyfer CDUau</b> sy'n cael eu cynnal gan leoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a'r rhai sydd i'w cynnal gennych chi (ALI)</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyhoeddi cyfres o egwyddorion a fydd yn berthnasol wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol <b>sicrhau'r Cynllun Anghenion Ychwanegol</b> sydd ei angen gan blentyn neu berson ifanc yntau a ddylai'r awdurdod lleol wneud hynny(9.45)</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu cynllun camau/ gweithredu ar gyfer <b>trosi datganiadau yn Gynlluniau Datblygu Unigol</b></li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu arweiniad ac adnoddau i hwyluso ysgolion i weithredu'r system CDU newydd</li> </ul>	
<u><a href="#">Pennod 10</a></u> <u><a href="#">Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)</a></u>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu dulliau <b>cyfathrebu</b> effeithiol ac effeithlon <b>rhwng lleoliadau/ darparwyr ALI ac ôl 16</b></li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefniadau trosglwyddo mewn lle ar gyfer <b>dysgwyr ôl-16 ag ADY</b></li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau lleoliadau</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gweithio gyda SABau</b> i ddatblygu darpariaeth leol / reolaidd (lle bo hynny'n bosibl)</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi nifer y <b>bobl ifanc ag ADY</b> a fydd yn debygol o fod angen lleoliadau arbenigol bob blwyddyn?</li> </ul>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gwasanaethau Eirioli Ôl 16</b> a chymau sydd mewn lle i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau a phontio</li> </ul>	
<u><a href="#">Pennod 11</a></u> <u><a href="#">Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad</a></u>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybodaeth am y cyfrifoldebau er mwyn gallu cydymffurfio â chanllawiau ar gyfer <ul style="list-style-type: none"> <li>- Penderfynu a oes ADY gan <b>blentyn</b> oedran ysgol gorfodol nad yw'n ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru</li> </ul> </li> </ul>	

<p><a href="#">ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir</a></p> <p>-</p> <p>-</p> <p><a href="#">Pennod 12</a> <a href="#">Dyletswyddau mewn perthynas â pherson ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu SAB</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Paratoi CDU ar <b>gyfer plentyn</b> nad yw'n mynychu ysgol a gynhelir, sydd ag ADY</li> <li>- <b>Lleoliadau mewn ysgolion annibynnol (11.55 )</b></li> <li>- Penderfynu a oes ADY gan <b>berson ifanc</b> nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB</li> <li>- Penderfynu a ddylid paratoi CDU ar gyfer <b>person ifanc</b> sydd ag ADY nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB yng Nghymru</li> </ul>	
<p><a href="#">Pennod 13</a> <a href="#">Cynnwys CDU</a></p> <p>Tud. 50.</p> <p><a href="#">Pennod 14</a> <a href="#">Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwybod beth yw <b>CDU</b></li> <li>• Gwybod beth sydd rhaid ei <b>gynnwys</b> mewn <b>CDU</b></li> <li>• Gwybod beth sydd rhaid ei gynnwys mewn CDUau ar gyfer <b>plant sy'n derbyn gofal</b></li> <li>• Canllawiau sut i gwblhau <b>CDU statudol a</b> gynhyrchwyd</li> <li>• Lleoliadau a rhanddeiliaid yn deall athroniaeth ac ethos <b>ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP)</b></li> <li>• Hyfforddiant a hyrwyddo <b>Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn</b> wedi cael ei gyflwyno ar draws yr Awdurdod Lleol</li> <li>• Lleoliadau wedi derbyn hyfforddiant ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn</li> <li>• Sicrhau fel arfer dda fod <b>proffiliau un dudalen</b> ar gyfer pob dysgwr</li> <li>• Sicrhau fod gan ysgolion systemau trylwyr mewn lle i ofalu fod ansawdd eu gwaith yn uchel a'u bod yn dilyn <b>Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr Unigolyn a deilliannau ar gyfer pob dysgwr ag ADY</b></li> </ul>	

<p><a href="#">Pennod16</a> <a href="#">Adolygu a diweddarau CDUau</a></p> <p><a href="#">Pennod 17</a> <a href="#">Ailystyriaethau a chymryd cyfrifoldeb am CDUau</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu canllaw ar gyfer Cyfarfod <b>Adolygu CDU</b> i Ysgolion a Sefydliadau (yn cynnwys prosesau, llinell amser ar gyfer y broses, arweiniad ar gynnal adolygiad, pwrpas adolygiad)</li> </ul>	
<p><a href="#">Pennod 18</a> <a href="#">Cyfarfodydd am ADY a CDUau</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu canllawiau ar egwyddorion arferion da i'w dilyn ym mhob cyfarfod (Yn gysylltiedig â Phennod 16/17)</li> </ul>	
<p><a href="#">Pennod 19</a> <a href="#">Cynllunio ar gyfer a cefnogi trosglwyddo</a></p> <p><i>Gwybodaeth i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n trosglwyddo</i> <i>19.12 Rhaid i chi wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chynghor i bobl am ADY a'r system ADY.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aseu capasiti ac adnoddau</li> <li>• Arferion a phrosesau mewn lle i weithredu systemau sy'n cefnogi trosglwyddo i addysg ôl-16</li> <li>• Creu taflenni hawdd eu darllen sy'n darparu gwybodaeth am ba gefnogaeth sydd ar gael a beth y gellir ei ddisgwyl yn ystod y broses dderbyn (gan gynnwys trosglwyddo)</li> <li>• Gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod am <b>ADY, cefnogaeth ADY a chyfleoedd trosglwyddo</b></li> </ul>	
<p><a href="#">Pennod 20 Trosglwyddo CDU</a> <a href="#">Pennod 21 Rhoi'r gorau i gynnal CDU</a> <a href="#">Pennod 22 Plant a phobl ifanc sydd o dan orchmynion cadw</a> <a href="#">Pennod 23 Plant a phobl</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn wybodus am..</li> </ul>	

<p><a href="#">ifanc mewn amgylchiadau penodol</a></p>		
<p><a href="#">Pennod 25 Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trefniadau / prosesau ar gyfer osgoi a <b>datrys anghytundebau</b> mewn lle (25.3 / 25.4) Y rhain wedi derbyn cyhoeddusrwydd eang.</li> </ul>	
<p><i>Bydd y system newydd yn canolbwyntio ar sicrhau, fod unrhyw anghytundebau sydd yn codi am CDU neu'r ddarpariaeth sydd ynddo yn cael eu hystyried a'i datrys ar y lefel fwyaf lleol bosibl.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trefniadau ar gyfer <b>darparu</b> gwasanaethau <b>eirioli annibynnol</b> mewn lle. (25.5) Y rhain wedi derbyn cyhoeddusrwydd eang.</li> </ul>	

Tydd. 52

**FERSIWN RHEOLI**

Dyddiad	Gan bwy	Manylion y diwygiad



ATODIAD 1:

Ystyriaethau o'r Cod Gorfodol Drafft

**Pennod 2,3,6,9,10: Dull Seiliedig ar Hawliau / Cynnwys a chefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni**

[Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.](#)

3.14 Ystyriwch sut y gallwch annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan ym mhob agwedd o'r system ADY mewn dulliau ystyrlon

3.16 Ystyriwch wahanol ffyrdd o gyfathrebu wrth ddarparu gwybodaeth i'r plentyn neu'r person ifanc, a chael sgwrs am hynny gyda'r plentyn neu'r person ifanc, i hwyluso eu cyfranogiad

3.29 Ystyriwch pa gymorth y byddwch chi'n ei ddarparu i rieni i'w galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosib mewn cyfarfodydd priodol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â pharatoi neu adolygu CDU ar gyfer eu plentyn.

6.8 Dylai'r wybodaeth sydd ar gael fod yn ffeithiol gan ddefnyddio iaith y gall plant, pobl ifanc a'u ei ddeall yn hawdd.

6.9 Os penderfynwch gyflawni eich dyletswyddau mewn perthynas â chynnig cyngor a gwybodaeth trwy gontractio darparwr gwasanaeth allanol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, dylech: • hysbysu plant, pobl ifanc a'u rhieni fod sefydliad arall yn darparu cyngor a gwybodaeth ar ran yr awdurdod lleol.

6.10 Dylid cynnig gwybodaeth a chynghor i blant, pobl ifanc a'u rhieni sydd yn eu helpu i fod yn ymwybodol ac yn deall: • beth yw ADY; • eu hawliau o dan y system ADY; • y gwahanol asiantaethau dan sylw a'u rolau : • trosglwyddo a chynllunio trosglwyddo; • y gwahanol weithdrefnau cwyno; • gwasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau ac eiriolaeth annibynnol a • sut i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol neu'r SAB, gan gynnwys yn achos penderfyniadau ysgol, neu CDUau a gynhelir gan ysgol a gynhelir, sut i ofyn i ysgol neu awdurdod lleol i ailystyried y mater.

9.61 Pan nad yw'r person ifanc yn cydsynio i benderfyniad gael ei wneud, rhaid cofnodi hyn. Dylid cael gweithdrefnau priodol mewn lle i hwyluso hyn, a allai gynnwys cael y person ifanc yn llofnodi i gadarnhau nad yw'n rhoi caniatâd. Rhaid i'r wybodaeth a chynghor a roddir fod yn ddiudedd.

Dylai pawb sy'n ymwneud â darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY weithio gyda'i gilydd er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc

Dylai barn, dymuniadau a theimladau'r plant, pobl ifanc a'u rhieni fod wrth wraidd yr holl brosesau gwneud penderfyniadau.

Dylid annog a chefnogi gweithwyr (a fydd yn ymwneud â chefnogi a chynghori) i ddeall cynnwys y cod a deall sut i'w gymhwyso yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

<p><b>Pennod 4: Dyletswyddau i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau</b>  <a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p><i>Dylid darllen y cod Drafft ochr yn ochr â deddfwriaeth a pholisïau eraill lle bo hynny'n berthnasol</i></p> <p><b>4.7 Rhoi sylw dyledus i'r Confensiynau wrth gynllunio ar gyfer gweithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc.</b></p>
<p><b>Pennod 5: Dyletswydd i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol</b>  <a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p><i>5.2 Ystyried y CDY y gellir eu darparu'n rhesymol gan eraill megis Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).</i></p> <p><i>5.9 A oes gennych ddarpariaethau o'r math, nifer ac ansawdd cywir i ddiwallu anghenion y boblogaeth ag ADY ar hyn o bryd ac yn y dyfodol? Oes camau y dylid eu cymryd i unioni unrhyw sefyllfa annigonol.</i></p> <p><i>5.13 Rhoi arweiniad i ysgolion ar ba ddarpariaeth y byddai disgwyl i ysgolion ei darparu fel rheol ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY.</i></p> <p><i>Cydweithio i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o sut y dylai darpariaeth o ansawdd dda ar gyfer dysgwyr ag ADY edrych.</i></p>
<p><b>Pennod 8: Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru</b>  <a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p><i>8.2 Bydd CDUau ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir bob amser yn cael eu paratoi a'u cynnal gan awdurdod lleol.</i></p> <p><i>8.42 Rôl y Cydlynnydd Anghenion Ychwanegol Blynnyddoedd Cynnar.</i></p>
<p><b>Pennod 9: Dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru</b>  <a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p><i>9.2 Rhaid paratoi a chynnal CDU lle mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn fwy difrifol neu'n gymhleth neu'n ysbeidiol. Y prif eithriadau yw pan fydd plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn mynychu mwy nag un ysgol neu sefydliad arall ("cofrestrriad / ymrestru deuol"). Yn yr achosion hyn, mae'r awdurdod lleol fel arfer yn gyfrifol am benderfyniadau a chynnal CDU waeth beth yw'r anghenion).</i></p>
<p><b>Pennod 10: Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn SAB</b></p>	<p><i>10.37 Atgyfeiriadau gan SAB i awdurdod lleol</i></p> <p><i>10.46A Dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes ADY gan berson ifanc mewn SAB</i></p> <p><i>10.57 Penderfyniad awdurdod lleol nad oes ADY gan berson ifanc mewn SAB</i></p> <p><i>10.63 Dyletswydd awdurdod lleol i baratoi CDU ar gyfer person ifanc mewn SAB sydd ag ADY</i></p>

<p><a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p>10.72 Dyletswydd awdurdod lleol i gynnal CDU a sicrhau'r CDU ar gyfer person ifanc mewn SAB sydd ag ADY 10.77 Dyletswydd awdurdod lleol i adolygu CDU ar gyfer myfyriwr SAB sydd ag ADY .</p>
<p><b>Pennod 11 a 12: Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir a dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu SAB</b> <a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p><i>Bydd gwaith amlasiantaethol a thrawsadrannol yn hynod bwysig. Bydd dull cydgysylltiedig hefyd yn bwysig.</i> 11.4 Pan fo dyletswydd ar awdurdod lleol i benderfynu a oes gan y plentyn ADY, rhaid iddynt ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwnnw ac, os oes angen CDU wedi hynny, i fod yn gyfrifol am ei baratoi .Yn achos plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, dylai'r swyddog a ddynodir fod yn Gydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal(LACE) yr awdurdod lleol.</p>
<p><b>Pennod 13 a 14: Cynnwys CDU a chynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal</b> <a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p>13.6 Ffurflen CDU orfodol 13.7 Gellir addasu arddull y ffurflenni.</p>
<p><b>Pennod 16 a 17: Adolygu a diwygio CDUau ac ailystyriaethau a chymryd cyfrifoldeb am CDUau</b> <a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p>16.1 Dylai CDUau gael eu hadolygu yn flynyddol o leiaf 16.12 Rhaid i gorff sy'n gyfrifol am gynnal CDU ei adolygu cyn diwedd pob cyfnod adolygu.</p>
<p><b>Pennod 18: Cyfarfodydd am ADY a CDU</b> <a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p>Cynnal cyfarfod (ydd) gan ddefnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; cymryd agwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gasglu a chyflwyno gwybodaeth.</p>
<p><b>Pennod 19: Cynllunio ar gyfer pontio a'i gefnogi</b> <a href="#">Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</a></p>	<p>19.3 Gellir dod o hyd i wybodaeth ar drosglwyddo o wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc i wasanaethau iechyd meddwl oedolion mewn canllawiau a ddatblygwyd fel rhan o'r Rhaglen Gyda'n Gilydd i Blant a Phobl Ifanc; gellir dod o hyd i wybodaeth ar drosglwyddo o wasanaethau gofal iechyd</p>

	<p><i>plant i oedolion yng nghanllaw NICE a gellir dod o hyd i wybodaeth ar gefnogi trosglwyddiadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.</i></p>
<p><b>Pennod 20, 21, 22, 23: Trosglwyddo CDU a rhoi'r gorau i gynnal CDU i Blant a phobl ifanc o dan orchmynion cadw a Phlant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol</b>  <a href="#"><u>Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</u></a></p>	<p><i>Yn wybodus am..</i></p>
<p><b>Pennod 25: Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol</b>  <a href="#"><u>Cliciwch yma i ddychwelyd i'r rhestr wirio cydymffurfiant.</u></a></p>	<p><i>Ystyriwch sut i wneud y canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Codi ymwybyddiaeth o'r hawl sydd gan blant a phobl ifanc, sydd heb alluedd, i gael 'ffrind achos' os oes anghytundebau'n arwain at dribiwnlys</i></li> <li>• <i>Codi ymwybyddiaeth o'r hawl i bobl ifanc dros 16 oed a rhieni, sydd heb alluedd, gael eu cynrychioli er mwyn cynnig cefnogaeth i fynd ag achos i dribiwnlys</i></li> </ul> <p><i>25.8 Rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo'r trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfodau, er enghraifft trwy sicrhau fod plant, pobl ifanc a'u rhieni yn derbyn manylion y trefniadau pan fyddant yn derbyn rhybudd o benderfyniad gan yr awdurdod lleol.</i></p> <p><i>25.9 Rhaid i awdurdodau lleol hefyd sicrhau fod gwybodaeth am eu trefniadau ar gael ar eu gwefannau.</i></p>

ATODIAD 2:

Templed cofrestr risg

Rhif y risg	Risg	Tebygolrwydd	Camau gweithredu (cysylltiad i'r cynllun gweithredu)	Perchennog	Sylw ar y newidiadau
1	Dull Seiliedig ar Hawliau / Cynnwys a chefnogi plant, pobl ifanc a'u rhieni				
2	Dyletswyddau i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau				
3	Dyletswydd i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol				
4	Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir yng Nghymru				
5	Dyletswyddau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru				
6	Dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc mewn SAB				
7	Dyletswyddau mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir a dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu SAB				
8	Cynnwys CDU a chynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal				
9	Adolygu a diwygio CDUau ac ailystyriaethau a chymryd cyfrifoldeb am CDUau				
10	Cyfarfodydd am ADY a CDU				
11	Cynllunio ar gyfer pontio a'i gefnogi				

12	Trosglwyddo CDU a rhoi'r gorau i gynnal CDU i Blant a phobl ifanc o dan orchmynion cadw a Phlant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol				
13	Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol				

Cynnig Datblygiad Proffesiynol Trawsnewid ADY  
Rhanbarth Gogledd Cymru 2020 - 21 (Sector Addysg)

Math o Hyfforddiant	Cynulleidfa	Dull darparu	Amser	Cyfrifoldeb Ar gyfer Hyrwyddo a Monitro'r Dysgu Proffesiynol	Gwybodaeth Ychwanegol	Ar gael	
<b>CODI YMWYBYDDIAETH</b>							
Llywodraeth Cymru – Hyfforddiant Eliesha Lefel 1 Modiwl 1 - Beth yw'r system ADY newydd? Modiwl 2 - Adnabod anghenion dysgu ychwanegol Modiwl 3 - Rolau a chyfrifoldebau allweddol	Holl staff	e-ddysgu – LLC(Hwb)	1 awr	CADY/ UDR	Gweinyddir drwy HWB	Hydref 2020 (Tachwedd)	
Codi ymwybyddiaeth cyffredinol	Athrawon a staff cefnogol	Pwynt pŵer G6	1 awr	CADY/ UDR	Darparu nodiadau arweiniol	O fis Hydref 2020	
Codi ymwybyddiaeth Llywodraethwyr	Llywodraethwyr	Pwynt pŵer G6	1 awr	CADY/ Penaethiaid	Darparu nodiadau arweiniol	O fis Hydref 2020	
Gweithio gyda rhieni - Samantha Garner	Ysgol gyfan	e-ddysgu - Fideo (Platfform G6 )	30-45 munud	CADY/ UDR TÎM TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Darparu nodiadau arweiniol / Trawsgrifiad Cymraeg	O fis Hydref 2020 (Tachwedd)	
<b>YMARFER SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN</b>							
Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.- Ben Rosamond	CADY / Athrawon / Staff ADY	e-ddysgu – Fideo (Platfform G6)	30-45 munud	CADY/ UDR TÎM TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Rhaglen Trawsnewid	Hydref 2020	
Proffiliau Un Dudalen – Ben Rosamond	CADY / Athrawon / Staff ADY	e-ddysgu – Fideo (Platfform G6 )	30-45 munud	CADY/ UDR TÎM TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Rhaglen Trawsnewid	Hydref 2020	
Meddwl sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn Dechreuwch neu ychwanegwch at eich dealltwriaeth o'r hyn y mae bod yn berson sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei olygu; bydd yr offer meddwl sy'n	Ysgol Gyfan	Modiwlau E- ddysgu	l'w gadarnhau	CADY / UDR  TÎM TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Trwyddedau diderfyn  Ar gael yn ddwy ieithog	Hydref 2020	

Cynnig Datblygiad Proffesiynol Trawsnewid ADY  
Rhanbarth Gogledd Cymru 2020 - 21 (Sector Addysg)

canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhoi ffyrdd ymarferol i chi helpu pobl i reoli eu bywydau a'u cefnogi - Helen Sanderson Associates							
Datblygu Deiliannau Effeithiol a Defnyddio'r Dilyniant Cymorth - Pecyn tair sesiwn fydd hwn Sesiwn 1 - Paratoi (dysgu beth sy'n bwysig, pwy sy'n bwysig a ble mae'n bwysig) Sesiwn 2 - Y Dilyniant Canlyniadau (ysgrifennu canlyniadau effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) Sesiwn 3 - Y System Gymorth (gwirio datrysiadau a datrys problemau) Ben Rosamond ac Emily McArdle - Ben Rosamond a Emily McArdle #Helen Sanderson associates)	CADY / Staff Awdurdodau Lleol	Bydd yr hyfforddiant trwy Zoom. Bydd angen i bob cynrychiolydd gwblhau pob sesiwn	2.5 awr / 150 munud x 3 = 7.5 awr 450 munud	Tîm TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Uchafswm o 50 ym mhob carfan @ 5 carfan = 250 cyfranogiad  Dwy garfan yn cael eu cynnig yn ddwy ieithog	Hydref 2020 / Gwanwyn 2021	
<b>CYFREITHIOL</b>							
Trosolwg o oblygiadau cyfreithiol Ddeddf ar ysgolion a'u Cyrff Llywodraethu	Prifathro / Prifathrawes /CADY / Cadeirydd a Llywodraethwr ADY	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	Gwasanaethau cyfreithiol wedi ei drefnu gan Tîm TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Rhaglen Trawsnewid	Gwanwyn 2021 (unwaith mae'r cod terfynol mewn lle)	
<b>GWAHANIAETHU / CYNHWYSIANT</b>							
Fideo 1: Diffinio Gwahaniaethu a Haenu Fideo 2: Sgaffaldiau, Modelu a'r Cof Gweithredol Fideo 3:Defnyddio Tacsonomi i Wahaniaethu Fideo 4:Adborth a Metawybyddiaeth – Mike Gershon	Ysgol Gyfan	e-ddysgu – Fideo (Platfform G6 )	15 munud	CADY / UDR  Tîm TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Darparu nodiadau arweiniol	Hydref 2020	
Parchu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabled -	Ysgol Gyfan	ZOOM / TEAMS	Pwrpasol	SNAP Cymru	Rhaglen Trawsnewid	Gwanwyn 2021	



Cynnig Datblygiad Proffesiynol Trawsnewid ADY  
Rhanbarth Gogledd Cymru 2020 - 21 (Sector Addysg)

ymwybyddiaeth o anabledd a phwysigrwydd cynhwysiant i bob plentyn a pherson ifanc a allai fod ag anghenion ychwanegol neu anabledd.							
Cynhwysiant mewn addysg - beth yw cynhwysiant a sut i'w hyrwyddo yn ein lleoliad a'n harferion gwaith unigol.- Samantha Garner	Ysgol Gyfan	e-ddysgu – Fideo (Platfform G6 )	15 munud	CADY / UDR  TÎM TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Rhaglen Trawsnewid	Hydref 2020	
Addysgu cyntaf o safon 'Quality First Teaching' fel y don gyntaf o ran cymorth i fyfyrwyr ADY wrth symud ymlaen o'r ffordd draddodiadol o gefnogi ADY, addysgu cyntaf o safon yw'r ddiwyddiaeth gyntaf o gefnogaeth ADY – beth yw hyn, a sut y gallwn ei hyrwyddo? - Samantha Garner	Ysgol Gyfan	e-ddysgu– Fideo (PlatfformG6 )	15 munud	CADY / UDR  TÎM TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Rhaglen Trawsnewid	Hydref 2020	
Addysgu mewn ffordd ddiwyddiaeth i gefnogi myfyrwyr sydd ag ADY - pam nad yw pawb ohonom yn dysgu yn yr un ffordd, a sut y gallwn gynllunio a gwerthuso ein harferion i sicrhau ein bod yn cyrraedd pob dysgwr, nid yn unig y rheiny sy'n dysgu sut rydym ni'n addysgu.– Samantha Garner	Ysgol Gyfan	e-ddysgu – Fideo (Platfform G6)	15 munud	CADY / UDR  TÎM TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Rhaglen Trawsnewid	Hydref2020	
<b>Rôl y Cydgysylltydd ADY</b>							
Rôl y CADY - Canllaw byr	CADY/ Arweinwyr Addysgu a Dysgu	Cyfarfod ar-lein a dogfen ategol wedi'i rhannu ar G6	1 awr	Arweinydd Trawsnewid	Rhaglen Trawsnewid	Hydref 2020	

Cynnig Datblygiad Proffesiynol Trawsnewid ADY  
Rhanbarth Gogledd Cymru 2020 - 21 (Sector Addysg)

**OSGOI ANGHYTUNDEBAU**

Strategaethau cyfathrebu cadarnhaol	Ysgol Gyfan	I'w gadarnhau	Pwrpasol	YCG / CADY	Rhaglen Trawsnewid	Hydref 2020	
Rheoli sgysiau a delio gyda sefyllfaoedd anodd Disgrifiad byr: Datblygu strategaethau penodol ar gyfer datrys gwrthdaro; Ymarfer sgiliau cyfathrebu; Datblygu sgiliau dylanwadu a thrafod i hwyluso penderfyniadau.- NSMTC	UDR/ CADY/ Athrawon	Zoom/ Teams	2.5 awr/ 150 munud	Tîm TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Carfan o 200 ar y mwyaf @ 3 sesiwn= 600 o gyfranogwyr  1 carfan ar gael yn ddwy ieithog	Hydref 2020 Gwanwyn 2021	
Rheoli Sgysiau Anodd – NSMTC Disgrifiad byr: Sut i drin sgysiau heriol gan defnyddio 8-cam a fydd yn eich helpu i deimlo'n fwy parod, cyfathrebu'n hyderus a chadw rheolaeth ar y sefyllfa a chi'ch hun.	UDR/ CADY / Athrawon	Zoom/ Teams	2.5 awr/ 150 munud	Tîm TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	Carfan o 200 ar y mwyaf @ 3 sesiwn = 600 o gyfranogwyr  1 carfan ar gael yn ddwy ieithog	Hydref 2020 Gwanwyn 2021	
<b>GWAITH CLWSTWR</b>							
Cyfarfodydd Trawsnewid ADY Eiriolwyr Clwstwr	CADY (Eiriolwyr)	Teams Cyfarfodydd fesul Awdurdod Lleol	2 awr ar y mwyaf	Tîm TRAWSNEWID ADY RHANBARTHOL	GwE/ ALI	Parhaus	
Rhannu Arfer Dda	CADY	Wyneb yn wyneb Astudiaethau achos	½ diwrnod Tymhorol	YCG GwE + Swyddogion ALL a'r Arweinydd Trawsnewid	GWE/ALI	Parhaus	

Cynnig Datblygiad Proffesiynol Trawsnewid ADY  
Rhanbarth Gogledd Cymru 2020 - 21 (Sector Addysg)

ARWEINYDDIAETH GANOL

<p>Y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol. Sicrhawyd hyd at 80 lle ychwanegol ar gyfer CADY trwy gyllid LIC. Gwahoddir ceisiadau am y rhaglen tyn fuan wedi hanner tymor gyda'r bwriad i ddechrau'r garfan gyntaf cyn y Nadolig</p>	<p>CADY</p>	<p>Dull Rhithiol/ Cyfunol</p>	<p>3 -4 diwrnod hyd at ddiwedd tymor yr haf</p>	<p>CADY/ UDA  Tîm Trawsnewid Rhanbarthol</p>	<p>Yn cael ei gynnisg mewn carfan Cymraeg a Saesneg</p>		
--	-------------	-----------------------------------	---	--	---	--	--



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

### 11 TACHWEDD 2020

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Adolygiad Annibynnol - Cymwysterau 2020

---

#### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 I gynnal trafodaeth yn y Cyd-bwyllgor ar yr Adolygiad Annibynnol o ddyfarnu Cymwysterau yng Nghymru yn 2020 yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar 10 Tachwedd 2020.
- 1.2 I ystyried pa gefnogaeth sydd ei angen ar ysgolion i weithredu argymhellion y Gweinidog Addysg yn effeithiol.

#### 2.0 Cefndir

- 2.1 Dydd Llun , 17 Awst 2020, cadarnhaodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, y bydd graddau Safon Uwch, Safon UG, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yng Nghymru bellach yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau ac y byddai'n gwneud datganiad pellach ar adolygiad annibynnol o'r digwyddiadau yn dilyn canslo'r arholiadau eleni.
- 2.2 Yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Awst 2020, nododd y Gweinidog Addysg y bydd yn comisiynu adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau cyfres arholiadau haf 2020, a'r ystyriaethau ar gyfer 2021. Mae'r adolygiad

yn cael ei gadeirio gan Louise Casella, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru sydd â phrofiad helaeth mewn rolau strategol o fewn y sector addysg yng Nghymru.

### **3.0 Materion i'w hystyried**

- 3.1 Bwriad yr adolygiad yw darparu argymhellion ac ystyriaethau i'r Gweinidog Addysg, gan gydnabod yr amrywiol bartneriaid sy'n gysylltiedig â chefnogi dysgwyr yng Nghymru.
- 3.2 Mae'r cylch gorchwyl yn nodi y dylai'r adolygiad ystyried y sialensiau sydd wedi codi yn sgil y profiad yn 2020 (ac yng nghyd-destun yr ansicrwydd ynghylch Covid yn y dyfodol) a'r sialensiau i ddysgwyr yn nghyffwrdd arholiadau haf 2021 (Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Annibynnol).
- 3.3 Dylid hefyd ystyried y prif wersi sydd wedi codi eleni yn benodol er mwyn darparu argymhellion ac ystyriaethau ynghylch dull gweithredu posibl i baratoi ar gyfer 2021 sy'n blaenoriaethu anghenion dysgwyr a'u cynnydd, ac yn rhoi sylw i'r angen parhaus i gynnal safonau a hygrededd y system addysg a'r broses o ddyfarnu cymwysterau.
- 3.4 Mae'r Cydbwyllgor wedi sicrhau mewnbwn i'r adolygiad drwy gyfres o lythyrau i'r Gweinidog Addysg a thrwy gwblhau'r holiadur ar lein 'Adolygiad annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021'. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweiliad gyda swyddogion GwE a'r Panel.
- 3.5 Mae'r Cydbwyllgor wedi pwyso ar y Gweinidog Addysg am benderfyniad brys ynghylch trefniadau cyfres arholiadau ac wedi argymhell Graddau Asesu Canolfannau gyda threfniant cymedroli ar gyfer 2021.

- 3.6 Mewn datganiad ar 21 Hydref 2020, nododd Louise Casella, Cadeirydd y Panel Adolygu Annibynnol:

*“Bydd argymhellion y Panel yn adlewyrchu profiadau’r dysgwr yn 2020 a 2021 ac yn awgrymu ffordd ymlaen sy’n deg a chyfiawn ac sy’n ystyried yr aflonyddwch lluosog sy’n parhau i godi oherwydd Covid-19.”*

- 3.7 Mewn [Datganiad](#) ar 29 Hydref 2020, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y bydd yn gwneud cyhoeddiad ddydd Mawrth, 10 Tachwedd 2020, am y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau ar gyfer 2021.

- 3.8 Roedd y Gweinidog wedi gofyn am wybodaeth a chynghor i lywio'r penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys argymhellion interim yr adolygiad annibynnol a chynghor pellach gan Gymwysterau Cymru. Cafodd y ddau adroddiad eu cyhoeddi ar 29 Hydref 2020 – Atodiad 2 ac Atodiad 3.

- 3.9 Blaenoriaeth pennaf y rhanbarth dros y cyfnod nesaf fydd cyd-weithio ag ysgolion i sicrhau parhad y dysgu a chefnogi ysgolion i wireddu penderfyniad y Gweinidog Addysg. Yn benodol ar gyfer yr uwchradd, a chyda’r ansicrwydd ynghylch sut y dyfernir cymwysterau CA4 a CA5, byddwn yn cyd-weithio i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth ac adnabod lefel y cymorth fydd ei angen er mwyn cefnogi’r broses o ddyrannu cymwysterau priodol ar gyfer y dysgwyr.

#### **4.0 Argymhellion**

- 4.1 Gofynnir i’r Cyd-bwyllgor drafod goblygiadau’r uchod ac ystyried unrhyw ymateb pellach sydd ei angen yn dilyn datganiad y Gweinidog Addysg ar 10 Tachwedd 2020 mewn perthynas â’r Adolygiad Annibynnol.
- 4.2 Cytuno mai prif flaenoriaeth y rhanbarth dros y cyfnod nesaf fydd rhoi’r gefnogaeth briodol i’r ysgolion uwchradd i gefnogi dysgwyr CA4 a CA5 i gael eu hachredu’n deg.

## **5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

## **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

## **8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE, Cydbwyllgor GwE a'r Grŵp Gweithredol Uwchradd Rhanbarthol o benaethiaid.

## **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Annibynnol

9.2 Atodiad 2 – Adroddiad Interim yr Adolygiad Annibynnol - Hydref 2020

9.3 Atodiad 3 - Cyngor gan Gymwysterau Cymru

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Felly, cymeraf y bydd GwE yn blaenoriaethu o fewn eu hadnoddau presennol.

# Adolygiad annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021

## Gylch gwaith

### Cylch gwaith ac amcanion

- Gan gydnabod nad oedd dewis arall ond canslo'r gyfres arholiadau ar gyfer 2020 (TGAU, Uwch Gyfrannol, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau, a'r cymwysterau galwedigaethol cymeradwy yng Nghymru) yn sgil y pandemig iechyd cyhoeddus a'r pryder a'r ansicrwydd yr oedd hynny'n ei greu i ddysgwyr, eu teuluoedd ac i ymarferwyr, dylai'r adolygiad annibynnol hwn ystyried y **prif faterion a gododd o'r trefniadau** a gafodd eu datblygu a'u gweithredu.
- Dylai'r adolygiad ystyried y **sialensiau sydd wedi codi yn sgil y profiad yn 2020 (ac yng nghyd-destun yr ansicrwydd ynghylch Covid yn y dyfodol) a'r sialensiau i ddysgwyr yn nghyfres arholiadau haf 2021.**
- Dylid ystyried y prif wersi sydd wedi codi eleni yn benodol er mwyn darparu **argymhellion ac ystyriaethau ynghylch dull gweithredu posibl i baratoi ar gyfer 2021** sy'n blaenoriaethu anghenion dysgwyr a'u cynnydd, ac yn rhoi sylw i'r angen parhaus i gynnal safonau a hygyrdded y system addysg a'r broses o ddyfarnu cymwysterau.
- Bwriad yr adolygiad hwn yw darparu argymhellion ac ystyriaethau i'r Gweinidog Addysg, gan gydnabod yr amrywiol bartneriaid sy'n gysylltiedig â chefnogi dysgwyr yng Nghymru.

### Cwmpas yr adolygiad a'r cwestiynau i'w trafod

#### *Egwyddorion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru*

- Wrth bennu'r polisi ar gyfer canslo'r arholiadau a datblygu trefniadau wedyn i ddyfarnu graddau i ddysgwyr, mae Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu'r egwyddorion canlynol:
  - a. Galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd yn y dyfodol a chydabod eu gwaith caled drwy ddyfarnu graddau
  - b. Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig
  - c. Cyflwyno dull cadarn a theg, sy'n deg i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
  - d. Cynnal hyder a hygyrdded yn y system gymwysterau.
- A oedd yr holl bartneriaid cyflenwi yn deall ac yn rhannu'r un blaenoriaethau?
- A roddwyd y pwysoliad cywir iddynt?

#### *Heriau gweithredu*



- Beth oedd y materion a'r heriau allweddol wrth weithredu'r trefniadau yn 2020, gan gydnabod y cyfyngiadau a oedd ar bob rhan o'r sector?
- A gafodd y dulliau gweithredu a fabwysiadwyd, a'r dewisiadau eraill na fabwysiadwyd, eu profi'n gadarn a'u gwerthuso yn erbyn y cyfarwyddiadau polisi arfaethedig?
- A gafodd y dulliau a fabwysiadwyd, a'r dewisiadau amgen hynny nas mabwysiadwyd, eu profi'n drylwyr a'u gwerthuso yn erbyn meini prawf cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb er mwyn sicrhau tegwch?

#### *Rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd sefydliadol*

- A oes eglurder yn y gwahanol gyfrifoldebau yn y sector addysg yng Nghymru o ran cefnogi'r gwaith o ddarparu cymwysterau?
- A gafodd pob rôl wrth ddyfarnu graddau eleni eu rhoi ar waith yn briodol, eu deall a'u cyfathrebu'n dda gan y partion dan sylw?
- A roddwyd y pwyslais priodol ar y rhyngddibyniaethau ledled y Deyrnas Unedig, ac effaith gwahanol ddulliau a weithredwyd mewn mannau eraill o'r DU ar Gymru wrth ystyried a gweithredu trefniadau ar gyfer 2020?

#### *Tryloywder a llais y dysgwyr*

- A oedd digon o ymgysylltu, cyfathrebu a thryloywder â rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflawni'r trefniadau yn 2020 ac a oedd llais y dysgwyr wedi'i gynrychioli'n briodol?

#### *Heriau ac opsiynau ar gyfer 2021*

- O ystyried yr heriau ar gyfer carfan 2020/21 o ran cynnydd a chyflawniad, a sicrhau tegwch a hygredd yng nghyd-destun system gymwysterau ehangach y Deyrnas Unedig ac i ddysgwyr unigol, pa ddulliau asesu y gellid eu hystyried ar gyfer 2021 a fyddai'n helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a nodwyd uchod?

Wrth ystyried yr uchod, gwahoddir yr Adolygiad yn arbennig i ystyried y cwestiynau canlynol:

- Beth a ddysgwyd o weithredu'r broses safoni yn 2020, a beth y dylid ei ystyried wrth gytuno ar y meini prawf neu'r egwyddorion ar gyfer unrhyw broses safoni yn 2021?
- Sut y gellir cydnabod a blaenoriaethu llais dysgwyr a'u lles mewn unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol?

- A oes cyfle i gael mwy o gyfraniad asesu athrawon a chanolfannau, sy'n gymesur â'r angen i flaenoriaethu amser addysgu a dysgu?
- A oes model cymedroli posibl ar draws clystyrau/canolfannau, sydd wedi'i ategu gan ddarpariaeth dysgu proffesiynol, ac a allai ymarferwyr, Estyn, awdurdodau lleol neu gonsortia addysg rhanbarthol chwarae fwy o ran wrth sicrhau dull gweithredu cyson rhwng ysgolion?
- Pa rôl ddylai fod ar gyfer unrhyw broses apelio, a sut y gellid ystyried y cyfrifoldebau o lefel yr ysgol hyd at lefel reoleiddio mewn unrhyw broses yn y dyfodol?
- Pa ddadansoddiad pellach sydd ei angen i ddeall effaith digwyddiadau'r haf hwn ar garfanau'r blynyddoedd dilynol?

#### *Meysydd eraill i'w hystyried*

- Gall yr adolygiad hefyd nodi meysydd i'w hystyried a'u harchwilio ymhellach wrth i ni ddechrau symud i'r cwricwlwm newydd. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, feysydd yn ymwneud â: dull ymarferwyr o asesu a barn broffesiynol, rôl systemau atebolrwydd a'r ymddygiad y maent yn ei yrru; a rôl a phatrwm cymwysterau yn y dyfodol.
- Gall yr adolygiad hefyd ystyried yr hyn y gallwn ei ddysgu o ddulliau rhyngwladol o asesu a dyfarnu cymwysterau.

#### Gweithredu'r adolygiad a'r amseru

- Bydd y Cadeirydd yn ystyried aelodaeth y tîm adolygu a bydd yn dod â phartneriaid a rhanddeiliaid i mewn i ddarparu cyfraniadau a syniadau. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru'n darparu'r ysgrifenyddiaeth.
- O ystyried yr angen dybryd i roi mesurau ar waith i sicrhau bod cyfres arholiadau 2021 yn cael ei chyflawni a datblygu trefniadau wrth gefn rhag ofn y bydd tarfu pellach, dylai'r adolygiad adrodd mewn dau gam:
  - byddadroddiad interim, sy'n cynnwys canfyddiadau a ffactorau allweddol i'w trafod, yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Hydref 2020;
  - bydd adroddiad terfynol gydag argymhellion llawn yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn canol mis Rhagfyr 2020.

## ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O DREFNIADAU HAF 2020 AR GYFER DYFARNU GRADDAU, AC YSTYRIAETHAU AR GYFER 2021:ADRODDIAD INTERIM HYDREF 2020

### Crynodeb gweithredol ac argymhellion cynnar

Drwy gydol mis Medi a mis Hydref 2020, mae'r Panel Adolygu Annibynnol wedi bod yn archwilio dogfennaeth o gyrff allweddol a gwranddo ar brofiadau a myfyrdodau ystod eang o randdeiliaid a fu ynghlwm wrth y broses o ddyfarnu graddau ar gyfer cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau, a chymwysterau galwedigaethol yn ystod haf 2020, neu y cafodd effaith arnynt. Mae aelodau'r panel yn dechrau'r adroddiad hwn gan gydnabod proffesiynoldeb ac ymroddiad pawb yr ydym wedi cwrdd â nhw yn ystod yr adolygiad hwn; ceir arbenigedd helaeth yn sector addysg Cymru a rhaid cymeradwyo'r gwaith caled ac ymroddiad a arddangoswyd drwy gydol haf 2020. Rydym o'r farn bod angen defnyddio a chydlynu'r arbenigedd hwnnw o ble bynnag y mae'n bodoli o fewn y sector addysg er mwyn sicrhau bod y prosesau ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021 yn canolbwyntio ar ddysgwyr ac yn sicrhau canlyniad teg a chyfartal i bawb.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau ac ansicrwydd digyffelyb ar draws system addysg Cymru ac mae pawb wedi gweithio o dan bwysau proffesiynol a phersonol anferth. Yn anffodus, mae'r sefyllfa hon yn parhau, ac mae'r angen i wneud penderfyniadau brys ar gyfer 2021 wedi cael ei fynegi'n gryf yn ystod ein cyfarfodydd a'n trafodaethau i gyd. Bydd ein hadroddiad llawn, gyda myfyrdodau ar wersi haf 2020, ar gael ym mis Rhagfyr 2020. Rydym yn defnyddio'r adroddiad interim hwn i wneud cyfres o argymhellion cynnar, y rhai y gellir eu gweithredu ar unwaith i ddod â mwy o sicrwydd a rheolaeth i ddysgwyr, eu rhieni a'u gofalwyr, ac i weithwyr addysg proffesiynol mewn cyfnod heriol. Ni fydd gohirio cyfeiriad clir ar y trefniadau ar gyfer dyfarniadau yn 2021 yn gwasanaethu neb yn dda ac mae consensws ynghylch yr angen am benderfyniad cynnar fel y gellir cynllunio'n briodol.

Mae'r panel yn ymwybodol o'r gwaith cyfredol yn Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ac ar draws sectorau addysg uwchradd ac addysg bellach Cymru i ddysgu gwersi o 2020 a datblygu opsiynau clir ar gyfer 2021. Gwneir ein hargymhellion cynnar gyda'r bwriad o ddod â'r ymdrech gyfredol honno i mewn i raglen waith gydlynol ac amserol sy'n blaenoriaethu'r dysgwr ac yn galluogi pawb i ganolbwyntio ar un ffordd gyfunol ymlaen. O safbwynt y dysgwr, mae ein hargymhellion cynnar yn cydnabod, er bod ysgolion a cholegau yn parhau â'u hymdrechion gorau i gefnogi dysgu i bawb, fod profiadau dysgwyr wedi bod yn anghyson, a byddant yn parhau i fod yn anghyson am amser i ddod, oherwydd digwyddiadau lleol yn ymwneud â COVID-19.

Gwneir ein hargymhellion cynnar felly yng nghyd-destun blwyddyn academiaidd gyfredol a fydd yn parhau i fod yn flwyddyn anghyffredin, gydag effaith barhaus COVID-19 yn tarfu arni mewn ffordd ddigyffelyb. Mae angen felly ffordd wahanol o weithio gydag atebion arloesol a fydd yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen yn hyderus yn eu gyrfaedd a'u bywydau yn y dyfodol. Gwneir ein hargymhellion dros dro gyda'r nod o flaenoriaethu tegwch gyda ffocws clir ar wneud y mwyaf o'r amser ar gyfer dysgu, a sicrhau bod gan bob dysgwr gyfle cyfartal i gaffael y wybodaeth a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i symud ymlaen yng nghymau nesaf eu bywydau.

Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar ein canfyddiad allweddol y byddai lefel yr anghysondeb ym mhrofiadau dysgwyr ar draws 2020 ac yn ymestyn i 2021 yn gwneud unrhyw gyfres o arholiadau yn ffordd annheg o farnu cynnydd a gallu ar draws carfan o ddysgwyr 2021. I ddyfynnu un o'n cyfranwyr arbenigol, *byddai'n fantais i'r mwyaf breintiedig ac yn anfantais i'r mwyaf difreintiedig*. Yn weithredol, mae rhedeg unrhyw fath o gyfres arholiadau ar gyfer 2021 yn parhau i fod yn ymdrech risg uchel, a gall ansicrwydd parhaus ynghylch cynnydd yn y pandemig achosi newid cyfeiriad a allai drechu unrhyw amserlen arholi –

byddai angen Cynllun B bob amser. Mae'r Panel Adolygu o'r farn y byddai'n llawer gwell buddsoddi amser ac ymdrech ddwys nawr i ddatblygu, ar y cyd, gynllun asesu arall yn y ganolfan ac ymrwymo iddo. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i ddysgwyr a'u rhieni, gofawyr, ysgolion a cholegau am y ffordd ymlaen a rhoi cyfeiriad clir ynghylch blaenoriaethu'r amser sydd ar gael mewn ysgolion a cholegau i wneud y mwyaf o'r dysgu.

#### **ARGYMHELLION:**

- 1. Dylai penderfyniadau ar ddyfarnu graddau yng Nghymru yn 2021 flaenoriaethu anghenion y dysgwyr sy'n cael eu hasesu, a'u trin yn deg, drwy gydnabod amgylchiadau heriol y dysgu drwy 2020 a 2021.**
- 2. Yn 2021, dylid dyfarnu cymwysterau ar sail asesiad cadarn ac wedi'i chymedroli a wneir gan leoliad addysgol y dysgwr ac nid trwy gyfres o arholiadau.**
- 3. Mae angen datblygu dulliau asesu cadarn mewn canolfannau fel bod dysgwyr yn cael graddau teg wrth sicrhau cywirdeb y cymwysterau.**
- 4. Dylai'r dulliau asesu hyn gael eu datblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol a dylid cyfleu'r penderfyniadau allweddol yn glir i bawb sy'n gysylltiedig.**
- 5. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cyflawni dan gadeiryddiaeth annibynnol i oruchwylio a llywio'r dull diwygiedig o gymhwyso yn 2021.**

**Credwn, gyda dull o'r fath ar waith, fod cyfle gwirioneddol i ailadeiladu hyder yn y system gymwysterau yng Nghymru. Bydd hefyd yn rhoi ymddiriedaeth ac atebolrwydd gyda'r athrawon, y darlithwyr, a thimau arwain ysgolion a cholegau wrth ymgymryd â'r dyfarniadau asesu ac wrth graffu yn fewnol ac yn allanol ar y dyfarniadau hynny. Yn bwysicaf oll, bydd yn gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael ar gyfer dysgu ac yn canolbwyntio ymdrechion ysgolion a cholegau hyd at ddiwedd tymor yr haf 2021 ar gefnogi dysgwyr yn eu dysgu ac adeiladu eu hyder i symud ymlaen gyda champau nesaf eu bywydau.**

Ymhelaethir ar y rhesymau dros yr argymhellion hyn ynghyd â manylion ychwanegol yn yr adroddiad interim hwn.

Rydym yn cydnabod bod risgiau'n gysylltiedig â'r argymhellion hyn ond mae ein hymchwil a'n canfyddiadau yn ein harwain i gredu y gellir rheoli risgiau o'r fath yn llwyddiannus.

- **Risg 1: Tegwch**

*Mae pryder y bydd rhai grwpiau o fyfyrwyr, er enghraifft y rhai o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn derbyn triniaeth lai ffafriol trwy asesiadau canolfan oherwydd rhagfarn anfwriadol gan athrawon.*

Mae'r panel wedi gweld ymroddiad llwyr gan yr addysgwyr i wneud eu gorau glas i'w holl fyfyrwyr. Rydym hefyd wedi dysgu am arfer da a phrofiad o gael gwared ar ragfarn anfwriadol yn yr asesiadau, yn enwedig mewn cymwysterau galwedigaethol. Rydym yn hyderus y gellir rhannu'r arfer gorau a bod gallu yn y system i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pob person ifanc. Credwn gyda hyfforddiant a datblygiad effeithiol ar waith ar gyfer athrawon a darlithwyr y gellir goresgyn y risg hon yn llwyddiannus.

- **Risg 2: Cymaroldeb**

*Pryder arall yw, os nad yw graddau'n seiliedig ar arholiadau, efallai na fydd prifysgolion a chyflogwyr yn cydnabod ac yn hyderus yng nghymwysterau myfyrwyr Cymru.*

Mae prifysgolion a chyflogwyr yn delio ag ystod eang o gymwysterau yn rheolaidd, yn seiliedig ar amrywiaeth o ddulliau asesu amgen cadarn. Pwysleisiodd y prifysgolion yng Nghymru a Lloegr y gwnaethom gwrrd â nhw eu natur agored a'u dealltwriaeth ar y mater hwn, a chredwn mai'r allwedd i dderbyn yn eang fydd cyfathrebu, ynghyd â hyder yng nghadernid dull amgen.

- Risg 3: Gallu

*Mae pryder nad oes gan athrawon/darlithwyr y gallu ar hyn o bryd i ddatblygu neu ymgysylltu â phroses asesu mewn canolfan well.*

Mae'r pryder hwn yn deillio o'r nod dealladwy i gadw cyn lleied â phosibl o faich ychwanegol ar y proffesiwn addysgu, gan gydnabod y gofynion arnynt wrth gadw ysgolion/colegau ar agor a'r awydd i ganolbwyntio ymdrechion ar addysgu. Fodd bynnag, yr adborth ysgubol a gawsom gan y proffesiwn yw eu bod yn barod i gymryd rhan yn yr asesiad hwn. Maent yn cydnabod yr angen am ddatblygiad a dysgu proffesiynol ac yn barod i ddefnyddio a dysgu gan arbenigedd yr unigolion niferus yn y sector ysgolion a cholegau sydd â phrofiad mewn asesiadau heblaw arholiadau yn ogystal â chan y staff hynny sydd hefyd yn arholwyr.

- Risg 4: Amser a'r gallu i gyflawni

*Mae pryder pellach nad oes llawer o amser ar gael i gynllunio, dylunio a gweithredu proses asesu mewn canolfan well.*

Gyda phenderfyniad cynnar, mae mwy o amser ar gael i ddatblygu proses asesu mewn canolfan sydd wedi'i chymedroli ar gyfer 2021 nag a oedd ar gael ar gyfer 2020. Mae hefyd gwersi y gellir dysgu ganddynt o brofiad 2020. Ond bydd amser yn dal i fod yn adnodd na allwn fforddio ei wastraffu. Bydd angen i'r gwaith ddechrau ar unwaith ar ôl gwneud penderfyniad a bydd angen iddo fod yn drefnus ac wedi'i strwythuro, a bydd angen iddo gael ei gyflawni mewn ffordd wahanol iawn i'r cyfnod arferol. Bydd y dull a argymhellwn, gan ddefnyddio cryfder a gallu'r holl bartion a goruchwyliaeth annibynnol glir, yn hanfodol i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o amser ac arbenigedd.

Mae'r lefel uchel o ymgysylltiad adeiladol gan randdeiliaid yn yr adolygiad hwn, ac yn benodol y lefel amlwg o ymgysylltiad gan ddysgwyr, eu rhieni/gofalwyr a'u hathrawon a'u darlithwyr, yn rhoi hyder inni wrth wneud yr argymhellion cynnar hyn. Bydd gweithio gyda'n gilydd ar bob lefel yn galluogi cyflawni dull arloesol ac ymarferol o asesu. Rydym yn dawel ein meddwl mai gweithredu'r argymhellion hyn fydd y ffordd orau ymlaen o gefnogi dysgwyr o Gymru i symud ymlaen i astudiaeth bellach neu gyflogaeth.

Rydym yn cydnabod mai dull amgen fyddai i barhau gyda rhyw fath o gyfres arholiadau lai ar gyfer 2021 a datblygu cynllunio wrth gefn os na ellir cynnal arholiadau. Credwn fod risg uwch i ddull o'r fath na'n hargymhellion ni, yn enwedig i'r bobl ifanc hynny sydd wedi gweld bod eu hamser yn yr ysgol wedi'i leihau'n anghyfartal heb unrhyw fai arnyn nhw. Byddai'r dystiolaeth o 2020 yn awgrymu bod newid dulliau asesu yn hwyr yn gwbl annheg i ddysgwyr a bod gweithio gyda'r posibilrwydd o ddau ddull asesu gwahanol yn creu llwyth gwaith hyd yn oed yn fwy i'r rheini yn y system ac yn cynhyrchu ansicrwydd parhaus i ddysgwyr ac addysgwyr.

Mae'r Panel Adolygu Annibynnol yn glir bod angen dull gwahanol yn 2021. Mae angen arloesi sylweddol mewn cyfnod byr o amser ac mae angen ewyllys, medrusrwydd ac ymgysylltiad llawer ar draws y sector addysg yng Nghymru i wneud i hynny ddigwydd. Mae angen herio strwythurau ac arferion y gorffennol, a mabwysiadu dulliau newydd, i osgoi anawsterau 2020.

Mae'r pandemig wedi ein gorfodi i weithio mewn gwahanol ffyrdd ac i ddod o hyd i atebion arloesol. Rydym wedi dod o hyd i wahanol ffyrdd o gydweithio, gan fanteisio ar weithio ar-lein a rhwyddineb dod â phobl ynghyd. Mae pobl o bob cefndir wedi dangos eu parodrwydd i ymgysylltu â newid ac adeiladu yn ôl mewn ffyrdd gwell. Mae cyfle i greu momentwm na fyddai'n bosibl mewn cyfnodau eraill. Mae'r Panel Adolygu Annibynnol wedi canfod bod cyfle go iawn bellach i symud ymlaen gyda deialog broffesiynol a gweithredu ynghylch asesu mewn ffordd a fydd o fudd i ddysgwyr yng Nghymru nid yn unig yn 2021 ond hefyd yn y blynyddoedd i ddod.

### **Nodyn ar derminoleg**

Trwy gydol y gwaith hwn cawsom ein synnu gan y graddau y mae dealltwriaeth ehangach o'r materion dan sylw wedi cael ei rhwystro gan ddefnydd anghyson o dermau allweddol gan randdeiliaid o bob math. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r termau allweddol canlynol:

**Dilysu** yw gwirio a yw proses yn cydymffurfio â manyleb neu set o feini prawf.

**Cymedroli** yw proses sy'n cynnwys adolygu a dyfarnu graddau unigol.

**Safoni** yw cymhwyso prosesau ystadegol i sicrhau bod set o raddau yn cydymffurfio â rhai meini prawf a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

## Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar bob agwedd o'n bywydau, gan achosi ansicrwydd, tarfiad, pryder a cholled. Yn y sector addysg yng Nghymru, arweiniodd at gau safleoedd ysgolion a cholegau ym mis Mawrth 2020. Gwnaeth achosi'r mwyafrif o ddysgwyr i brofi symudiad cyflym i ddysgu a gefnogwyd ar-lein, a tharfiad sylweddol i ddysgwyr a dysgu wrth i bawb geisio addasu. Roedd yn rhaid i Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, wneud y penderfyniad anodd i ganslo cyfres arholiadau'r haf ar sail iechyd y cyhoedd wrth i'r wlad geisio ymladd yn erbyn y pandemig. I sicrhau y gallai pob dysgwr symud ymlaen i astudiaethau pellach neu geisio cyflogaeth, cafodd trefniadau amgen ar gyfer dyfarnu graddau eu rhoi ar waith.
- 1.2 Ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol (UG), a'r Dystysgrif Her Sgiliau, cafodd dull ei ddatblygu gan Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC), a'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020. Gofynnwyd i ysgolion a cholegau gyflwyno graddau asesu canolfannau ac i drefnu safleoedd eu dysgwyr o fewn pob gradd ym mhob cymhwyster. Cafodd y data hyn eu cyfuno â data hanesyddol perthnasol, lle roedd ar gael, er mwyn darogan graddau terfynol ar gyfer pob dysgwr fesul cymhwyster. Roedd y dull hwn yn gyffredinol debyg ar draws y DU, wrth i fyrddau safonau cymwysterau, dan arweiniad Ofqual yn Lloegr, gydlyn eu gweithgareddau a rhannu cynlluniau. Yr Alban oedd y wlad gyntaf i gyhoeddi canlyniadau (Scottish Highers) ar 4 Awst, a chafwyd gwrthwynebiad cyhoeddus o ganlyniad wrth i lawer o ddysgwyr dderbyn canlyniadau a oedd yn sylweddol wahanol i'r rheiny roeddent wedi'u disgwyl. Arweiniodd y gwrthwynebiad hwn at newid penderfyniad yn yr Alban, wythnos yn ddiweddarach, i ddyfarnu graddau ar sail y graddau asesu canolfannau yn unig, mewn achosion lle roedd gradd asesu'r ganolfan yn uwch na'r radd a gyfrifwyd. Dros yr wythnos ganlynol, datblygodd digwyddiadau tebyg ar draws gweddill gwledydd y DU, a Chymru oedd yr olaf i newid. Y prif ddiffiniad o degwch i'r dysgwr oedd sicrhau cysondeb â gweddill y DU ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.
- 1.3 Ar gyfer y cymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru, cafodd y dull ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020 ei alinio â'r dull a oedd yn cael ei ddilyn yng ngweddill y DU, gan gydnabod bod y mwyafrif o gymwysterau galwedigaethol ar gael ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gwnaeth y cymwysterau hynny a ddefnyddir ar gyfer dilyniant i addysg bellach neu addysg uwch ddilyn y dull graddau asesu canolfannau, ond heb y safoni ystadegol. Ar gyfer y cymwysterau yr oedd arddangos cymhwysedd galwedigaethol yn ofynnol ganddynt, roedd yn ofynnol i gyrff dyfarnu addasu asesiadau a fodolai eisoes i ddarparu ar gyfer y cyfyngiadau iechyd y cyhoedd a ddeilliodd o COVID-19. Nid oedd modd gwneud rhai asesiadau, ac nid oedd rhai dysgwyr yn gallu gorffen eu cymwysterau yn ystod haf 2020. Mae canolfannau sy'n darparu cymwysterau galwedigaethol yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu niferus yng Nghymru a Lloegr, ac achosodd hyn fwy o gymhlethdod iddynt o safbwynt gofynion gwahanol ac effeithiolrwydd cyfathrebu amrywiol.
- 1.4 Ar 18 Awst 2020, nododd y Gweinidog Addysg y byddai'n comisiynu adolygiad annibynnol o'r broses o ddyfarnu graddau yn 2020, a'r gwersi a ddysgwyd, er mwyn llywio'r trefniadau ar gyfer 2021. Sefydlwyd yr adolygiad annibynnol ym mis Medi 2020, a chyflwynir ei adroddiad interim yma. Caiff adroddiad llawn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020.

## Cylch gorchwyl ac aelodaeth

- 1.5 Ymgwymerir â'r adroddiad gan banel annibynnol:
  - Louise Casella, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru (cadeirydd yr adolygiad);

- Yr Athro Alma Harris, Dirprwy Bennaeth Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe. Cyngorydd Cyngor Rhyngwladol i Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog yr Alban;
- Rosemary Jones OBE, Cyngorydd Gwella Ysgolion, ymgynghorydd addysgol a chyn-bennaeth;
- Andy Youell, arbenigwr data a systemau llawrydd, cyn-Gyfarwyddwr Polisi a Llywodraethu Data yn yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

#### 1.6 Amlinellir y cylch gorchwyl yn ei gyfarwydd yn Atodiad 1.

Yn gryno, gofynnwyd i'r panel wneud y canlynol:

- Ystyried y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r trefniadau a gafodd eu datblygu a'u gweithredu o ganlyniad i ganslo cyfres arholiadau haf 2020 (TGAU, Safon Uwch ac UG, y Dystysgrif Her Sgiliau, a chymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru).
- Ystyried yr heriau a ddeilliodd o'r profiad yn 2020 ac (yng nghyd-destun ansicrwydd ynghylch COVID-19 i'r dyfodol) yr heriau y bydd dysgwyr yn eu hwynebu yn ystod cyfres arholiadau haf 2021.
- Dysgu gwersi allweddol o'r profiad yn 2020 er mwyn llywio argymhellion ac ystyriaethau ar gyfer dull posibl o baratoi ar gyfer 2021 sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion dysgwyr a'u dilyniant, ac sy'n ystyried yr angen parhaus i gynnal safonau ac uniondeb y system addysg a'r broses o ddyfarnu cymwysterau.
- Cyflwyno argymhellion ac ystyriaethau i'r Gweinidog Addysg, a chydnabod y partneriaid lluosog sydd ynghlwm wrth gefnogi dysgwyr yng Nghymru.

1.7 Cydnabyddir bod llawer o gyrsiau galwedigaethol a ddilynir gan ddysgwyr yng Nghymru nad ydynt o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Mae'r adolygiad yn cwmpasu cymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru, sef cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.

1.8 Dylid nodi hefyd fod profi neu adolygu'n fanwl y prosesau ystadegol a gafodd eu defnyddio yn ystod cam safoni'r broses o ddyrannu graddau yn 2020 y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad annibynnol. Fodd bynnag, mae'r panel yn ystyried sut y datblygwyd y prosesau a gallai ddychwelyd i'r mater hwn yn yr adroddiad terfynol. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) yn adolygu modd datblygu a defnyddio'r algorithmau ar draws pob un o wledydd y DU, ac mae aelodau o'r panel wedi cwrdd â Chyfarwyddwr Cyffredinol Rheoleiddio'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau a'r rheoleidiwr ystadegol sy'n cynnal yr adolygiad er mwyn dysgu rhagor am y dull a ddilynir.

1.9 Er bod yr adroddiad interim hwn yn amlinellu'r sail ar gyfer y dull a argymhellir ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021, a fframwaith a chyfres o egwyddorion i lywio gwaith pellach, rydym yn gadarn ein barn na ddylai'r panel ddatblygu manylion y dull. Elfen allweddol o'n dull a argymhellir yw y dylai'r sector addysg ei hun ddod ynghyd i ddatblygu, profi a bod yn berchen dros y manylion, ac mai trwy'r dull ar y cyd hwnnw y caiff anghenion dysgwyr Cymru eu gwasanaethu orau.

#### **Sut mae'r panel wedi gweithio**

1.10 Ers dechrau ein gwaith, rydym wedi canolbwyntio ar wrando ar y rhanddeiliaid a oedd ynghlwm wrth y digwyddiadau ynghylch dyfarnu graddau yn ystod haf 2020 a/neu yr oeddent wedi cael effaith arnynt, sef y canlynol:



- y cyrff a oedd ynghlwm wrth ddatblygu'r trefniadau a'u rhoi ar waith;
- yr addysgwyr, a'r sefydliadau hynny sy'n eu cefnogi wrth ddarparu addysg;
- y dysgwyr a'u teuluoedd/cefnogwyr;
- y bobl hynny sy'n derbyn dysgwyr i astudiaethau pellach neu gyflogaeth; a'r
- bobl hynny â rolau sy'n cynnwys craffu ar benderfyniadau a'r modd o'u gweithredu.

Rydym wedi cynnal cyfarfodydd â chynifer o gynrychiolwyr rhanddeiliaid â phosib yn ystod yr amser sydd wedi bod ar gael, a byddwn yn parhau i ystyried mewnbynau a cheisio deialog bellach yn ôl yr angen dros yr wythnosau nesaf. Mae Atodiad 2 yn rhestru'r bobl hynny rydym wedi cwrdd â nhw hyd yn hyn.

- 1.11 Gan gydnabod na allwn gwrdd â phawb, mae'r panel hefyd wedi gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig gan amrediad eang o randdeiliaid a grwpiau (gweler Atodiad 2), a thrwy holiadur ar-lein sydd wedi'i hysbysebu'n helaeth drwy rwydweithiau addysgol. Ceisiodd yr holiadur safbwyntiau ar y profiad yn 2020, a rhoddodd gyfle i ymatebwyr fynegi eu safbwyntiau ar gyfer 2021. Rydym wedi derbyn bron 4,000 o ymatebion i'r holiadur, a ddaeth i ben ar 18 Hydref (42% gan ddysgwyr, 33% gan rieni/gofalwyr, a 27% gan athrawon a phenaethiaid ysgolion a cholegau). Byddwn yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r ymatebion hyn yn ein hadroddiad terfynol ym mis Rhagfyr. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn gyson â'r dystiolaeth a gasglwyd gan y panel yn ystod ei gyfarfodydd wyneb yn wyneb.
- 1.12 O ganlyniad i lefel uchel o ymgysylltu adeiladol gan randdeiliaid yn ystod ein cyfarfodydd, a'r lefel uchel o ymgysylltu gan arweinwyr ac athrawon/darlithwyr ysgolion/colegau yn benodol, mae hyder gennym mewn gwneud yr argymhellion cynnar hyn a hyder mai rhoi'r argymhellion hyn ar waith fydd y ffordd orau ymlaen wrth gynorthwyo dysgwyr yng Nghymru â'u dilyniant i astudiaethau pellach neu gyflogaeth.
- 1.13 Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd â rhanddeiliaid gan roi pwyslais ar ddysgu gwersi o 2020 er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd i'r ffordd orau ymlaen ar gyfer 2021 a'r tu hwnt, a sicrhau y bydd dysgwyr yn gallu symud ymlaen yn hyderus i astudiaethau pellach neu gyflogaeth. Mae arbenigedd a phroffesiynoldeb pawb sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu a darparu dysgu ac asesu wedi creu argraff ar y panel.
- 1.14 Mae ymagweddau cadarnhaol dysgwyr tuag at ddysgu a'u cyfraniadau adeiladol yn ystod y cyfarfodydd hefyd wedi creu argraff ar y panel. Rhaid nodi ein cyfarfod ag aelodau o Senedd Ieuentid Cymru yn benodol. Roedd y cynrychiolwyr roeddem wedi cwrdd â nhw wedi cynnig mewnwelediad hynod werthfawr, a rhaid ystyried rôl y Senedd Ieuentid wrth roi mewnbynau a safbwyntiau ar ddatblygiadau'r dyfodol yn ofalus.
- 1.15 Dymunwn ddiolch i bawb am eu hymgysylltiad agored a'u sylwadau a werthfawrogi, ac am y ffordd ystyriol a pharchus y cafodd syniadau eu rhannu.
- 1.16 Er mwyn gallu cyflwyno argymhellion cynnar a brys, bydd yr adroddiad interim hwn yn canolbwyntio ar y ffordd ymlaen. Mae'n dysgu gwersi o'r profiadau yn 2020, ond mae hefyd yn ystyried amgylchiadau 2021 wrth wneud argymhellion gan edrych i'r dyfodol. Mae llawer o feysydd pwysig i fynd i'r afael â nhw o hyd o ran rhoi ein hargymhellion ar waith, gan gynnwys prosesau apelio ac ailsefyll a'r materion a brofwyd gan ymgeiswyr preifat, gan gynnwys y bobl hynny a addysgir gartref. Bydd y cam nesaf yng ngwaith y panel yn ystyried y profiadau yn y meysydd hyn yn 2020 yn fanylach a thynnu'r gwersi allan ar gyfer arferion 2021.
- 1.17 Disgwylir cyhoeddi adroddiad terfynol yr adolygiad annibynnol ym mis Rhagfyr 2020.

### Argymhelliad 1:

**Dylai penderfyniadau ar ddyfarnu graddau yng Nghymru yn 2021 roi blaenoriaeth i anghenion y dysgwyr sy'n cael eu hasesu, a sicrhau tegwch iddynt, drwy gydnabod yr amgylchiadau heriol y digwyddodd eu dysgu ynddynt drwy gydol 2020 a 2021.**

- 2.1 Drwy gydol gwaith y panel hyd yn hyn, yn ystod cyfarfodydd ac yn yr ymatebion i'r holiadur, rydym wedi bod yn clywed am yr effaith y cafodd y tarfiad a ddeilliodd o'r pandemig ar ddysgwyr a'r profiad ynghylch dyfarnu graddau yn 2020. Mae profiadau dysgwyr wedi bod yn wahanol, a chafodd amgylchiadau cartref a mynediad digidol ddylanwad arnynt ar ben yr heriau o addasu i ffyrdd newydd o ddysgu y tu hwnt i'r lleoliad ysgol neu goleg arferol. Er bod rhai dysgwyr wedi dweud wrthym sut y maent wedi addasu'n dda, mae rhan fwyaf y dysgwyr rydym wedi clywed ganddynt wedi dweud wrthym am yr effaith negyddol ar eu llesiant, a'r ansicrwydd a gofid sydd wedi bod yn nodweddiadol o'u bywydau a'u hastudiaethau ers mis Mawrth 2020. Er bod llawer o garfan cymwysterau 2020 wedi symud ymlaen i astudiaethau pellach neu gyflogaeth yn ystod hydref 2020 yn unol â'u gobeithion, ni fydd rhai wedi gallu gwneud hynny ac maent yn parhau i aros am asesiad terfynol neu byddant yn cael eu hailasesu yn 2021 neu'n ailymgeisio am ddewisiadau gwahanol.
- 2.2 Mae'r ansicrwydd ynghylch y dull o ddyfarnu graddau yn 2021 yn parhau i gael effaith ar lesiant dysgwyr. Roedd gofid ynghylch y modd y bydd angen iddynt arddangos eu sgiliau, eu dealltwriaeth, eu cynnydd dysgu a'u potensial yn faich drwm ar ysgwyddau llawer o'r dysgwyr a ymgysylltodd â'r panel.

*Hoffwn gael sicrwydd, ac rydym yn erfyn arnoch i wrando ar ein dull o'r hyn y dylid ei wneud gan mai ein bywydau ni mae hyn yn cael effaith arnynt.*

*Dryswch yn gyffredinol, gorbryder a straen ynghylch fy nyfodol gan nad yw'n amlwg fod unrhyw un yn gwybod beth sy'n digwydd!!*

*Mae mwy o bwysau am gyflwyno tystiolaeth mewn ysgolion, felly mae disgyblion (gan gynnwys fi) yn teimlo bod yn rhaid i bob darn o waith fod yn berffaith.*

*Ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol. Diffyg hyder yn y broses ddyfarnu. Gofidio am orfod sefyll arholiadau os ydw i wedi gorfod dysgu gartref am rannau o'r flwyddyn.*

(Ffynhonnell: ymatebion gan ddysgwyr i'r holiadur ar-lein)

- 2.3 Mae cymwysterau'n basbort sy'n agor mynediad i ddyfodol dysgwyr. Mae COVID-19 wedi cael effaith unigryw ar y carfanau o ddysgwyr sy'n wynebu asesiad am gymwysterau yn 2021 ac mae'n hanfodol darparu ar gyfer effaith eu hamgylchiadau penodol yn briodol yn y dulliau asesu ar gyfer 2021.

Rydym o'r farn bod yr ystyriaethau canlynol yn hanfodol ac mae'n rhaid iddynt danategu gwaith cynllunio'r methodolegau asesu ar gyfer 2021:

- Os y bwriad yw sicrhau bod y dull o ddyfarnu cymwysterau i garfan dysgwyr 2021 yn un teg o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae'n rhaid iddo adlewyrchu'r cyd-destun gwahanol y mae'n rhaid i ddysgu ddigwydd ynddo drwy gydol 2020 a 2021.
- Cafodd y digwyddiadau ynghylch asesu a chymwysterau effaith negyddol ar lesiant ac iechyd meddwl llawer o bobl ifanc yn 2020. Ni all hyn ddigwydd eto.
- Bydd yn rhaid i'r dull a fabwysiedir sicrhau bod gan bob dysgwr unigol gyfle i ennill y radd y mae'n ei haeddu a bod ei botensial i wneud cynnydd yn cael ei gydnabod yn briodol.

- Mae'n rhaid i'r dull a fabwysiedir ei gwneud yn bosibl beirniadu'n deg y dysgwyr hynny y cydnabyddir eu bod dan yr anfantais fwyaf yn y gymdeithas ochr yn ochr â'u cyfoedion.
- Mae'n rhaid bod gan ddysgwyr hyder yn y graddau a ddyfernir iddynt a'u bod yn deall sut y maent yn cael eu hasesu.
- Mae angen i ddysgwyr gael sicrwydd ynghylch hyn yn gyflym.

2.4 Nododd Llywodraeth Cymru bedair egwyddor i lywio gwaith datblygu'r systemau graddio ar gyfer 2020:

1. Galluogi dilyniant pob dysgwr i'r dyfodol a chydabod eu gwaith caled drwy ddyfarnu graddau
2. Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, yn enwedig o'u cymharu â'r dysgwyr hynny yn rhannau eraill y DU
3. Gweithredu dull cadarn a theg, sy'n deg i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
4. Cynnal hygredd y system gymwysterau a hyder ynddi.

Mae pob un o'r pedair egwyddor yn ddilys a phwysig, ac maent i gyd yn chwarae rhan wrth sicrhau tegwch i'r dysgwr, a rhai ohonynt mewn ffordd fwy uniongyrchol na'i gilydd. Mae ein trafodaethau â Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC hyd yn hyn wedi'n harwain at y casgliad, wrth benderfynu ar y set wreiddiol o ganlyniadau Safon Uwch ar gyfer 2020, mai'r egwyddor o *gynnal hygredd y system gymwysterau a hyder ynddi (egwyddor 4)* oedd bwysicaf, gan fod cymhwyso'r model safoni wedi ceisio creu sefyllfa lle gellid cymharu â blynyddoedd blaenorol ar lefel system. Roedd hyn wedi arwain at ddyfarnu graddau i rai dysgwyr nad oeddent *yn cydnabod eu gwaith caled (egwyddor 1)* ac nad oeddent yn ymddangos eu bod *yn deg ar gyfer ... dysgwyr ... presennol (egwyddor 3)*. Pan ddychwelodd gwledydd eraill y DU i ddefnyddio graddau asesu canolfannau, daeth yr egwyddor o *sicrhau nad yw dysgwyr (o Gymru) dan anfantais, yn enwedig o'u cymharu â'r dysgwyr hynny yn rhannau eraill y DU (egwyddor 2)* i fod yn bwysicaf oll o ran diffinio tegwch i'r dysgwr.

- 2.5 Gofynnodd ein cylch gorchwyl i ni ystyried, yn benodol, a gafodd llais y dysgwr ei gynrychioli'n briodol wrth benderfynu ar y dull ar gyfer 2020. Roedd ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar gyfer 2020 yn cynnwys fersiwn a oedd wedi'i thargedu at bobl ifanc yn benodol, ac roedd nifer fawr o ddysgwyr (2,079) wedi ymateb iddo. Dangosodd y lefel hon o ymatebion fod cryn dipyn o ddiddordeb, a bodlonrwydd i ymgysylltu ymhlith dysgwyr. Dim ond chwarter o'r dysgwyr a ymatebodd i'r holiadur diweddaraf a gyhoeddwyd gan y panel adolygu a ddywedodd eu bod yn teimlo bod y dull cynlluniedig wedi ystyried safbwyntiau dysgwyr a rhieni/gofalwyr.
- 2.6 Disgrifiodd cynrychiolwyr y Senedd leuenctid sut roeddent wedi ceisio cael gwybodaeth am y prosesau o wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol, a sut roeddent wedi ceisio helpu pobl ifanc eraill i wneud synnwyr o'r hyn a oedd yn digwydd. Gwnaethom ddysgu, er eu bod wedi cyfrannu at ymgynghoriad Cymwysterau Cymru fel unigolion, nad oeddent, fel corff, wedi bod yn rhan o unrhyw ymgynghoriadau ffurfiol neu anffurfiol ar y newidiadau roedd yn rhaid eu rhoi ar waith. Mae'r panel o'r farn fod colli'r cyfle hwn yn arwyddocaol.
- 2.7 Rhaid i wersi 2020 lywio Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer 2021, ac mae'r data o adolygiad Cymwysterau Cymru o'r graddau a ddyfarnwyd yn 2020 yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr. Mae mwy o amser ar gael i sicrhau y caiff yr asesiadau o'r effaith hyn eu defnyddio fel offerynnau cadarnhaol i wella polisi a gwella'r modd o'i weithredu er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr yn 2021. Rydym yn erfyn ar Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a'r cyrff dyfarnu i dderbyn unrhyw gynnis o gymorth gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o ran cynnal asesiad o'r effaith ar gyfer 2021. Gall ymgysylltu'n gynnar mewn asesiadau o'r fath helpu i sicrhau y caiff camau gweithredu eu rhoi ar waith

er mwyn lliniaru unrhyw risgiau o ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr mewn lleoliadau addysgol gwahanol yn peidio â chael eu trin yn deg.

- 2.8 Dylid blaenoriaethu anghenion dysgwyr, a sicrhau tegwch iddynt, ym mhob penderfyniad ar y dull o ddyfarnu graddau yn 2021, a bydd yn rhaid profi'r penderfyniad terfynol er mwyn sicrhau mai'r egwyddorion sy'n cefnogi tegwch yn y modd mwyaf uniongyrchol sydd flaenaf.

### **Argymhelliad 2:**

**Yn 2021, dylid dyfarnu cymwysterau ar sail gwaith asesu cadarn sydd wedi'i safoni a wneir gan leoliad addysgol y dysgwr ac nid drwy gyfres o arholiadau.**

- 3.1 Yn ystod ein cyfarfodydd ag ysgolion a cholegau, cawsom ein calonogi wrth glywed am y gwaith ardderchog sy'n mynd rhagddo drwy'r sector cyfan i sicrhau bod parhad yn y dysgu ar gyfer eu myfyrwyr yn ystod yr adeg hon. Mae addysgwyr wedi addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o addysgu i gefnogi'r dysgwr pan maent oddi ar safle'r ysgol neu goleg, drwy ddarparu deunydd pwnc ar-lein a dysgu cyfunol sy'n cymysgu gweithgareddau ar-lein gyda gweithgareddau'r dosbarth. Rydym hefyd wedi derbyn adborth o'r proffesiwn addysgu bod y profiadau ynghylch penderfyniadau graddio 2020 wedi hwyluso cychwyn trafodaeth go iawn ar natur gwaith asesu wrth symud ymlaen, ac, i lawer, mae hyn wedi hwyluso proses o fyfyrion ac ystyried sut i sicrhau bod ffocws cynyddol ar ddysgu ac ymgysylltu â deunydd pwnc, gan osgoi paratoi ar gyfer profion ac arholiadau mewn ffordd gul.
- 3.2 Fodd bynnag, rydym wedi clywed am y tarfiad ar waith dysgu ac addysgu, a'r amrywioldeb ynddo ar draws Cymru, ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020. Roedd y cyfyngiadau symud gwreiddiol wedi cael effaith ar ddysgwyr mewn ffyrdd gwahanol, gydag amser amrywiol yn cael ei dreulio'n astudio a chyda lefelau amrywiol o gymorth, fel a dystiwyd gan yr arolwg a wnaed gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD).<sup>1</sup> Heb os, mae'r hygyrchedd digidol ar gyfer dysgwyr wedi bod yn anghyson drwy gydol y cyfnod hwn. Ers i'r ysgolion a cholegau ddychwelyd ym mis Medi, mae'r ail don o achosion COVID-19 yn esgor ar anghysondeb parhaus gydag ysgolion yn cau'n lleol neu'n rhannol, a chyda chyfnodau o ynysu unigolion a dosbarthiadau, ac mae'r effeithiau i'w gweld mewn rhai ardaloedd o Gymru yn fwy na'i gilydd. Yn anffodus, gan ystyried pryderon iechyd y cyhoedd parhaus, mae'n rhaid i ni ddisgwyl a chynllunio ar gyfer tarfiad parhaus i ddysgu dros y gaeaf ac i mewn i 2021.
- 3.3 Mae'r panel wedi gwrandao ar alwadau gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, athrawon, ysgolion a cholegau am sicrwydd o ran sut y caiff y cymwysterau eu hasesu ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021. Rydym wedi clywed am ofid dysgwyr o ganlyniad i'r ansicrwydd parhaus ynghylch sut y cânt eu hasesu, ac am y pwysau ychwanegol y mae rhai dysgwyr yn eu teimlo bellach, gan gredu y gallai pob darn o waith cwrs gyfrif tuag at eu gradd derfynol. Nid yw athrawon, darlithwyr, ysgolion/colegau, a'r sefydliadau hynny sy'n eu cefnogi, yn gwybod pa fath o asesiad y maent wrthi'n cefnogi eu myfyrwyr i'w gyflawni. Ar yr un pryd, mae Cymwysterau Cymru, CBAC a chyrrff arholi cymwysterau galwedigaethol eraill yn gweithio'n galed i gynllunio a pharatoi ar gyfer gweithdrefnau asesu 'normal' a dulliau amgen rhag ofn na all arholiadau ddigwydd.

<sup>1</sup>The impact of COVID-19 on children's learning in Wales', cyhoeddwyd ar 6 Hydref 2020  
<https://wiserd.ac.uk/news/impact-covid-19-childrens-learning-wales> cyrchwyd 8 Hydref 2020

- 3.4 Mae angen eglurder ar gymwysterau galwedigaethol cymaint â chymwysterau academaidd. Mae cwmpas yr adolygiad hwn wedi'i gyfyngu i gymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru, ond rydym yn cydnabod tirwedd gymhleth y cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru o safbwynt y cymysgedd o gyrff arholi gwahanol a chymwysterau sy'n gyffredin â rhannau eraill o'r DU. Mae asesu gwybodaeth a rhai o'r sgiliau ymarferol ar gyfer y galwedigaethau hynny sy'n profi cyfyngiadau oherwydd COVID-19 yn enwedig o heriol, ac mae wedi golygu nad yw rhai dysgwyr wedi gallu gorffen eu cymwysterau yn 2020.
- 3.5 Mae'n glir bod angen gwneud penderfyniad ar ddyfarnu graddau yn 2021 ar frys. Mae angen penderfyniad nawr a fydd yn rhoi eglurder i bawb. Bydd y penderfyniad yn ei gwneud yn bosibl (i) i'r dysgwr ganolbwyntio ar ei ddysgu, a'i fwynhau, gan sicrhau y caiff cymaint o amser dysgu â phosibl hyd at fis Gorffennaf 2021, (ii) i'r addysgwyr proffesiynol ganolbwyntio ar ddefnyddio'u harbenigedd ar ddarparu deunyddiau dysgu, (iii) i'r addysgwyr a'r cyrff cymwysterau ddod ynghyd er mwyn datblygu a gweithredu'r system raddio decaf posibl, a (iv) i'r prifysgolion baratoi'n dda ar gyfer recriwtio myfyrwyr o Gymru. Bydd rhoi sicrwydd a rheolaeth ynghylch yr agwedd unigol hon nawr yn cefnogi llesiant dysgwyr a phob addysgwr proffesiynol yn ystod adeg ansicr.
- 3.6 Mae'r panel yn argymhell y dylid dyfarnu cymwysterau ar sail gwaith asesu cadarn sydd wedi'i safoni a wneir gan leoliad addysgol y dysgwr ac nid drwy gyfres o arholiadau. Mae angen i addasiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol barhau, ac mae angen dod o hyd i ddatrysiad ar gyfer yr asesiadau hynny na ellir eu cwblhau ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Caiff y dull amgen hwn ei ddatblygu ymhellach o dan Argymhelliad 3.
- 3.7 Cafodd cyfres arholiadau 2020 ei chanslo ym mis Mawrth 2020 gan ystyried yr argyfwng cynyddol yn iechyd y cyhoedd a'r ansicrwydd ynghylch a ellid gweinyddu arholiadau mewn modd diogel. Erbyn mis Mawrth 2020, roedd y dysgu ar gyfer y carfan a fyddai'n sefyll arholiadau yn ystod haf 2020 wedi'i gwblhau i bob pwrpas, ac roedd mwyafrif y cwricwlwm wedi'i gyflawni neu roedd wedi'i gyflawni yn ei gyfanrwydd. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion a cholegau ar fin dechrau cyfnod o baratoi ac adolygu ar gyfer yr arholiadau gyda dysgwyr. Mae'r sefyllfa'n wahanol iawn ar gyfer y garfan o ddysgwyr a fydd yn wynebu cymwysterau yn 2021. Mae COVID-19 wedi tarfu ar ddysgu'r dysgwyr hyn ers mis Mawrth 2020. Er gwaethaf pob ymdrech gan eu hysgolion a'u colegau, bydd llawer wedi colli cyfleoedd dysgu a bydd eu profiadau o geisio cyflawni'r cwricwlwm ac adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth yn ystod yr adeg hon wedi'u llywio gan ansicrwydd a phryder, a bydd yr anghysondeb mewn hygyrchedd digidol wedi cael effaith arnynt.
- 3.8 Yn ystod ein cyfarfodydd â rhanddeiliaid, gwnaethom holi sawl tro a oedd cyfranogwyr o'r farn y gellid cynnal cyfres arholiadau o unrhyw fath ar gyfer haf 2021 a allai sicrhau tegwch i ddysgwyr o bob cefndir. Lleiafrif bach iawn yn unig a oedd o'r farn y byddai cyfres arholiadau deg yn bosibl. 'Na' oedd yr ateb y clywsom drosodd a thro. Cytuna'r panel ac nid yw o'r farn y gellid cynnal cyfres arholiadau yn 2021, hyd yn oed ar raddfa lai, a fyddai'n deg i ddysgwyr ledled Cymru gan ystyried anghysondeb eu dysgu yn ystod y flwyddyn. Rydym yn cytuno â'r datganiad a gyflwynwyd i ni gan un o'r arbenigwyr a gyfrannodd y byddai cyfres arholiadau ar unrhyw ffurf *'yn dwyn mantais i'r bobl fwyaf breintiedig ac yn rhoi'r bobl fwyaf difreintiedig dan anfantais'*.
- 3.9 Mae'r cymwysterau hyn yn rhy bwysig i fywydau dysgwyr yn y dyfodol i ganiatáu i anghyfartalwch hysbys cyfres arholiadau barhau yn 2021, a rhaid datblygu llwybr amgen ar gyfer dyfarnu graddau teg a chadarn sy'n canolbwyntio ar y ganolfan ac sy'n cydnabod cynnydd a photensial dysgwyr.

### **Argymhelliad 3:**

**Dylid datblygu dulliau asesu gan ganolfannau sy'n gadarn fel y dyfernir graddau teg i ddysgwyr wrth sicrhau uniondeb cymwysterau.**

- 4.1 I ddechrau, seiliwyd y broses o ddyfarnu graddau Safon Uwch, UG a TGAU yn 2020 ar drefnau safle a graddau asesu canolfannau a gafodd eu safoni drwy brosesau ystadegol er mwyn cadw dosbarthiad normal y graddau mewn perthynas â blynyddoedd diweddar. Yn ystod y cyfarfodydd â'r panel, esboniodd aelodau o staff ysgolion a cholegau ar bob lefel sut y gwnaethant ymgymryd â'u gwaith cymedroli mewnol eu hunain rhwng graddau athrawon unigol, a sut y gwnaethant sicrhau bod ganddynt y sylfaen dystiolaeth ar gyfer eu penderfyniadau. Ni chafodd unrhyw waith cymedroli allanol ei wneud rhwng graddau asesu canolfannau o ganolfannau gwahanol er mwyn sicrhau bod y ffiniau graddau'n gyson ar draws canolfannau. Roedd ysgolion a cholegau wedi disgwyl cael eu herio ynglŷn â'u graddau asesu canolfannau ac roeddent yn barod i gynnal deialog â CBAC er mwyn cyfiawnhau eu graddau; ni ddigwyddodd y ddeialog hon.
- 4.2 Mae Cymwysterau Cymru a CBAC wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt o 2020 gyda'r panel, ac maent wedi esbonio nad oeddent wedi teimlo bod digon o amser na gallu gan yr ysgolion a cholegau yn 2020 i ymgymryd â datblygu gwaith cymedroli allanol (datblygu'r system gymedroli, hyfforddi'r cymedrolwyr ac ati). Fodd bynnag, maent wedi nodi gwaith cymedroli allanol fel nodwedd sydd angen ei harchwilio ar gyfer 2021 pe byddai'n ofynnol cael dulliau asesu gan ganolfannau amgen yn lle arholiadau.
- 4.3 Roedd y broses a ddatblygwyd ar gyfer 2020 yn gofyn i ganolfannau gynhyrchu graddau darogan ar gyfer pob dysgwr ymhob cymhwyster ac wedyn trefnu safle pob dysgwr ymhob gradd fesul cymhwyster. Roedd y data hyn gan ganolfannau yn destun proses adolygu o fewn pob canolfan cyn cael eu cadarnhau ar lefel uwch, fel arfer gan bennaeth yr ysgol neu goleg.
- 4.4 Datblygodd CBAC fodelau i ddarogan graddau gan ddefnyddio'r data gan ganolfannau fesul cymhwyster. Defnyddiodd y modelau hyn hefyd ddata hanesyddol lle roedd ar gael a lle roedd yn briodol gwneud hynny. Roedd data hanesyddol yn cynnwys data perfformiad blaenorol ar gyfer y dysgwyr a data perfformiad blaenorol ar gyfer y canolfannau. Roedd yn rhaid i'r modelau ymdrin ag achosion lle nad oedd data hanesyddol ar gael, ac achosion lle roedd nifer y dysgwyr ar gyfer canolfan mor fach nes bod y prosesau ystadegol yn annibynadwy. Cafodd y modelau eu hadolygu gan Cymwysterau Cymru drwy broses ailadroddol a heriodd y modelau a'u canlyniadau cyn iddynt gael eu cadarnhau.
- 4.5 Mae beirniadu'r modelau eu hunain y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn nodi bod gwaith datblygu'r modelau'n wynebu'r heriau deul o gyfyngiadau difrifol yn y mathau o ddata a oedd ar gael i'w mewnbynnu a lefelau uchel o gymhlethdod ac amrywioldeb yn y maes yr oedd y data'n ei gynrychioli.
- 4.6 Roedd llawer o gydnabyddiaeth bod y system asesu gan ganolfannau a ddefnyddiwyd yn 2020 yn ymateb cyflym i sefyllfa anodd a brys. Mae dadansoddiad o'r gwahaniaethau rhwng proffil y graddau asesu canolfannau ar gyfer 2020 a chanlyniadau graddau'r blynyddoedd a fu yn dangos rhai achosion lle ceir cynnydd sylweddol yng nghyfrannau'r graddau a ddyfarnwyd yn hanner uchaf y dosbarthiad graddau ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch.
- 4.7 Nid yw'n syndod, i raddau, bod symudiad o'r fath. Ceir achosion bob amser, mewn blynyddoedd blaenorol, lle nad yw cyfran o ymgeiswyr wedi bod yn bresennol i sefyll yr arholiadau; ceir achosion lle

nad yw perfformiad yr ymgeisydd ar ddiwrnod penodol yn adlewyrchu ei allu, yn rhannol neu'n llwyr; a cheir achosion lle mae digwyddiadau andwyol ym mywyd personol ymgeisydd yn cael effaith ar ei berfformiad, naill ai ar ddiwrnod penodol, neu drwy gydol y cyfnod arholiadau. Ni allai, ac ni ddylai, graddau asesu canolfannau fod wedi adlewyrchu unrhyw un o'r amgylchiadau hynny. Dylid nodi hefyd nad yw unrhyw gymhariaeth rhwng canlyniadau graddau asesu canolfannau â dosbarthiadau graddau blynyddoedd blaenorol yn gymhariaeth tebyg â'i debyg. Byddai canlyniadau blynyddoedd blaenorol eisoes wedi bod yn destun gwaith cymedroli sylweddol ynghyd â'r broses safoni er mwyn bodloni proffil disgwylidig. Felly roedd unrhyw gynhyrriad neu newid mewn canlyniadau o un flwyddyn i'r nesaf, cyn 2020, eisoes wedi'i lyfnu drwy waith cymedroli a safoni.

- 4.8 Yn ystod y cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r panel, a thrwy'r ymatebion i'r holiadur ar-lein, mae'r panel wedi clywed awgrymiadau ar gyfer gwella pa mor gadarn yw dulliau asesu gan ganolfannau pe byddai eu hangen yn 2021. Ceir cefnogaeth a chydabyddiaeth o'r ffaith y byddai unrhyw system asesu gan ganolfannau a gynlluniwyd yn dda yn cynnwys llawer mwy o waith cymedroli nag a oedd yn bosibl yn 2020. Byddai hyfforddiant, gwaith datblygu, prosesau cyffredin a gwaith cymedroli ar sail samplu allanol i gyd yn arwain at gynyddu'r hyder mewn asesiadau gan ganolfannau ac yn cael gwared ar wyriadau mwy eithafol yn gynharach yn y broses ddyfarnu. Fel a ddywedodd un o gynrychiolwyr Senedd Ieuenctid Cymru, *'mae angen i chi safoni'r prosesau yn hytrach na safoni'r cynnyrch'*.
- 4.9 Roedd arweinwyr yr ysgolion a'r colegau a oedd wedi cwrdd â'r panel wedi pwysleisio'u bodlonrwydd, eu hawydd a'u gallu i ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu proses asesu deg ar gyfer 2021. Rhaid i'r broses o feithrin hyder o'r newydd yn y system gymwysterau ar gyfer 2021 adeiladu ar gyfranogiad gweithredol y sector addysg gyfan.
- 4.10 Mae dysgwyr hefyd am fod yn bartneriaid gweithredol yn y broses asesu. Maent am ddeall yr hyn y maent wedi'i gyflawni a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella, ac maent o'r farn mai eu hathrawon a darlithwyr sydd yn y sefyllfa orau i archwilio hyn gyda nhw. Mae hyn yn sylfaenol i addysgeg dda ac yn cyd-fynd ag ysbryd y cwricwlwm newydd i Gymru a'r daith o ddiwygio addysg.
- 4.11 Fodd bynnag, ceir pryderon y mae angen mynd i'r afael â nhw ynghylch y posibilrwydd o ragfarn mewn asesiadau gan ganolfannau. Roedd y panel yn ddiolchgar am y cyfraniadau ystyrion a gafwyd gan bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a gasglwyd ynghyd drwy Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST), a amlygodd y posibilrwydd o ragfarn ddarwybod mewn asesiadau gan ganolfannau. Gwnaethant hefyd amlygu'r effaith anghymesur y cydnabyddir y mae COVID-19 wedi'i chael ar gymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Clywodd aelodau'r panel gan gyfranwyr o gefndir ffoaduriaid, a'r bobl hynny o deuluoedd lle siaredir Saesneg fel ail iaith yn y cartref, a ddywedodd wrthynt eu bod yn aml yn teimlo'n 'anhysbys' neu nad oeddent wedi'u cydnabod mewn ysgolion neu golegau, yn enwedig lle roedd ganddynt hanes addysgol byr. Yn ogystal, rhaid sicrhau bod cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd, a chydabyddiaeth ohonynt, yn rhan o asesiadau gan ganolfannau. Dysgodd y panel am waith ardderchog ar draws colegau addysg bellach (lle mae asesu gan ddarlithwyr yn gyffredin ar gyfer cyrsiau galwedigaethol) o ran adnabod rhagfarn anfwriadol fel risg a threfnu hyfforddiant a mesurau eraill er mwyn ei lleihau. Rhaid sicrhau bod mesurau lliniaru o'r fath yn rhan allweddol o'r dull asesu ar gyfer 2021.
- 4.12 Mae'r panel yn argymhell bod dulliau asesu gan ganolfannau'n cael eu datblygu fel y dyfernir graddau teg i ddysgwyr wrth sicrhau uniondeb cymwysterau. Mae angen i'r dulliau hyn fod yn gadarn a bydd angen iddynt gynnwys y canlynol:
- diffiniad gan y cyrff dyfarnu o'r dysgu i'w asesu ymhob maes pwnc;

- gwaith cymedroli mewnol o fewn canolfannau wedi'i gefnogi gan hyfforddiant a datblygiad ar gyfer athrawon/darlithwyr ar gymedroli asesiadau a mynd i'r afael â rhagfarn anfwriadol;
- dilysu prosesau cymedroli mewnol canolfannau drwy asiantaeth allanol uchel ei pharch;
- gwaith cymedroli gan y corff dyfarnu ar draws aseswyr ac ysgolion/colegau.

Mae diffinio'r dysgu i'w asesu'n bwysig, nid yn unig ar gyfer dibenion y cyrff dyfarnu, ond hefyd ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl dysgwyr. Drwy beidio â chael arweiniad clir, mae'r panel yn ymwybodol o'r risg y gallai dysgwyr brofi gormod o asesiadau, gan eu rhoi dan bwysau anghymesur a thynnu oddi wrth eu dysgu.

- 4.13 Ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, bydd cyfran sylweddol o'r deunydd eisoes wedi'i chwmpasu gan ddulliau asesu gan ganolfannau. Rydym o'r farn y bydd y dull amgen a amlinellir uchod hefyd yn gymwys i elfennau'r cymwysterau galwedigaethol sy'n destun arholiad.
- 4.14 Rydym o'r farn, gyda dull o'r fath yn ei le, bod cyfle gwirioneddol i ryddhau'r amser y treulir ar adolygu ar gyfer arholiadau a chanolbwyntio ymdrechion ysgolion a cholegau ar amser dysgu ychwanegol hyd at ddiwedd tymor haf 2021. Byddai'r budd dysgu hwn yn gwneud iawn am yr amser a gollwyd o ganlyniad i COVID-19, ac yn cefnogi dysgwyr wrth feithrin eu hyder i symud ymlaen i gamau nesaf eu bywydau.
- 4.15 Mae Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru wedi cydnabod effaith colli amser dysgu a mesurau cadw pellter cymdeithasol mewn ysgolion a cholegau. Cyhoeddwyd addasiadau i gymwysterau i'w hasesu yn 2021 yn ystod haf 2020 a chyhoeddodd Cymwysterau Cymru ddogfen reoliadol sy'n amlinellu'r gofynion ar gyfer addasu asesiadau ym mis Awst 2020. Mae angen bellach adolygu a datblygu'r addasiadau hyn i adlewyrchu'r newidiadau mewn amgylchiadau a'r penderfyniadau ar ddulliau o asesu sy'n mynd rhagddynt. Mae angen i'r gwaith adolygu hwn, gan Cymwysterau Cymru a phob corff dyfarnu, arwain at ddiweddarau'r deunydd hanfodol ar gyfer pob pwnc a chymhwyster (academaidd a galwedigaethol) a'i fod wedi'i gysylltu â'r cyfleoedd asesu allweddol diwygiedig.
- 4.16 Nid rôl y panel yw datblygu'r dull terfynol a'i fanylion. Rydym wedi nodi'r nodweddion allweddol a ddylai fod yn bresennol ac rydym yn ddiolchgar i CBAC a Cymwysterau Cymru am nifer o drafodaethau cychwynnol ac am ein herio ynghylch a ellir darparu dull o'r fath o fewn yr amser sydd ar gael. Rydym yn cyflwyno'r cynigion hyn gan gredu'n gadarn bod gallu a bodlonrwydd ar draws y sector addysg yng Nghymru i ddarparu dull asesu gan ganolfannau sy'n deg a chadarn ar gyfer 2021.
- 4.17 Rydym yn argymhell yn gryf bod y cyrff hynny sy'n meddu ar ddealltwriaeth fanwl o asesu ac arbenigedd ynddo (sef Cymwysterau Cymru, y cyrff dyfarnu a'r ymarferwyr addysgol) yn dod ynghyd er mwyn cynllunio dull cytunedig, a'i fanylion, ar y cyd er mwyn sicrhau y gellir ei roi ar waith mewn modd teg a chyda hygrededd. Caiff y broses o dderbyn y system, a meithrin hyder ac ymddiriedaeth ynddi, ei hwyluso'n fawr gan gyfranogiad staff ysgolion a cholegau yn ystod y camau cynllunio a datblygu.
- 4.18 Rydym yn cydnabod bod risgiau ynghlwm wrth yr argymhellion hyn ond mae ein hymchwil a'n canfyddiadau'n ein harwain i gredu y gellir rheoli risgiau o'r fath yn llwyddiannus.
- Risg 1: Tegwch  
*Ceir pryder y bydd rhai grwpiau o fyfyrwyr, yr enghraifft pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a'r bobl hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn derbyn triniaeth lai ffafriol drwy asesiadau gan ganolfannau oherwydd rhagfarn anfwriadol gan athrawon.*  
 Mae'r panel wedi gweld ymroddiad llwyr gan yr addysgwyr i wneud eu gorau glas ar gyfer pob un o'u myfyrwyr. Rydym hefyd wedi gweld arfer da a phrofiad o safbwynt cael gwared ar ragfarn anfwriadol oddi ar asesiadau, ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn benodol. Rydym yn hyderus y gellir



rhannu arfer da a bod gallu yn y system i ddarparu'r canlyniadau gorau ar gyfer pob unigolyn ifanc. Rydym o'r farn y gellir goresgyn y risg hon drwy sicrhau bod hyfforddiant a datblygiad effeithiol yn eu lle ar gyfer athrawon a darlithwyr.

- Risg 2: Cymaroldeb

*Ceir pryder, os na fydd graddau'n seiliedig ar arholiadau, efallai na fydd prifysgolion a chyflogwyr yn cydnabod cymwysterau myfyrwyr o Gymru, ac efallai na fydd ganddynt hyder ynddynt.*

Mae prifysgolion a chyflogwyr yn ymdrin ag amrediad eang o gymwysterau yn rheolaidd sy'n seiliedig ar dulliau asesu amgen cadarn. Roedd cynrychiolwyr prifysgolion Cymru a Lloegr roeddem wedi cwrdd â nhw wedi pwysleisio eu bod yn agored ynghylch y mater hwn a'u bod yn ei ddeall, ac rydym o'r farn y bydd cyfathrebu'n allweddol wrth sicrhau derbyniad eang, ynghyd â hyder bod dull amgen yn gadarn.

- Risg 3: Gallu

*Ceir pryder nad oes gan athrawon/darlithwyr y gallu ar hyn o bryd i ymgymryd â phroses asesu gan ganolfannau ddatblygedig, na'i datblygu.*

Mae'r pryder hwn yn deillio o'r awydd i leihau'r baich ychwanegol ar y proffesiwn addysgu cymaint â phosibl, gan gydnabod y galwadau arno i gadw ysgolion/collegau ar agor a'r awydd i ganolbwyntio ar addysgu. Fodd bynnag, mae'r adborth rydym wedi'i gael gan y proffesiwn yn nodi ei fod yn barod ac yn fodlon ymgymryd â'r gwaith asesu hwn. Mae'n cydnabod yr angen i sicrhau datblygiad proffesiynol, ac mae'n barod i ddefnyddio arbenigedd llawer o bobl yn y sector ysgolion a cholegau, a dysgu ohono, o safbwynt eu profiad o asesiadau nad ydynt yn seiliedig ar arholiadau, ynghyd â'r aelodau o staff hynny sydd hefyd yn arholwyr.

- Risg 4: Amser a'r gallu i gyflawni

*Ceir pryder pellach mai bach iawn o amser sydd ar gael er gyfer cynllunio, llunio a gweithredu proses asesu ddatblygedig gan ganolfannau.*

Drwy gael penderfyniad cynnar, mae mwy o amser ar gael i ddatblygu proses asesu gan ganolfannau sydd wedi'i chymedroli ar gyfer 2021 nag oedd ar gael ar gyfer 2020. Gellir hefyd dysgu o brofiad 2020. Ond bydd amser yn parhau i fod yn adnodd na allwn fforddio'i wastraffu. Bydd angen i'r gwaith ddechrau ar unwaith ar ôl gwneud penderfyniad, a bydd angen ei drefnu, ei strwythuro a'i gyflawni mewn ffordd wahanol iawn i'r hyn a wneir yn ystod adeg arferol. Bydd y dull rydym yn ei argymhell, sy'n defnyddio cryfder a gallu'r holl bartion a throsolwg annibynnol clir, yn hanfodol wrth ddefnyddio amser ac arbenigedd yn y modd mwyaf effeithlon.

#### **Argymhelliad 4**

**Dylid datblygu'r dulliau asesu hyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, a dylid cyfleu'r penderfyniadau allweddol yn glir i bawb sydd ynghlwm.**

- 5.1 Wrth ddatblygu a gweithredu rhaglen asesu sydd wedi newid, mae'n rhaid cael cyfathrebu dwyffordd effeithiol (i) sy'n sicrhau y clywir lleisiau dysgwyr ac addysgwyr proffesiynol wrth ddylunio'r dull; a (ii) sy'n sicrhau y darperir gwybodaeth glir, gryno ac amserol mewn fformatau sy'n briodol i'w cynulleidfa, gan ystyried mai'r dysgwr yw'r gynulleidfa allweddol.

*Cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o ddatblygu'r dull ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021*

- 5.2 Bydd y ffordd y caiff y dulliau asesu cadarn eu datblygu'n hanfodol bwysig i'w llwyddiant. Rydym yn gadarn o'r farn mai trwy ddod ynghyd i ddatblygu'r dull ar gyfer 2021, a bod yn berchen drosti ar y

cyd, y bydd addysgwyr a'r cyrff cymwysterau yn gwasanaethu dysgwyr orau, fel y gellir ei weithredu'n deg a chyda hygredd.

- 5.3 Cafodd hyder yn y systemau cymwysterau ei danseilio gan ddigwyddiadau 2020, a bydd yn rhaid ei feithrin o'r newydd. Yn 2020, ceisiwyd cyfranogiad gan ysgolion, colegau a dysgwyr drwy ymarferion ymgynghori, ond clywsom neges lethol gan athrawon ac arweinwyr ysgolion a cholegau nad oeddent yn teimlo bod y dull a ddilynwyd wedi mynd i'r afael â'u pryderon. Roeddent yn teimlo y cafodd y penderfyniad o ddilyn y dull ar gyfer dyfarnu graddau ei wneud drostynt yn hytrach na gyda nhw. Rydym o'r farn y bydd dull cydgynhyrchu ar gyfer 2021 yn gwella derbynioldeb y system, a hyder ac ymddiriedaeth ynddi. Mae angen i randdeiliaid o amrediad eang o leoliadau ac o amrywiaeth o gefndiroedd fod ynghlwm wrth y camau cynllunio a datblygu. Mae hyn yn ymwneud â mwy nag ymgynghori yn unig. Mae'n ymwneud â dealltwriaeth a rennir o'r hyn a fydd yn gweithio a'r hyn a fydd yn adlewyrchu ymdrechion a photensial carfan 2021 mewn ffordd deg.
- 5.4 Rydym wedi gweld arbenigedd a chyfoeth o brofiad ymhlith aelodau o staff ysgolion a cholegau, ac ymhlith staff y cyrff hynny sy'n cefnogi ysgolion. Gall y cyrff cymwysterau fanteisio ar ddefnyddio'r arbenigedd hwnnw er mwyn sicrhau y gellir cyflawni diben y polisi ar lawr gwlad. Ceir pryder gwirioneddol gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC na ddylid ychwanegu'n ddiangen at lwyth gwaith y bobl hynny mewn ysgolion a cholegau, ond rydym wedi clywed awydd clir a chryf gan arweinwyr ysgolion a cholegau i fod ynghlwm mewn ffordd ystyrlon a'u bod yn fodlon buddsoddi amser. Mae'r pandemig wedi'n dysgu sut i wneud trefniadau cydweithredol effeithiol ac effeithlon ledled Cymru gan ddefnyddio offerynnau ar-lein, ac mae wedi cael gwared ar rwystrau daearyddol o safbwynt cyfrannu at weithdai ac wrth gynnal deialog. Ceir cyfle go iawn i geisio ymgysylltiad ehangach nag a fu modd ei gael yn y gorffennol o bosib. Awgrymodd adborth gan y bobl hynny y cyfarfu'r panel â nhw y gwerthfawrogwyd Grŵp Rhanddeiliaid Penaethiaid CBAC fel modd o ymgysylltu â set ehangach o gynrychiolwyr, ond ystyriwyd bod grwpiau rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn fwy pell o safbwynt y bobl a gafodd eu cynrychioli arnynt.
- 5.5 Dylid hefyd harneisio bodlonrwydd dysgwyr i ymgysylltu er mwyn sicrhau bod y system ar gyfer dyfarnu graddau'n ystyried eu hanghenion a'u pryderon. Rydym o'r farn bod rôl ar gyfer Senedd leuenctid Cymru wrth ymgynghori â hi a gwrando arni wrth ddatblygu dulliau. Byddai cynnwys y dysgwr yn y gwaith o ddatblygu'r dulliau asesu'n alinio'n agos ag ysbryd y cwricwlwm newydd i Gymru a'r daith o ddiwygio addysg. Mae gan ddysgwyr ran deg i'w chwarae wrth brofi a chyfrannu at waith cynllunio systemau.

*Sicrhau y caiff y dull ei gyfleu i bob rhanddeiliad mewn ffordd glir*

- 5.6 Bydd yn hanfodol bwysig sicrhau bod y dull, a'r rhesymau y gellir ymddiried ynddo i ddarparu canlyniadau cadarn a chredadwy, yn cael ei gyfleu mewn ffordd glir. Bydd angen cael cynllun cyfathrebu cydlynol sy'n cwmpasu'r holl randdeiliaid ac sy'n hwyluso cyfleu gwybodaeth cyn gynted ag sy'n bosibl, ac sy'n ei gwneud yn bosibl datblygu a phrofi ymgysylltiad pob parti â hi, a'u dealltwriaeth ohoni. Rhaid i gynllun o'r fath gwmpasu'r canlynol:
- *Dysgwyr*: meithrin dealltwriaeth o sut y maent yn cael eu hasesu, a meithrin hyder yn y graddau a ddyfernir iddynt.
  - *Ysgolion a cholegau*: sicrhau eglurder o safbwynt disgwyliadau, rhoi arweiniad clir ar ddulliau, a sicrhau dealltwriaeth o'r dull cyffredinol a hyder ynddo. Mae hyn yn hanfodol wrth sicrhau y bydd ysgolion a cholegau'n gallu (i) cefnogi dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, a (ii) ymgymryd yn hyderus â'u rolau eu hunain ym mhrosesau cymwysterau academaidd a galwedigaethol.

- *Colegau, prifysgolion a chyflogwyr:* meithrin dealltwriaeth a hyder ym mha mor gadarn yw'r dyfarniadau, a hygredded ynddynt, fel bod dysgwyr o Gymru'n symud ymlaen i astudiaethau pellach neu gyflogaeth mewn modd cyfartal â'u cymheiriaid ledled y DU.

- 5.7 Gall cymwysterau ac asesiadau fod yn feysydd cymhleth. Gall yr iaith a'r diffiniadau a ddefnyddir fod yn anodd eu deall i bobl nad ydynt yn perthyn i gyrff arbenigol nac yn addysgwyr proffesiynol. Bydd diffiniadau a rennir a therminoleg syml yn gymorth wrth gyfathrebu ac yn helpu i sicrhau bod pawb yn deall. Bydd egluro pwy sy'n gwneud beth yn y broses asesu'n helpu yn yr un modd ag y bydd defnyddio diffiniadau cyffredin o dermau a ddefnyddir yn rheolaidd, fel 'dilysu' a 'cymedrolï', 'marciau' a 'graddau'.
- 5.8 Mae Comisiynydd Plant Cymru'n cynnig gwasanaethau ei swyddfa er mwyn cefnogi'r gwaith o gyfathrebu â'r dysgwyr. Mae profiad 2020 wedi cael effaith negyddol ar lesiant llawer o ddysgwyr ac mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth yn 2021 ar sicrhau bod gan ddysgwyr hyder yng ngraddau eu cymwysterau a'u bod yn berchen drostynt.

## Argymhelliad 5

**Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Cyflenwi a gadeirir yn annibynnol i oruchwylio a llywio'r dull diwygiedig ar gyfer cymhwyso yn 2021.**

- 6.1 Drwy gydol gwaith panel yr adolygiad annibynnol, nid ydym wedi gweld dim ond ymroddiad a phroffesiynoldeb gan y bobl hynny sydd wedi gweithio mewn amgylchiadau anodd a heriol iawn i sicrhau y gallai dysgwyr symud ymlaen gyda'r graddau a ddyfarnwyd yn 2020.
- 6.2 Os y nod yw cynyddu hyder dysgwyr yn y dyfarniadau, bydd y gwaith o greu a darparu cymwysterau cadarn a chredadwy yn gofyn am nodi ffiniau clir rhwng rolau a chyfrifoldebau'r rheoleiddiwr, cyrff arholi ac addysgwyr. Er efallai na fydd pobl nad ydynt yn addysgwyr proffesiynol yng Nghymru yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r ffiniau hyn, ceir dealltwriaeth dda ohonynt ymhlith y cyrff allweddol sy'n gweithio yn y maes hwn, ac maent yn cydymffurfio â hwy yn ofalus. Mae trefniadau llywodraethu a chyfathrebu yn eu lle, y cydymffurfir â hwy yn ofalus mewn amgylchiadau arferol, rhwng y llywodraeth, y rheoleiddiwr a'r corff dyfarnu. Dibynnwyd ar yr union drefniadau hyn drwy gydol haf 2020, er bod hynny wedi gofyn am lawer mwy o gyfathrebu a chydweithio. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i hystyried wedi'n harwain i gwestiynu a oedd hynny'n ddoeth, ac, wrth ystyried yr amgylchiadau eithriadol, a'r newidiadau ar y fath raddau yr oedd angen eu gwneud i asesiadau yn 2020, a fyddai dull gwahanol wedi helpu i osgoi risg o fethiannau yn y system, a sicrhau bod asesiad risg wedi'i gynnal o bob agwedd ar newid a bod yr agweddau hyn wedi'u cydlynu a'u cyfleu'n briodol.
- 6.3 Mae ein gwaith ymchwil hyd yn hyn wedi methu â nodi, o blith y bobl hynny a oedd yn gweithio ar y newidiadau, lle cynhaliwyd y trosolwg trosfwaol a chydlynol o ddarlun cyfan y newidiadau a oedd yn mynd rhagddynt yn ystod haf 2020 o safbwynt asesu yng Nghymru. Nid oedd lle penodol ble cafodd yr holl feysydd gwaith yr oedd angen eu cwblhau eu goruchwylio a ble cafodd y rhyngddibyniaethau eu hadolygu. Rydym yn cydnabod yr oedd yr adeg hon yn anodd a bod pobl yn gweithio'n ddiwyd iawn o dan amodau heriol a phwysau uchel. Wedi dweud hynny, byddai dull rhaglen gyfan wedi dod â'r meysydd gwaith amrywiol ynghyd, a byddai un grŵp goruchwylio yn canolbwyntio ar y newidiadau angenrheidiol drwy gydol y sector, a'u gweithredu, wedi sicrhau bod risgiau wedi'u hystyried yn briodol a'u bod wedi'u lliniaru ar draws pob elfen. Gallai dull o'r fath fod wedi sicrhau bod buddion pawb yn y system, o'r llywodraeth i'r dysgwr, wedi'u hadlewyrchu'n briodol, a bod cynlluniau cyfathrebu cydlynol â ffocws yn eu lle er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth o natur y newidiadau a'r angen amdanynt.
- 6.4 Rydym yn ymwybodol o waith Llywodraeth Cymru o ran cynnal trosolwg o effaith COVID-19 ar draws y sector addysg, ond roedd y gwaith hwn, a'r gofrestr risgiau gysylltiedig ag ef, ar lefel rhy uchel i fod wedi gallu darparu'r fath ffocws a oedd ei angen ar y gwaith o newid asesiadau, a'u gweithredu, yn benodol.
- 6.5 Mae dysgu'r gwersi o 2020 yn bwysig. Mae angen dull gwahanol ar gyfer 2021 sy'n rhoi pwyslais ar waith cydlynu, cydweithio a chyflenwi, gan osod buddion dysgwyr wrth wraidd popeth, a sicrhau yr eir i'r afael â materion datblygu'r system mewn modd cydlynol dan arweinyddiaeth glir sy'n meithrin hyder a sicrwydd.
- 6.6 Mae'r panel felly'n **argymhell** i'r Gweinidog bod Bwrdd Cyflenwi trosfwaol yn cael ei sefydlu ar unwaith gyda chymorth rheoli rhaglenni a chyfathrebu proffesiynol gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r bwrdd yn goruchwylio'r gwaith cydlynu a wneir rhwng cyrff cyfrifol, a fyddai eu hunain yn gweithio o fewn y

cylchoedd gwaith a bennwyd iddynt gan y Gweinidog Addysg. Byddai'n gweithredu mewn modd gorchwyl a gorffen i hybu'r newidiadau angenrheidiol.

- 6.7 Rydym o'r farn bod strwythur arweinyddol cydlynol o'r fath yn hanfodol bwysig i ddarparu unrhyw ddull cytunedig o ddyfarnu graddau ar gyfer 2021 yn llwyddiannus, a dylai ei waith gwmpasu cymwysterau TGAU, Safon Uwch ac UG, y Dystysgrif Her Sgiliau, a chymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru.
- 6.8 Byddai'r Bwrdd Cyflenwi'n gyfrifol am roi sicrwydd am y canlynol i'r Gweinidog:
- y defnyddir arbenigedd pawb yn y sector addysg yng Nghymru wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer dyfarnu cymwysterau yng Nghymru yn 2021;
  - bod y penderfyniadau ar y ffyrdd ymlaen wedi ystyried buddion pawb yr effeithir arnynt;
  - bod cynllun cyfathrebu cynhwysfawr ac agored yn ei le er mwyn sicrhau bod pawb sydd angen deall y newidiadau a gyflwynir yn gwneud hynny, a'u bod yn gallu ceisio sicrwydd a gwybodaeth bellach lle bo hynny'n briodol;
  - bod holl elfennau'r newidiadau angenrheidiol yn cael eu cydlynu a'u cyflenwi yn unol â'r amserlen;
  - bod y risgiau i gyflenwi'r gwaith yn llwyddiannus yn destun adolygu parhaus, a bod camau lliniarol yn cael eu nodi a'u gweithredu;
  - bod gwersi o 2020 a 2021 yn cael eu trosglwyddo i'r blynyddoedd i ddod ac i waith datblygu cymwysterau yng Nghymru.
- 6.9 Yn ogystal, mae'r panel yn argymhell bod gan y Bwrdd Cyflenwi gadeirydd annibynnol er mwyn galluogi pob parti i gynnal uniondeb ei rôl a'i gyfrifoldebau. Bydd natur annibynnol y cadeirydd hefyd yn rhoi sicrwydd i bob parti bod ei gyfraniad yn cael ei werthfawrogi ar sail gyfartal, a bydd hyn yn helpu i feithrin hyder o'r newydd. Yn ogystal â Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a'r cyrff arholi, dylid sicrhau bod cyfansoddiad aelodaeth y bwrdd yn cynnwys amrywiaeth o gynrychiolaeth, fel a ganlyn:
- aelod o Senedd Ieuenctid Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru – gan sicrhau bod llais y dysgwyr wedi'i gynrychioli;
  - arweinwyr ysgolion a cholegau ynghyd â chynrychiolwyr o'r sefydliadau hynny sy'n cefnogi darpariaeth addysg – gan gydnabod arbenigedd manwl y proffesiwn addysgu a fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r bwrdd sicrhau y gellir gweithredu egwyddorion cadarn a chyfeiriadau polisi ar lawr gwlad;
  - cynrychiolwyr o brifysgolion a chyflogwyr – gan feithrin hyder yn nyfarniadau'r cymwysterau.
- 6.10 Rydym yn ymwybodol iawn bod angen gwneud gwaith ar fyrder o safbwynt y canlynol:
- (i) datblygu'r dull asesu, a'r prosesau ailsefyll ac apeliadau;
  - (ii) ystyried trefniadau ar gyfer ymgeiswyr a addysgir yn breifat/gartref;
  - (iii) nodi risgiau a chamau lliniarol priodol;
  - (iv) dylunio, datblygu a gweithredu prosesau dilysu a chymedroli allanol;
  - (v) rhoi trefniadau hyfforddiant a datblygu ar waith, a'u darparu ar gyfer ymarferwyr.

Er mwyn ennyn y mewnbwn mwyaf effeithiol, a'r ymdeimlad mwyaf o gyfrifoldeb ar y cyd gan bob parti â diddordeb, rydym felly'n awgrymu bod y Bwrdd Cyflenwi'n hyrwyddo a noddi dull gweithdy o gynllunio'r ffordd ymlaen ymhob un o'r meysydd uchod. Bydd angen bod ffocws i'r dull a'i fod yn ystwyth. Byddai gweithdai a gynllunnir yn gyflym, a gynhelir ar-lein, a gefnogir gan arbenigedd Cymwysterau Cymru a CBAC, ac sy'n ymgysylltu ag arbenigedd ar hyd y sector yn helpu i sicrhau bod y

dull ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021 yn cael ei gynllunio ar y cyd, a bod perchenogaeth drosti a hyder ynddi.

- 6.11 Mae panel yr adolygiad annibynnol yn eglur ei farn bod angen dull gwahanol ar gyfer 2021. Bydd angen arloesedd sylweddol o fewn cyfnod byr o amser, a bydd ewyllys ac ymgysylltiad llawer o bobl ar draws y sector addysg yng Nghymru yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd. Bydd angen herio strwythurau ac arferion y gorffennol, a mabwysiadu dulliau newydd er mwyn osgoi anawsterau 2020.
- 6.12 Mae'r dysgwyr sy'n disgwyl cymwysterau yn 2021 yn haeddu cael cydnabyddiaeth o'u hymdrechion a chael eu gwobrwyo yng nghyd-destun yr amgylchiadau penodol ac unigryw y maent wedi'u hwynebu. Gall Cymru hefyd fyfyrto ar sut i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o wersi 2020 a 2021 yn arferion y dyfodol, ac yn gweld hyn fel cychwyn y broses o ddatblygu dull a fydd hefyd yn hybu'r cwricwlwm newydd i Gymru. Ceir bellach gyfle go iawn i symud ymlaen â deialog a chamau proffesiynol sy'n ymwneud ag asesu mewn ffordd y bydd dysgwyr yng Nghymru yn dwyn budd ohoni, nid ar gyfer 2021 yn unig, ond hefyd i'r blynyddoedd i ddod. Fel a fynegodd un o'r ymatebwyr i'n harolwg:

*... ni all mesurau ledled Cymru ddychwelyd i sut yr oeddent cyn 2020. Mae cyfleoedd yn deillio o'r amgylchiadau anoddaf. Ceir cyfle yma i sefydlogi ysgolion uwchradd drwy dynnu pwysau a meithrin model sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr yn hytrach na model sydd am brosesu rhifau.*

(Ffynhonnell: ymateb gan arweinydd ysgol/coleg i'r holiadur ar-lein)

### Cam nesaf yr adolygiad

- 7.1 Rydym wedi canolbwyntio hyd yn hyn ar ddwyn cyfres o argymhellion ymlaen i'w cyflwyno cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi eglurder sy'n galluogi dysgwyr i ganolbwyntio ar ddysgu ac sy'n galluogi'r gweithwyr proffesiynol i ganolbwyntio ar addysgu ac ar ddatblygu'r dull o asesu yn 2021 yn ei gyfanrwydd.
- 7.2 Mae'r panel yn parhau i wrando ar safbwyntiau rhanddeiliaid a gesglir drwy gyfarfodydd a chyflwyniadau ysgrifenedig. Mae'r ymatebion i'r holiadur ar-lein wedi darparu cyfoeth o safbwyntiau ac awgrymiadau nad ydym wedi gallu eu hystyried yn llawn yn yr adroddiad interim hwn. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl y bydd tystiolaeth bellach yn newid yr argymhellion uchod yn sylweddol. Rydym yn disgwyl y bydd y dystiolaeth bellach yn cynyddu ein dealltwriaeth o amgylchiadau 2020 ac yn llywio argymhellion mwy manwl o ran gwaith gweithredu a fydd yn dilyn yn yr adroddiad terfynol, y gellir eu rhannu'n ehangach â'r bobl hynny sy'n gweithio ar system y dyfodol.
- 7.3 Bydd yr adroddiad terfynol yn darparu dadansoddiad mwy manwl o ddigwyddiadau 2020 ac yn cwmpasu ystod lawn ein cylch gorchwyl. Yn benodol, byddwn yn cymryd y safbwynt tymor canolig i hirdymor ar gymwysterau yng Nghymru, gan ystyried yr effaith barhaus ar ddysgwyr o'r tarfiad y mae'r pandemig yn ei achosi ar eu dysgu, ac ystyried y newid tuag at ddiwygio'r cwricwlwm.

## Atodiad 1

### Cylch gorchwyl ac aelodaeth

#### Cylch gwaith ac amcanion:

- Gan gydnabod nad oedd dewis arall ond canslo cyfres arholiadau haf 2020 (TGAU, Safon UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau, ynghyd â chymwysterau galwedigaethol cymeradwy a gynlluniwyd i Gymru) yng ngoleuni'r pandemig iechyd cyhoeddus a'r pryder yr oedd yr ansicrwydd yn ei greu i'r dysgwyr, eu teuluoedd ac ymarferwyr, dylai'r adolygiad annibynnol hwn ystyried y materion allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r trefniadau a ddatblygwyd ac a weithredwyd.
- Dylai'r adolygiad ystyried yr heriau sy'n deillio o brofiad 2020 ac (yng nghyd-destun ansicrwydd COVID-19 yn y dyfodol) yr heriau i ddysgwyr yng nghyfres arholiadau haf 2021.
- Dylid dysgu gwersi allweddol penodol o'r profiad eleni er mwyn darparu argymhellion ac ystyriaethau o ddull posibl o baratoi ar gyfer 2021 sy'n blaenoriaethu anghenion dysgwyr a'u cynnydd, ac sy'n ystyried yr angen parhaus i gynnal safonau a chywirdeb y system addysg a dyfarnu cymwysterau.
- Bwriad yr adolygiad hwn yw darparu argymhellion ac ystyriaethau i'r Gweinidog Addysg, gyda chydabyddiaeth o'r partneriaid niferus sy'n ymwneud â chefnogi dysgwyr yng Nghymru.

#### Cwmpas yr adolygiad a'r cwestiynau i fynd i'r afael â nhw

##### *Egwyddorion a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru*

- Wrth osod y polisi ar gyfer canslo'r arholiadau a datblygu trefniadau i ddyfarnu graddau i ddysgwyr wedi hynny, blaenoriaethodd Llywodraeth Cymru'r egwyddorion canlynol:
  - a) Galluogi cynnydd pob dysgwr yn y dyfodol a chydabod eu gwaith caled trwy ddyfarnu graddau
  - b) Sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais, yn enwedig mewn perthynas â'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU
  - c) Darparu dull cadarn a theg, sy'n deg i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
  - d) Cynnal hygyrdded y system gymwysterau a hyder ynddi.
- A gafodd y blaenoriaethau hyn eu deall yn glir a'u rhannu gan yr holl bartneriaid cyflenwi?
- A roddwyd y pwysoliad cywir iddynt?

##### *Heriau gweithredoli*

- Beth oedd y materion a heriau allweddol wrth weithredoli'r trefniadau yn 2020, gan gydnabod y cyfyngiadau yr oedd pob rhan o'r sector yn gweithio oddi mewn iddynt?
- A gafodd y dulliau a fabwysiadwyd, a'r dewisiadau amgen hynny na chawsant eu mabwysiadu, eu profi a'u gwerthuso'n gadarn yn erbyn y cyfarwyddiadau polisi a fwriadwyd?
- A gafodd y dulliau a fabwysiadwyd, a'r dewisiadau amgen hynny na chawsant eu mabwysiadu, eu profi a'u gwerthuso'n gadarn yn erbyn meini prawf cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau tegwch?

##### *Rolau, cyfrifoldebau a chydberthnasau sefydliadol*

- A oes eglurder yn y gwahanol gyfrifoldebau yn sector addysg Cymru am gefnogi cyflwyno cymwysterau?
- A gyflawnwyd y rolau perthnasol wrth ddyfarnu graddau eleni yn briodol, gyda dealltwriaeth dda ohonynt, ac a gawsant eu cyfleu'n briodol gan y partïon dan sylw?

- A oedd y pwyslais a roddwyd ar ryngddibyniaethau ledled y DU, ac effaith gwahanol ddulliau a gymerwyd mewn rhannau eraill o'r DU i Gymru wrth ystyried a gweithredoli trefniadau ar gyfer 2020, yn briodol?

#### *Tryloywder a llais y dysgwr*

- A fu digon o ymgysylltu, cyfathrebu a thryloywder â rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflwyno'r trefniadau yn 2020 ac a gynrychiolwyd llais y dysgwr yn briodol?

#### *Heriau ac opsiynau ar gyfer 2021*

- O ystyried yr heriau i garfan 2020/21 o ran cynnydd a chyflawniad, a chyflawni tegwch a hygredd yng nghyd-destun system gymwysterau ehangach y DU ac ar gyfer dysgwyr unigol, pa ddulliau asesu y gellid eu hystyried ar gyfer 2021 a fyddai'n helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a nodir uchod?

Wrth ystyried yr uchod, gwahoddir yr adolygiad yn enwedig i ystyried y cwestiynau a ganlyn:

- Pa wersi a ddysgwyd o weithredoli'r broses safoni yn 2020, a beth ddylid ei ystyried wrth gytuno ar y meini prawf neu'r egwyddorion ar gyfer unrhyw broses safoni yn 2021?
- Sut y gellir cydnabod a blaenoriaethu llais dysgwyr a'u lles mewn unrhyw ddull yn y dyfodol?
- A oes rôl i gyfraniad asesu mwy gan athrawon a chanolfannau sy'n gymesur â'r angen i flaenoriaethu amser addysgu a dysgu?
- A oes model cymedroli posibl ar draws clystyrau/canolfannau, gyda chefnogaeth darpariaeth dysgu proffesiynol, ac a allai ymarferwyr, Estyn, awdurdodau lleol neu gonsortia addysg rhanbarthol chwarae mwy o ran wrth sicrhau cysondeb dull rhwng ysgolion?
- Pa rôl ddylai fod ar gyfer unrhyw broses apelio, a sut y gellid ystyried y cyfrifoldebau, o'r ysgol hyd at lefel rheoleiddwyr, mewn unrhyw broses yn y dyfodol?
- Pa ddadansoddiad pellach sydd ei angen i ddeall effaith digwyddiadau yr haf hwn ar garfannau yn y blynyddoedd dilynol?

#### *Meysydd pellach i'w hystyried*

- Efallai y bydd yr adolygiad hefyd yn nodi meysydd i'w hystyried a'u harchwilio ymhellach wrth i ni ddechrau'r newid i ddiwygio'r cwricwlwm. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, feysydd sy'n ymwneud ag: agwedd ymarferwyr tuag at asesu a barn broffesiynol, rôl systemau atebolrwydd a'r ymddygiad maen nhw'n ei yrru, a rôl a dyluniad cymwysterau yn y dyfodol.
- Efallai y bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried gwersi y gallwn eu defnyddio o ddulliau a gymerwyd i asesu a dyfarnu cymwysterau yn rhyngwladol.

#### *Gweithrediad yr adolygiad a'r amseru*

- Bydd y cadeirydd yn ystyried aelodaeth o'r tîm adolygu a bydd yn dod â phartneriaid a rhanddeiliaid i mewn i ddarparu cyfraniadau a myfyrdodau. Swyddogion Llywodraeth Cymru fydd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth.
- O ystyried yr angen taer i roi mesurau ar waith i sicrhau y gellir cyflawni cyfres arholiadau 2021, ochr yn ochr â datblygu trefniadau wrth gefn rhag ofn y bydd tarfiad pellach, dylai'r adolygiad adrodd mewn dau gam:
  - bydd adroddiad interim yn cynnwys canfyddiadau a ffactorau allweddol i fynd i'r afael â hwy yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn diwedd mis Hydref 2020;
  - bydd adroddiad terfynol gydag argymhellion llawn yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn canol mis Rhagfyr 2020.



## Atodiad 2

### Cyfranwyr i'r adolygiad

Mae'r panel wedi cyfarfod â'r canlynol:

- Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru
- Adran Addysg Llywodraeth Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)
- Syr Alasdair Macdonald, Cyngorydd i Lywodraeth Cymru ac Eiriolwr Premiwm Disgyblion
- Dysgwyr, penaethiaid, athrawon, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol, swyddogion arholiadau a llywodraethwyr o leoliadau ysgol:
  - Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley
  - Ysgol Uwchradd Prestatyn
  - Ysgol Gymunedol Cenydd Sant
  - Ysgol Bro Teifi
- Dysgwyr o gefndiroedd BAME (pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig) a gweithwyr ieuencid gyda Chadeirydd y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru (EYST)
- Dysgwyr, pennaeth, darlithwyr a llywodraethwyr o leoliad addysg bellach:
  - Coleg Caerdydd a'r Fro
- Welsh Youth Parliament / Senedd Ieuencid Cymru
- Penaethiaid o grŵp cynrychioliadol o ysgolion ledled Cymru:
  - Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley
  - Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan
  - Ysgol y Gadeirlan, Caerdydd
  - Ysgol Gymunedol Cenydd Sant
  - Ysgol Gyfun Pontarddulais
  - Ysgol Uwchradd Prestatyn
  - Cymuned Ddysgu Canolfan yr Afon
  - Ysgol Alun
  - Ysgol Bro Teifi
  - Ysgol Brynrefail
  - Ysgol Gyfun Cwm Rhymini
  - Ysgol Llanhari
  - Ysgol y Deri
- Cynrychiolwyr o arweinwyr colegau addysg bellach a Cholegau Cymru:
  - Coleg Caerdydd a'r Fro
  - Grŵp Llandrillo Menai (Coleg Menai / Coleg Meirion-Dwyfor)
  - Coleg Gŵyr
  - Prif Weithredwr, Colegau Cymru
- Pob rheolwr gyfarwyddwr yn y consortia rhanbarthol (Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW, Consortium Canolbarth y De a GwE)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) / cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaeth
- Undebau llafur a chyrrff cynrychioladol (gwahoddwyd pob un ond nid oedd yn bosib i bawb fynychu oherwydd pwysau amser yr adolygiad):
  - ASCL
  - GMB
  - NAHT
  - NASUWT
  - UCAC
  - Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU)
- Estyn
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
- Cynrychiolwyr o brifysgolion Cymru sy'n rhan o waith recriwtio a Phrifysgolion Cymru:
  - Prifysgol Aberystwyth
  - Prifysgol Caerdydd
  - Prifysgol De Cymru
  - Prifysgol Abertawe
  - Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru
- Cynrychiolwyr o brifysgolion Lloegr sy'n rhan o waith recriwtio:
  - Prifysgol Loughborough
  - Prifysgol Gorllewin Lloegr

Gwahoddwyd **cyflwyniadau ysgrifenedig** hefyd oddi wrth randdeiliaid amrywiol (gan gynnwys cyrff dyfarnu cymwysterau galwedigaethol a gymeradwywyd, darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac Ofqual) ac mae ymatebion yn cyrraedd o hyd i lywio'r adroddiad terfynol.

Gwahoddwyd **cyflwyniadau ysgrifenedig** hefyd gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol ym maes addysg ac ystod eang o randdeiliaid eraill trwy holiadur ar-lein a chafwyd bron i 4,000 o ymatebion.

Hoffai'r panel ddiolch i bawb a ddarparodd mewnbwn i'r adolygiad hyd yn hyn.



Trwy e-bost

Kirsty Williams  
Y Gweinidog Addysg

16 Hydref 2020

Annwyl Weinidog

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi yn gofyn am i Cymwysterau Cymru ddarparu cyngor pellach ar yr opsiynau gorau yr ydym ni nawr yn ystyried eu bod ar gael i ddysgwyr sydd i fod cwblhau eu cymwysterau yr haf nesaf. Cytunwyd ar y cyngor hwn gan Fwrdd Cymwysterau Cymru pan gyfarfu ar 8 Hydref 2020 a chafodd ei brofi gyda rhanddeiliaid mewn cyfarfodydd dilynol. Gofynasoch yn benodol am i'n cyngor ystyried eich blaenoriaeth bwysicaf mewn perthynas ag unrhyw ddull gweithredu, sef hyrwyddo a galluogi dysgu a lles dysgwyr, fel bod gan y dysgwyr y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i symud ymlaen i addysg bellach, addysg uwch neu gyflogaeth.

Gofynasoch hefyd am i unrhyw ddull gweithredu gwrdd â'r amcanion canlynol:

- Yn cyflenwi trefniadau teg a chyfiawn sy'n darparu cysondeb ar draws Cymru a chydaddoldeb triniaeth, gan sicrhau cydraddoldeb i bob dysgwr - yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig
- Yn cyflwyno'r risg isaf i ddysgwyr o ran eu dilyniant yn y dyfodol
- Gellir ei gyflawni o fewn y graddfeydd amser sydd ar gael, o ran y camau y mae'n rhaid i chi a CBAC eu cymryd, yn ogystal â chyfrifoldebau ehangach y sector addysg sy'n ofynnol er mwyn darparu dull gweithredu hyfyw
- Yn darparu dull credadwy sy'n hybu hyder yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Yn yr amserau anghyffredin hyn mae dysgwyr, athrawon a chanolfannau yn wynebu heriau sylweddol, sy'n debygol o barhau i'r dyfodol hyd y gellir rhagweld. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod o'r dechrau bod cyfyngiadau ar sut y gall newidiadau i gymwysterau helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae cymhwyster yn rhoi mesur o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd gan ddysgwyr ar ddiwedd rhaglen astudio; ni all ynddo'i hun fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn addysgu a dysgu. Nid yw newidiadau i'r ffordd yr asesir cymwysterau yn ateb i bob problem nac yn un a fydd yn mynd i'r afael â mater sylfaenol dysgu a gollwyd.

**Qualifications Wales**  
Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

**Cymwysterau Cymru**  
Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Defnyddir canlyniadau cymwysterau yn bennaf at ddibenion dethol mewn addysg barhaus a chyflogaeth. Er mwyn sicrhau cae chwarae teg a gwastad i bawb, mae'n bwysig bod y canlyniadau'n gyson o fewn ac ar draws carfannau, a bod asesiadau'n trin pob dysgwr yn gyfartal, heb roi mantais nac anfantais i un grŵp o ddysgwyr dros grŵp arall.

Mae ein cyngor yn canolbwyntio ar yr ystod lawn o gymwysterau ac yn gwneud cynigion penodol ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd ar gyfer Cymru. Rydym wedi ystyried barn ystod eang o randdeiliaid ac yn cydnabod nad oes consensws cryf ar y ffordd orau ymlaen – mae'r safbwyntiau'n annhebyg i'w gilydd ac yn amrywio'n sylweddol.

Rydym wedi seilio'r cyngor hwn ar ein dau Brif Nod fel y'u diffinnir yn Neddf Cymwysterau Cymru (2015):

- sicrhau bod cymwysterau'n effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a
- hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

Pan wnaethom gyfarfod â chi ym mis Mehefin, cytunwyd bod y trefniadau asesu arferol ar gyfer cymwysterau yn darparu'r mesur tecaf a mwyaf cywir o berfformiad dysgwr. Fodd bynnag, mae'r argyfwng iechyd cyhoeddus presennol yn golygu na allwn fod yn hyderus y bydd modd i arholiadau sydd wedi'u hamserlennu gael eu cynnal fel arfer y flwyddyn nesaf.

Felly, rydym yn cynnig gwahanol drefniadau asesu sy'n darparu mwy o hyblygrwydd, heb yr angen am fesurau ychwanegol sylweddol wrth gefn. Ar y cyfan, mae ein cynigion yn symud i ffwrdd o ddibynnu ar arholiadau sydd wedi'u hamserlennu ac mae pob un ohonynt yn cynnwys 'bancio' rhywfaint o dystiolaeth asesu cyn yr haf, dystiolaeth y gellid ei defnyddio i gynhyrchu canlyniadau pe bai'r ysgolion ar gau.

Mae ein cynigion yn defnyddio mathau o gwestiynau sydd eisoes wedi'u cynnwys mewn manylebau, felly byddant yn gyfarwydd i ddysgwyr ac athrawon. O ystyried y byddai'r trefniadau'n deillio o asesiadau cyfarwydd, mae ein cynigion yn darparu cymaint o sicrwydd â phosibl i ddysgwyr ac athrawon, a hynny ar y cyfle cyntaf. Byddai darparu asesiadau cyffredin a luniwyd gan CBAC yn osgoi cynyddu'r baich asesu ar staff addysgu gan ganiatáu iddynt wneud y mwyaf o'r amser addysgu a dysgu.

## Cynigion ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch

Rydym yn cynnig gwahanol gyfuniadau o bedwar math asesu ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch:

1. **Arholiadau uned** wedi'u gosod a'u marcio'n allanol gan CBAC ac a gaiff eu sefyll dan amodau arholiadau arferol ar amserlen
2. **Asesiadau uned** yn debyg o ran strwythur i arholiad uned - wedi'u gosod a'u marcio'n allanol gan CBAC, ond heb eu hamserlennu. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ganolfannau o ran pryd a ble i gyflawni'r asesiadau hyn
3. **Asesiadau is-uned** - profion bychain a luniwyd yn allanol a ddatblygwyd gan CBAC i'w cyflwyno yn ystod cyfnodau amserlen arferol. Gallai'r rhain gael eu marcio'n allanol neu'n fewnol - gallem benderfynu ar hyn trwy ymgynghori.
4. **Asesiadau Di-arholiad (NEA)** fel y'u nodir yn y manylebau cymwysterau ac sydd eisoes wedi'u haddasu gan CBAC ar gyfer yr amgylchiadau cyfredol.

Rydym wedi defnyddio strwythur cymhwyster tair uned i ddangos ein cynigion - un Aseiad Di-arholiad a dau arholiad. Mae gan wahanol gymwysterau strwythurau uned gwahanol, ond gellir cymhwyso'r egwyddorion i ystod o wahanol strwythurau cymwysterau.

**Ar gyfer TGAU a safon UG** rydym yn cynnig bod:

- yr unedau **Aseiad Di-arholiad** wedi'u haddasu yn symud ymlaen fel y bwriadwyd
- un uned arholiad yn cael ei disodli gan **asesiad uned** nad yw wedi'i amserlennu ac y gellir ei gyflwyno mewn 'ffenstr' ar ddiwedd tymor yr haf
- un uned arholiad yn cael ei disodli gan **asesiadau is-uned** y gellid eu cyflwyno'n gynharach, er enghraifft yn nhymor y gwanwyn.

**Ar gyfer Safon Uwch** rydym yn cynnig bod:

- yr unedau **Aseiad Di-arholiad** wedi'u haddasu yn symud ymlaen fel y bwriadwyd
- un uned arholiad yn parhau i gael ei darparu fel **arholiad** (gellid addasu amserlen arholiadau Cymru i ganiatáu dau gyfle tebyg i sefyll yr uned)
- un uned arholiad yn cael ei disodli gan **asesiadau is-uned** y gellid eu cyflwyno'n gynharach, er enghraifft yn nhymor y gwanwyn.

Gan fod y canlyniadau ar gyfer lefel UG yn haf 2020 ar lefel gradd yn unig ac nad oes unrhyw farciau i'w cynnwys yn y broses ddyfarnu, yr unig ffordd o ddyfarnu Safon Uwch yw ei seilio ar unedau A2 yn unig. Gwyddom fod hyn wedi bod yn destun pryder ymhlith dysgwyr a rhieni ond ni welwn unrhyw ateb arall a fyddai'n sicrhau tegwch i bob dysgwr.

Mae'r cynigion yn symud i ffwrdd o sefyllfa arferol arholiadau a gyflwynir o dan amodau diogel. Er ein bod yn derbyn bod hyn yn peri rhywfaint o risg i hyder y cyhoedd, mae'n gyfaddawd rhesymol sydd a) yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i fodloni gwahanol amgylchiadau canolfannau, b) yn cadw asesiad allanol ac c) yn gwella tegwch yr asesiad i'r dysgwyr mewn perthynas â graddau asesu gan ganolfannau.

Yng ngoleuni cyhoeddiadau diweddar yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban y bydd arholiadau'n mynd yn eu blaen ar gyfer Safon Uwch a *Highers*, mae cadw arholiad ar yr amserlen ar gyfer Safon Uwch yn lleihau'r risg bod y cymwysterau hyn yn cael eu hystyried yn llai cadarn na'r hyn sy'n cyfateb iddynt mewn mannau eraill. Byddai cadw elfen arholiad wedi'i hamserlennu ar gyfer Safon Uwch yn bodloni ein cyfrifoldeb cyfreithiol<sup>1</sup> i ystyried a yw cymwysterau Cymru yn dynodi lefel gyson o gyrhaeddiad o'i chymharu â chymwysterau tebyg mewn mannau eraill.

Yn yr atodiad i'r cyngor hwn rydym yn nodi'r risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â dyfarnu cymwysterau yn 2021 ar sail graddau asesu canolfannau (GACau) wedi'u cymedroli. Nid ydym yn credu y gellir sefydlu mecanwaith sy'n ddigon teg a chyfiawn ar gyfer cymedroli GACau yn y raddfa amser sydd ar gael. Rydym hefyd yn pryderu y byddai unrhyw drefniadau o'r fath yn rhoi baich sylweddol ar ganolfannau ac athrawon, ac yn lleihau'n sylweddol yr amser ar gyfer addysgu a dysgu.

Lleisiwyd llawer o bryderon gan ddysgwyr yn ein hymgyngoriad<sup>2</sup> ar drefniadau ar gyfer haf 2020 ynghylch materion cydraddoldeb, ac yn benodol effeithiau rhagfarn ymwybodol ac anymwybodol. Gan fod ein cynigion ar gyfer 2021 yn seiliedig ar asesiadau allanol, mae hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Ategir hyn gan y dystiolaeth a gyhoeddwyd gennym eisoes yn ein trosolygon o ganlyniadau ynghylch gwahaniaethau mewn canlyniadau yn ôl nodweddion gwarchoddedig.

Mae ein cynigion yn mynd i'r afael â'ch amcanion fel a ganlyn:

- Mae asesiadau sydd wedi'u gosod a'u marcio'n allanol yn darparu trefniadau tecach a mwy cyfiawn i ddysgwyr ar draws Cymru.
- Rydym wedi cynnig uned arholiad ar gyfer Safon Uwch er mwyn hyrwyddo cymaroldeb â threfniadau ar gyfer cymwysterau a ddefnyddir ar gyfer mynediad i addysgu uwch ar draws y DU. Yn achos TGAU mae'r cam nesaf

mewn addysg yn lleol fel arfer, ac felly nid oes angen i ni ystyried dilyniant trawsffiniol uniongyrchol. Er bod canlyniadau TGAU weithiau'n cael eu defnyddio at ddibenion dewis mewn Addysg Uwch a chan rai cyflogwyr, o gydbwysu credwn fod y risg i ddilyniant yn achos y dysgwyr hyn yn is. Yn yr un modd, gan fod y rhan fwyaf o ddysgwyr safon UG yn symud ymlaen i Safon Uwch yn yr un sefydliad, nid ydym yn gweld risg i'w dilyniant uniongyrchol.

- Rydym wedi profi ein cynigion gyda CBAC a nododd bod modd eu cyflawni o fewn y raddfa amser sydd ar gael. Er bod yr asesiadau yr ydym wedi'u cynnig yn golygu addasiadau sylweddol i'r trefniadau presennol, maent yn darparu rhywfaint o gynefindra a byddai angen rheolaeth newid llai helaeth arnynt nag opsiynau eraill.
- Mae'r tir canol yr ydym wedi'i gynnig rhwng arholiadau ar y naill law, a graddau asesu gan ganolfan ar y llaw arall, yn darparu dull credadwy sy'n helpu i hyrwyddo hyder yn y system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n darparu eglurder a sicrwydd, gyda threfniadau wrth gefn wedi'u hymgorffori o'r dechrau trwy leihau'r ddibyniaeth ar arholiadau wedi'u hamserlennu ac mae hyn yn darparu mwy o hyblygrwydd i ysgolion a cholegau.
- Mae ein cynigion yn darparu mwy o hyblygrwydd i ysgolion ac yn caniatáu i staff addysgu weinyddu asesiadau ar adegau sy'n briodol i'w dysgwyr.

I grynhoi, mae ein cynigion yn rhoi mwy o reolaeth i ganolfannau heb eu gorlwytho ar adeg sydd eisoes yn anodd, gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar eich blaenoriaeth i hyrwyddo a galluogi dysgu ac addysgu.

### **Cymwysterau galwedigaethol**

Mae'r cymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu cymryd yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion yng Nghymru yn gymwysterau Dynodedig (nid cymwysterau Cymeradwy Cymru yn unig). Mae amrywiaeth o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu cymryd ôl-16. Ar wahân i'r gyfres Gymeradwy o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a Sgiliau Hanfodol Cymru, mae'r cymwysterau hyn hefyd ar gael i ddysgwyr mewn awdurdodaethau eraill.

Mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau galwedigaethol yr ydym yn eu rheoleiddio hefyd yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual (Lloegr) a CCEA Regulation (Gogledd Iwerddon). Dyfernir y cymwysterau hyn gan yr un cyrff dyfarnu ac maent yn dilyn yr un trefniadau asesu ar draws awdurdodaethau. Rydym wedi gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod dull cyson yn cael ei arfer ar draws y DU ac rydym i gyd wedi cyhoeddi Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol Estynedig (*EERF*) ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol. Mae'r fframwaith yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu defnyddio wrth wneud addasiadau mewn ymateb i effaith Covid-19.

Mae addasiadau o gymwysterau Cymeradwy ar gyfer Cymru yn unig eisoes wedi'u cyflwyno i ganolfannau, tra bydd addasiadau i eraill yn cael eu cyflwyno i ganolfannau erbyn 23 Hydref 2020.

Mae strwythur y mwyafrif o gymwysterau galwedigaethol yn caniatáu i ddysgwyr fancio unedau yn ystod eu cwrs, gyda llai o ddibyniaeth ar arholiad diwedd cwrs. Mae llawer o gymwysterau sy'n cynnwys arholiad haf hefyd yn cynnwys cyfres o arholiadau ym mis Ionawr neu fis Mawrth, ac mae llawer o ddysgwyr yn tueddu sefyll yr arholiad yn gynharach yn y cwrs nag yn y cyfle olaf yn yr haf. Mae cyrff dyfarnu yn annog canolfannau i fancio unedau yn ystod eleni er mwyn lliniaru'r potensial o amhariadau yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd.

Rydym yn adolygu ymhellach yr ystod o addasiadau sy'n cael eu gweithredu gan gyrff dyfarnu a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i'r sefyllfa iechyd cyhoeddus ddatblygu. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn nodi unrhyw gymwysterau lle'r ydym o'r farn bod risg na fydd dysgwyr yn gallu cwblhau asesiadau fydd yn ddigonol i ddyfarnu'r cymhwyster, a byddwn yn ystyried pa liniaru pellach sy'n bosibl.

Ein cyngor yw caniatáu i ganolfannau barhau â'r trefniadau asesu wedi'u haddasu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol y mae cyrff dyfarnu yn eu gweithredu mewn ymateb i'n *EERF*. Mae hyn yn golygu y bydd arholiadau sydd wedi'u hamserlennu mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol ar gyfer cyfres haf 2021 yn parhau ac yn cynnal y dull cyson o weithredu ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Byddwn yn cadw'r sefyllfa hon dan adolygiad ac yn gweithio'n agos gyda'n cyd-reoleiddwyr cymwysterau wrth wneud hynny.

## **Casgliad**

Credwn fod ein cynigion ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch yn cynnig y dull gorau o dan yr amgylchiadau a byddem yn croesawu'r cyfle i'w trafod gyda chi.

Os derbynnir ein cynigion, mae yna faterion arwyddocaol eraill y bydd angen i ni eu hystyried a byddem yn croesawu trafodaeth yn eu cylch. Mae'r rhain yn cynnwys a ddylai canlyniadau fod yn gyson â'r rhai a welwyd yn 2019 neu 2020, neu rywle yn y canol. Mae hyn yn rhywbeth y dylid ei ystyried ar sail y DU fel bod cyffelybrwydd a thegwch i'r holl ddysgwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU a'r Safon Uwch ar draws awdurdodaethau.

Hyderwn eich bod yn fodlon â'n hymagwedd at gymwysterau galwedigaethol.



Rydym yn cydnabod nad oes unrhyw atebion hawdd. Beth bynnag y penderfynwch, byddwn yn gweithio gyda'ch swyddogion a rhanddeiliaid allweddol eraill er budd dysgwyr yng Nghymru i ddatblygu a gweithredu'r trefniadau manwl, gan ymgynghori lle bo hynny'n briodol.

Yr eiddoch yn gywir,



David B Jones OBE DL  
Cadeirydd



Philip Blaker  
Prif Weithredwr

## **Atodiad A – Crynodeb o'r ystyriaethau wrth lunio cyngor**

### **Dadansoddiad o ganlyniadau haf 2020**

Ar 12 Hydref cyhoeddwyd dadansoddiad pellach gennym o'r canlyniadau a ddyfarnwyd i ddysgwyr yng Nghymru. Mae hyn yn dangos tystiolaeth o anghysondebau sy'n awgrymu rhywfaint o annhegwch posibl yn y ffordd y dyfarnwyd graddau'r haf hwn:

- Amrywiad annodweddiadol mewn canlyniadau yn achos Safon Uwch, UG a TGAU dros amser. Mae tystiolaeth hefyd bod effaith y cynnydd mewn canlyniadau yn wahanol ar wahanol bwyntiau yn y raddfa raddau, gyda newidiadau mwy amlwg yng nghanol y trothwyon gradd cronus.
- Amrywiad anghyson mewn canlyniadau yn ôl pwnc yn achos Safon Uwch, UG a TGAU.
- Amrywiad anghyson mewn canlyniadau ar draws canolfannau, mathau o ganolfannau, awdurdodau lleol, a chonsortia rhanbarthol yn achos Safon Uwch, UG a TGAU.

Rydym am i unrhyw ddull newydd o asesu yn 2021 fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn, cyn belled ag y bo modd, fel bod y canlyniadau mor deg ag y gallant fod o dan yr amgylchiadau.

Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad pellach o ganlyniadau haf 2020 ddiwedd mis Hydref. Bydd hyn yn edrych yn fanylach ar y bylchau cyrhaeddiad mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig. Roedd yr asesiad effaith cydraddoldeb cychwynol, mwy cyfyngedig, a gynhwyswyd yn ein trosolwg canlyniadau, yn dangos newidiadau mewn bylchau cyrhaeddiad ar bwyntiau gradd allweddol oedd yn annodweddiadol.

### **Graddau asesu canolfannau gyda model cymedroli cadarn**

Yn 2020, dyfarnwyd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn seiliedig yn bennaf ar raddau asesu canolfannau (GACau). Gofynnwyd i ganolfannau bennu, ar sail y dystiolaeth oedd ar gael, y radd y byddai dysgwr yn fwyaf tebygol o fod wedi'i hennill ym mhob un o'i gymwysterau pe bai'r arholiadau wedi mynd yn eu blaenau.

Ar gyfer 2021, mae rhai rhanddeiliaid wedi galw am ddefnyddio dull tebyg ond gyda threfniadau wedi'u hychwanegu er mwyn helpu cymedroli penderfyniadau ar draws canolfannau i sicrhau cysondeb. Rydym wedi trafod y posibilrwydd hwn gyda'n grŵp rhanddeiliaid 2021, ond ni nododd y trafodaethau hyn sut y gallai trefniadau cymedroli ychwanegol edrych yn ymarferol. Felly, er mwyn ystyried yr opsiwn hwn rydym wedi llunio rhagdybiaethau.

1. Byddai'r ysgolion yn cyflwyno canlyniadau ar lefel gradd - gan nad oes asesiadau cyffredin y gellid datblygu cynlluniau marciau yn eu herbyn er mwyn caniatáu cyflwyno marciau. Mae hyn yn golygu y byddai unrhyw addasiad a wneir trwy gymedroli yn golygu newid graddau.
2. Byddai angen datblygu meini prawf disgrifio graddau – ar hyn o bryd nid oes i'r cymwysterau ddisgrifiadau gradd digon cadarn a thryloyw i'w defnyddio gan athrawon. Byddai hyn yn gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid ac fe gymerai gryn amser i'w gytuno. O ystyried yr aflonyddwch anwastad i ddysgu ar draws canolfannau, gall fod yn arbennig o anodd dod i gytundeb ar ddisgrifwyr teg a chyson.
3. Byddai angen hyfforddi canolfannau ar ofynion y dystiolaeth a chymhwyso unrhyw ofynion marcio/graddio – mae hyn yn debygol o effeithio ar amser addysgu gan gyflwyno baich ychwanegol sylweddol os yw'r trefniadau i fod yn rhai cadarn.
4. Ni allai cymedroli lleol ddarparu'r lefel o gysondeb sy'n ofynnol mewn cymwysterau cenedlaethol. Byddai angen model cymedroli cenedlaethol i gynnal cysondeb a thegwch mewn cymwysterau cenedlaethol uchel eu parch.
5. Byddai'n rhaid i unrhyw broses gymedroli gynnwys mwy nag un cam, gan gynnwys y cytundeb ymlaen llaw ar ddull gweithredu canolfan ac yna gwirio bod y safon genedlaethol wedi'i chymhwyso'n gyson. Byddai hyn yn ychwanegu baich ar ysgolion a cholegau.
6. Byddai proses gymedroli effeithiol yn arwain at rai newidiadau yn y graddau a gynigiwyd i ddechrau gan ysgolion a cholegau. Byddai angen i bob rhanddeiliad dderbyn hyn a pheidio â'i ystyried yn negyddol fel 'israddio', fel yr ystyriwyd ymyriadau yn haf 2020.
7. Byddai angen i ddysgwyr allu apelio'n uniongyrchol yn erbyn dyfarniadau a wneir gan ysgolion a cholegau. Byddai angen i'r ysgol neu'r coleg ystyried apelïadau yn hytrach na CBAC. Byddai angen datblygu'r broses apelio gyfredol y mae ysgolion a cholegau yn ei rhedeg ar gyfer Asesiadau Di-arholiad (NEA) (cyn cyflwyno marciau i CBAC) er mwyn darparu ar gyfer hawl dysgwyr i apelio yn erbyn dyfarniadau ysgol neu goleg. Dim ond pan fyddai penderfyniadau i newid graddau arfaethedig wedi'u gwneud trwy ei broses gymedroli y byddai CBAC yn gallu ystyried apelïadau a wnaed gan yr ysgol neu'r coleg. Nid yw'n realistig nac yn rhesymol disgwyl i CBAC ddyfarnu penderfyniadau ysgolion a cholegau.

Mae gwledydd eraill sydd wedi symud tuag at fwy o asesiad gan athrawon wedi gwneud hynny dros gyfnod amser hir, dros nifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi'i gefnogi gan hyfforddiant sylweddol. Er bod rhinweddau mewn datblygu dulliau a allai gynnwys athrawon yn fwy yn y broses ddyfarnu, rydym yn pryderu y byddai'n anodd gweithredu proses sy'n ddigon cadarn yn yr amser byr sydd ar gael ac yn y cyd-destun yr ydym i gyd yn gweithio ynddo ar hyn o bryd.

Mae'r effeithiau allweddol sy'n gysylltiedig â dull sy'n seiliedig ar GACau yn cynnwys:

1. Pwysau perfformiad cyson ar ddysgwyr allai gael effaith negyddol ar eu lles.
2. Cynnydd sylweddol yn y baich gwaith i ganolfannau ddylunio, gweinyddu, marcio, safoni asesiadau yn fewnol, cytuno a chymedroli canlyniadau gradd, a gweinyddu proses apelio.
3. Pwysau ychwanegol sylweddol ar staff addysgu os ydyn nhw'n gwneud penderfyniadau graddio sydd o bwys uchel i ddysgwyr.
4. Gallai fod risg uwch o her gyfreithiol yn erbyn ysgolion a cholegau mewn perthynas â'u proses apelio fewnol.
5. Gallai fod risg uwch o her gyfreithiol yn erbyn ysgolion a cholegau mewn perthynas â chydaddoldebau. Cododd llawer o randdeiliaid bryderon sylweddol am faterion cydraddoldeb yn ein hymgyngoriad ar y trefniadau ar gyfer haf 2020. Er ei bod yn bosibl darparu hyfforddiant i athrawon ar ragfarn ymwybodol ac anymwybodol, byddai hwn yn ofyniad hyfforddi ychwanegol a byddai angen dibynnu o hyd ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a ddelir gan ysgolion a cholegau.
6. Ymateb cyhoeddus gwrthwynebus i unrhyw newidiadau a wneir gan y broses gymedroli.

I grynhoi, ni allwn weld bod mecanwaith cymedroli sy'n ddigon cadarn y gellir ei roi ar waith yn effeithiol ar gyfer yr haf nesaf. Os penderfynwch ddilyn y llwybr hwn, yna byddwn ni a CBAC yn gweithio i weithredu datrysiad fydd mor gadarn â phosibl o dan yr amgylchiadau, ond ni allwn warantu y bydd yn mynd i'r afael â'r anghysondebau a'r annhegwch cynhenid a brofwyd yn haf 2020.

## **Yr Opsiynau a Ystyriwyd**

Rydym wedi ystyried sawl opsiwn sy'n cynnwys gwahanol gyfuniadau o'r pedwar math gwahanol o asesiad canlynol:

1. **Arholiadau uned** wedi'u gosod a'u marcio'n allanol gan CBAC ac a gaiff eu sefyll dan amodau arholiadau arferol ar amserlen

### Buddion allweddol

- Asesiad gwrthrychol wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol ar gyfer cymwysterau.
- Dull gweithredu cyson o ran y dysgwyr.
- Yn cynnal cywirdeb a hygrededd y cymwysterau.
- Caiff yr arholiadau eu sefyll dan amodau diogel gan gynnal lefelau uchel o ddibynadwyedd.

- Dull gweithredu sy'n gyson rhwng cymwysterau cymeradwy a dynodedig ar gyfer dysgwyr yng Nghymru (TGAU dynodedig a Safon Uwch yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual yn unol â'r polisi a osodwyd yn Lloegr).
- Dull gweithredu sy'n gyson â'r rhai a gyhoeddir yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ar gyfer *Highers* ac *Advanced Highers*.
- Byddai'r dyfarnu yn dilyn y gweithdrefnau arferol.
- Byddai'r deunyddiau asesu yn gyfarwydd i athrawon a dysgwyr.
- Ni fyddai baich ychwanegol yn cael ei roi ar ganolfannau i ddyfeisio eu hasesiadau eu hunain.
- Rhywfaint o gwmpas cyfyngedig ar gyfer addasiadau pellach.

#### Risgiau a materion allweddol

- Efallai na fydd modd i'r dysgwyr sefyll yr arholiadau oherwydd cyfyngiadau lleol neu genedlaethol, neu hunan-ynysu.
- Pryderon ynghylch tegwch oherwydd amrywioldeb o ran cwmpasu'r cynnwys, oherwydd gwahaniaethau mewn amser addysgu yn achos dysgwyr unigol,
- Risgiau cyflenwi sylweddol yn achos cyrff dyfarnu sy'n gysylltiedig â'r newidiadau posibl i'r amserlen.
- Materion rheoli yn achos canolfannau sy'n cyflwyno cyfres arholiadau lawn o fewn cyfnod cyddwys.
- Anhawster wrth gynnal arholiadau sy'n cadw pellter cymdeithasol yn achos carfannau mawr.

2. **Asesiadau uned** yn debyg o ran strwythur i arholiad uned - wedi'u gosod a'u marcio'n allanol gan CBAC, ond heb eu hamserlennu. Gellid rhannu pynciau â chanolfannau fel y gallant ganolbwyntio eu haddysgu er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu paratoi

#### Buddion allweddol

- Aseiad gwrthrychol wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol ar gyfer cymwysterau.
- Dull gweithredu cyson o ran y dysgwyr.
- Yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ganolfannau o ran pryd a ble i gyflawni'r asesiadau hyn.
- Yr asesiadau'n cael eu gwahanu gan fwy o amser nag y byddent yn yr amserlen arholiadau er mwyn caniatáu mwy o amser dysgu rhwng yr asesiadau.
- Mae asesiadau wedi'u gosod a'u marcio'n allanol yn lleihau baich athrawon.
- Mae asesiadau cyffredin yn caniatáu dyfarniadau tebyg o berfformiad ar draws ysgolion.

- Byddai dull yr asesiad yn gyfarwydd gan y byddent yn seiliedig ar fformat cyfredol arholiadau.
- Ni fyddai baich ychwanegol yn cael ei roi ar ganolfannau i ddyfeisio eu hasesiadau eu hunain.
- Byddai dyfarnu yn dilyn y gweithdrefnau arferol.

#### Risgiau a materion allweddol

- Gellir rhannu asesiadau nad ydynt wedi'u hamserlennu ac felly ni fyddent yn cael eu darparu o dan amodau diogel.
- Risg i enw da os yw unedau'n cael eu rhannu'n helaeth ar gyfryngau cymdeithasol cyn i rai sefyll yr asesiad.
- Byddai angen addasiadau i'r system a'r broses yn achos CBAC er mwyn sicrhau bod y strwythur cymwysterau newydd yn cael ei ddarparu'n ddiogel. Pryderon tegwch oherwydd amrywioldeb o ran cwmpasu'r cynnwys, oherwydd gwahaniaethau mewn amser addysgu yn achos dysgwyr unigol.

3. **Asesiadau is-uned** - profion bychain a luniwyd yn allanol a ddatblygwyd gan CBAC i'w cyflwyno yn ystod cyfnodau amserlen arferol. Gallai'r rhain gael eu marcio'n allanol neu'n fewnol - gellid penderfynu ar hyn trwy ymgynghori.

#### Buddion allweddol

- Mae asesiadau lefel is-uned yn caniatáu hyblygrwydd er mwyn i ganolfannau ddarparu asesiadau ar raddfa fach mewn modd modiwlaidd o fewn 'ffenestr'.
- Dull gweithredu cyson o ran y dysgwyr.
- Yr asesiadau'n cael eu gwahanu gan fwy o amser nag y byddent yn yr amserlen arholiadau er mwyn caniatáu mwy o amser dysgu rhwng yr asesiadau.
- Mae asesiadau cyffredin yn caniatáu dyfarniadau tebyg o berfformiad ar draws ysgolion.
- Byddai'r math o gwestiwn yn gyfarwydd gan y byddent yn debyg i gwestiynau arholiad.
- Dim baich ychwanegol yn cael ei roi ar ganolfannau i ddyfeisio eu hasesiadau eu hunain.

#### Risgiau a materion allweddol

- Gellir rhannu asesiadau lefel is-uned ac felly ni fyddent yn cael eu darparu o dan amodau diogel.
- Byddai angen addasiadau i'r system a'r broses yn achos CBAC er mwyn sicrhau bod y strwythur cymwysterau newydd yn cael ei ddarparu'n ddiogel.

- Pryderon tegwch oherwydd amrywioldeb o ran cwmpasu'r cynnwys, oherwydd gwahaniaethau mewn amser addysgu yn achos dysgwyr unigol.
  - Gallai prosesau apelio ar lefel canolfan fod yn feichus pe bai asesiadau'n cael eu marcio'n fewnol.
  - Baich ychwanegol yn cael ei roi ar ganolfannau os yw asesiadau'n cael eu marcio'n fewnol, gan gynnwys safoni a chymedroli marcio.
4. **Portffolio dysgwr** wedi'i gynllunio a'i farcio'n fewnol - byddai angen ei gymedroli neu ei ddilysu.

#### Buddion Allweddol

- Mae'r portffolio dysgwr yn caniatáu hyblygrwydd er mwyn i ganolfannau ddefnyddio eu hasesiadau eu hunain (gan gynnwys defnyddio hen bapurau CBAC).

#### Risgiau a materion allweddol

- Gall asesu dysgwyr yn ormodol er mwyn cynhyrchu portffolio gael effaith negyddol ar eu lles a lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer dysgu.
- Baich ar ysgolion a cholegau wrth gynllunio a chynhyrchu portffolios, marcio gwaith, safoni marcio yn lleol a chyflwyno samplau i'w cymedroli.
- Mae paratoi disgrifyddion marcio eang sy'n galluogi dyfarniadau cyson ar ystod eang o asesiadau yn heriol.
- Byddai'r hyfforddiant a fyddai'n debygol o fod ei angen ar staff addysgu i'w helpu i gynllunio portffolios yn tynnu oddi ar amser addysgu ac yn ychwanegu baich ychwanegol ar athrawon. Ac efallai y byddai'n heriol cyflawni hyn yn y cyd-destun presennol.
- Byddai angen gweithredu system gymedroli neu ddilysu genedlaethol ar gyfer y portffolio dysgwr a byddai hyn yn cymryd cryn amser i'w gynllunio a'i sefydlu.
- Byddai unrhyw broses gymedroli neu ddilysu yn arwain at newidiadau yn y marciau a gynigiwyd i ddechrau gan ysgolion a cholegau. Gellir ystyried hyn yn negyddol fel 'israddio'.
- Mae yna risg o gynyddu anghydraddoldebau (e.e. ar deuluoedd sydd heb fynediad digidol neu heb allu defnyddio adnoddau eraill), lle mae dysgwyr yn creu portffolios - yn enwedig os na allant gael at gyfleusterau canolfannau a'u bod yn gweithio gartref.
- Byddai angen addasiadau i'r system a'r broses yn achos CBAC er mwyn sicrhau bod y strwythur cymwysterau newydd yn cael ei ddarparu'n ddiogel.
- Gallai prosesau ar gyfer apelio portffolios sydd wedi'u marcio gan athrawon ar lefel canolfan fod yn feichus gan osod y prif gyfrifoldeb am apeliadau gyda'r ganolfan.

Gwnaethom ystyried y cyfuniadau asesu canlynol. Mae'r rhain yn seiliedig ar strwythur cymhwyster tair uned\*, lle mae un uned yn asesiad di-arholiad (NEA), a fyddai'n parhau fel yr addaswyd eisoes yn y fanyleb, a dwy uned arholiad, a fyddai'n cael eu haddasu fel a ganlyn:

\* Gellid addasu'r opsiynau hyn i gyd-fynd â strwythurau cymwysterau eraill.

Opsiwn	NEA	Arholiad Uned	Asesiad Uned	Asesiad is-uned	Portffolio'r dysgwr	GAC wedi'i gymedroli
1	✓	✓✓				
2	✓	✓	✓			
3	✓	✓			✓	
4	✓		✓		✓	
5	✓	✓		✓		
6	✓		✓	✓		
7	✓			✓	✓	
8						✓

### Ystyriaethau trosfwaol

Nid oes unrhyw ddatrysiad yn rhydd o risg ac mae'n bwysig bod pawb yn y system yn 'berchen' ar y trefniadau asesu. Wrth ddatblygu ein cyngor, rydym wedi cydnabod y canlynol:

- Nid oes opsiwn perffaith a fydd yn bodloni pawb - bydd angen i'r cyfathrebu bwysleisio pwysigrwydd pawb yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn darparu ateb.
- Mae pob opsiwn yn cynnwys rhywfaint o gyfaddawd.
- Mae'r holl opsiynau'n debygol o effeithio ar gyfres arholiadau 2022.
- Y dull gweithredu presennol mewn awdurdodaethau eraill yw parhau ag arholiadau, a hynny i raddau amrywiol.
- Y prif bryder i randdeiliaid yw'r effaith wahaniaethol o ran y tarfu ar addysgu a dysgu, na all newidiadau i gymwysterau fynd i'r afael â hyn yn llawn.
- Mae'n bwysig bod CBAC yn fodlon ar y ffordd ymlaen y cytunwyd arni gan y bydd yn rhaid iddo gyflawni a dyfarnu'r cymwysterau.





## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

11 TACHWEDD 2020

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Adnoddau Dysgu Cyfunol

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor am ein strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion i sicrhau parhad y dysgu.

### 2.0 Cefndir

2.1 Er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw darfu pellach allai ddigwydd dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, hoffem weld ysgolion yn cydweithio â'i gilydd, ac â ninnau, i baratoi ar gyfer y lluo o sefyllfaoedd posibl allai godi. Ein blaenoriaeth bennaf fydd gweithio gyda ysgolion i sicrhau parhad y dysgu.

2.2 Sefydlwyd safle Canolfan Cefnogaeth GwE ble mae'r adnoddau a grëwyd i ymateb i'r cyfnod clo ar gael. Yn y cyfnod nesaf hwn, rydym yn awyddus i gydweithio ag ysgolion ar draws y rhanbarth i ddatblygu'r dull gweithredu hwn ymhellach, a chynyddu'r gronfa adnoddau sydd ar gael i ysgolion dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys rhannu adnoddau sydd eisoes ar gael a pharatoi adnoddau ychwanegol lle mae bylchau wedi'u hadnabod. Gobeithio y bydd hyn yn ysgafnu'r llwyth gwaith i ysgolion, ac yn rhoi modd iddynt gynllunio ar gyfer unrhyw beth allai ddigwydd.

2.3 Bydd ein dull gweithredu, ynghyd â'r adnoddau ategol, yn cryfhau ymhellach eich ymdrechion i:

- ddatblygu gwell cysondeb ac ansawdd yn y cynnig 'cyffredinol' sydd ar gael i'r ystod oedran
  - dargedu grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol yn y tymor byr
  - ddatblygu yn effeithiol sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
  - ddarparu modelau dysgu cyfunol effeithiol
-

- gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru.

### **3.0 Ystyriaethau**

- 3.1 Rydym am i'r ysgolion cynradd gydweithio a chefnogi'r naill a'r llall o fewn eu clystyrau naturiol. Gyda'r ansicrwydd ynghylch sut y dyfernir cymwysterau CA4 a CA5, rhoddir cyfleoedd i ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac UCD ffurfio cynghreiriau i roi sylw i fylchau yn y ddarpariaeth a ffyrdd eraill y gellid darparu er mwyn ymateb i unrhyw gyfnod clo arall. Gallai'r cynghreiriau hyn fod ar ffurf triawdau, neu ar unrhyw ffurf arall a fyddai orau i amddiffyn parhad y dysgu. Y nod yw cael clystyrau a chynghreiriau i adnabod lefel y cymorth a fyddai'n briodol, ac a fyddai'n ofynnol, yn y gwahanol sefyllfaoedd.
- 3.2 Caiff pob clwstwr / cynghrair gyllid i hwyluso eu gofynion yn lleol. Disgwylir hefyd i bob clwstwr neu gynghrair rannu cynlluniau ac adnoddau a ddatblygir â chlystyrau a chynghreiriau eraill. Fel hyn, bydd gennym gronfa adnoddau sylweddol i bob grŵp oedran ar draws y gyfundrefn ysgolion yng Ngogledd Cymru.
- 3.3 Bydd llyfrgell o adnoddau dysgu cyfunol ar gael, wedi'u creu gan athrawon, ar gyfer athrawon. Mae clystyrau a chynghreiriau wrthi'n casglu, cyd-lunio a rhannu adnoddau gyda'i gilydd ac ar draws y rhanbarth.
- 3.4 Bydd yr adnodd hwn ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE ac yn cynnwys adnoddau o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 5. Yn ogystal, mae tudalen wybodaeth i Llywodraethwyr wedi ei sefydlu hefyd.
- 3.5 Bydd yr adnodd hwn yn fodd i ysgolion barhau â'u harferion cydweithio cadarn drwy rannu'r adnoddau y byddent wedi'u datblygu. Bydd yn fodd i gefnogi cydweithwyr ar draws Gogledd Cymru yn ystod yr amser heriol hwn, a thu hwnt.
- 3.6 Yn ogystal, er mwyn hyrwyddo gweithredu'r Cynnig Proffesiynol, bydd cyllid penodol i ddatblygu'r gwaith o ran y Gymraeg, Trawsnewid ADY, Cwricwlwm a PMG yn parhau drwy'r clystyrau dalgylchoedd.
- 3.7 Er mwyn diwallu'r gofynion adrodd i Lywodraeth Cymru, bydd disgwyl i bob clwstwr / cynghrair gyflwyno cynllun penodol. Bydd YCG GwE ar gael i hwyluso a chefnogi'r

gwaith yma gan obeithio y bydd hyn yn ysgafnu'r llwyth gwaith, ac yn rhoi modd i ysgolion gynllunio ar gyfer unrhyw beth allai ddigwydd.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad ac i gefnogi'r dull a'r model rhanbarthol i sicrhau parhad y dysgu yng Ngogledd Cymru.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR 11 TACHWEDD 2020

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Llesiant

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Cyd-bwyllgor am y dull rhanbarthol o gefnogi lles ein plant a'n gweithlu.

### 2.0 Cefndir

2.1 Ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail yw diogelwch â lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn.

2.2. Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi sicrhau cyswllt rheolaidd â Phennaeth eu hysgolion cyswllt, a hynny er mwyn cefnogi eu lles a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol.

2.3 Er mwyn cefnogi hyn ymhellach, bydd cyfres o weithdai yn cael eu cynnig i arweinwyr ysgolion a swyddogion addysg.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae Penaethiaid, arweinwyr ysgolion a swyddogion addysg yn gweithio dan amgylchiadau anodd ar hyn o bryd. Yn ystod y cyfnod hwn efallai y bydd arnynt angen:

- Cefnogaeth emosiynol a gofod diogel i fyfyrion

- Cymorth wedi'i deilwra i wella eu hiechyd a'u lles
- Cyfleoedd i gael cymorth gan gymheiriaid

3.2 Bydd y rhaglen a gynigir yn cynnwys:

- Gweithdy generig cyffredinol i Benaethiaid
- Cynnig dilynol i ysgolion sy'n hyblyg ac wedi'i deilwra
- Cyfleoedd i gael mentora unigol
- Gweithdai Llesiant i swyddogion ALI

3.3 Bydd ffocws ar amrywiaeth o agweddau ar yr agenda llesiant e.e. gwytnwch, addasu i amgylchedd sydd yn newid, myfyrdod personol, dysgu gweithredol ac ati. Bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn gallu llywio'r agenda hon.

3.4 Bydd y cynnig Cyffredinol ar ffurf un digwyddiad 'byw' i lansio'r rhaglen, ble canolbwyntir ar agweddau generig ar les Penaethiaid. Yn dilyn hyn, cynigir cyfres o weminarau bychain, a fydd yn canolbwyntio ar amrywiol themâu ac agweddau ar lesiant a gwytnwch.

3.5 Mae hyblygrwydd i ysgolion gymryd rhan yn y sesiynau hyn, a'u defnyddio yn eu hysgolion eu hunain os dymunant. Efallai y bydd ar rai unigolion angen mentora gan unigolyn allanol. Gellid cynnig hyn a'i weithredu fesul achos.

3.6 Bydd ymgysylltu a chefnogi cymheiriaid yn allweddol yn y cynnig, a bydd cyfleoedd i weithio gyda chymheiriaid o'ch ysgol eich hun, neu gydag arweinwyr o ysgolion eraill.

3.7 Bydd cyfle i grwpiau o ysgolion ddod at ei gilydd i edrych yn fanylach ar agweddau unigryw ar les personol, cyfunol a sefydliadol. Gallai'r grwpiau hyn fod yn glystyrau o ysgolion cynradd, neu'n grwpiau o ysgolion uwchradd.

3.8 Claire Chidley, arbenigwr profiadol ac uchel ei pharch yn y maes ac sy'n gweithio'n rheolaidd gyda SOLACE, fydd yn hwyluso'r gweithdai. Bydd y rhaglen yn cael ei lansio yn ystod mis Tachwedd 2020.

#### **4.0 Argymhelliad**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad ac i gefnogi'r dull rhanbarthol o gefnogi lles ein plant a'n gweithlu.

#### **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

#### **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a Fforymau Strategol Penaethiaid.

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r awdur yn nodi ym mharagraff 5 nad oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Felly, mae disgwyl i GwE weithredu'r 'Raglen Lles' o fewn yr adnoddau ariannol cyfredol.



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

11 TACHWEDD 2020

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Adolygiad Thematig Estyn

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor ynglŷn ag Adolygiad Thematig Estyn.

### 2.0 Cefndir

2.1 Gofynnwyd i Estyn gynnal adolygiad thematig o ddulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19.

2.2 Nod yr arolwg thematig hwn (Gweler Atodiad 1 – Llythyr Estyn) oedd myfyrio ar ddulliau cyfredol awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion ar gyfer addysgu a dysgu, a lles disgyblion gan ganolbwyntio ar ddau gyfnod penodol:

- Rhan 1 (Mawrth – Gorffennaf) – dysgu o bell ac ailagor ysgolion yn rhannol yng Ngorffennaf 2020
- Rhan 2 (mis Medi ymlaen) – ailagor ysgolion yn llawn o Fedi 2020

### 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Fel rhan o'r paratodau ar gyfer yr adolygiad, rhannwyd nifer o ddogfennau gydag Estyn drwy'r 'Ystafell Arolygu Rithiol (YAR)' yn seiliedig ar y themâu a ganlyn:

- Trosolwg cyffredinol
- Canllawiau ac adnoddau

- Dysgu Proffesiynol
- Cyfathrebu
- Adolygu, adlewyrchu a chreu cyfeiriad

Rhannwyd y dogfennau yma hefyd i'w cynnwys ar YAR yr Awdurdodau Lleol.

3.2 Cynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau gyda aelodau o dîm GwE ar 16 Hydref 2020 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed rhwng mis Mawrth a'r presennol. Roedd swyddogion GwE hefyd yn rhan o gyfweiliadau yr ALL. Rhannwyd y gwaith i gyfnodau penodol:

- Cam 1: Cyn y cyfnod clo
- Cam 2: Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo
- Cam 3: Dysgu o Bell
- Cam 4: Cefnogi ysgolion i ail agor
- Cam 5: Dysgu Cyfunol
- Cam 6: Dysgu ar Garlam
- Cam 7: Cymorth cyfunol i ysgolion ac ALL

3.3 Mae Atodiad 2 yn crynhoi'r hyn a gyflwynwyd i Estyn gan amlinellu'r rhaglen waith, y prif ddeilliannau a'i effaith. Nodir sut mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid.

3.4 Ni dderbyniwyd adborth ffurfiol gan Estyn hyd yma. Bydd adroddiad cryno cenedlaethol yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr a bydd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cael adborth ysgrifenedig ar eu gwaith a fydd yn amlygu arfer effeithiol, yn ogystal ag agweddau y mae angen eu datblygu ymhellach. Bydd sylwadau ar waith y consortia rhanbarthol yn cael eu cynnwys yn llythyr pob awdurdod lleol unigol hefyd, lle bo hynny'n berthnasol. Byddwn yn diweddarau'r aelodau unwaith bydd yr adroddiad wedi ei chyhoeddi.

#### **4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno i gynnal trafodaethau pellach yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad.

#### **5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

#### **6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.



## **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

## **8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

## **9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 – Llythyr Estyn

9.2 Atodiad 2 –Trosolwg – Adolygiad Thematig Estyn – Hydref 2020

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, felly cymeraf fod y gwaith o gynnal yr adolygiad thematig yma i'w flaenoriaethu o fewn adnoddau presennol GwE.

Annwyl bawb,

Diolch yn fawr iawn i chi am eich amser a'ch adborth wythnos ddiwethaf. Yn dilyn ein cyfarfod â rhai ohonoch, rwy'n ysgrifennu atoch i rannu cwmpas yr adolygiad yn fanylach. Gallaf gadarnhau bod ein galwadau ymgysylltu ag ysgolion yn cynnwys rhywfaint o drafodaeth am feysydd eang, ac yna ystyriaeth fanylach o gymorth i ddysgwyr neu ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mewn ychydig o ysgolion, lle y gofynnwyd amdanynt, rydym wedi cael sgysiau ag aelodau staff eraill hefyd, yn ogystal â'r pennaeth.

Gallaf gadarnhau, yn unol â'r hyn a drafodwyd, mai nod cytûn yr arolwg thematig hwn yw myfyrio ar dulliau cyfredol awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion ar gyfer addysgu a dysgu, a lles disgyblion. Byddwn yn canolbwyntio ar ddau gyfnod penodol:

- Rhan 1 (Mawrth – Gorffennaf) – dysgu o bell ac ailagor ysgolion yn rhannol yng Ngorffennaf 2020
- Rhan 2 (mis Medi ymlaen) – ailagor ysgolion yn llawn o Fedi 2020

Disgwylir i'r adolygiad gynorthwyo Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol/consortia rhanbarthol drwy gyflawni'r amcanion canlynol:

- darparu adroddiad i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol unigol yn adlewyrchu eu gwaith a'u dulliau yn ystod y cyfnod clo a dechrau'r cyfnod pan fydd ysgolion yn ailagor yn llawn. Bydd yr adroddiadau'n galluogi Llywodraeth Cymru i ddeall y cryfderau cyffredinol a'r hyn a ddysgwyd am y ffordd y mae awdurdodau lleol a rhanbarthau'n gweithredu yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hefyd yn ein galluogi i ddathlu arfer effeithiol, yn ogystal ag annog awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ystyried ffyrdd eraill i fynd i'r afael â'r heriau newydd hyn. Bydd yr adroddiad cenedlaethol yn edrych ar ddysgu a'r heriau sy'n weddill ar gyfer y system addysg yn ei chyfanrwydd.
- nodi sut mae dysgu cyn yr haf yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio a chyflwyno dulliau dysgu cyfunol a chymorth i ddysgwyr bregus yn ystod tymor yr hydref.
- dysgu o'r arfer fwyaf effeithiol o ran gallu, cydweithio, cynllunio at y dyfodol a rheoli newid. Bydd hyn yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig mewn addysg a llywodraeth leol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## **Ffocws**

Rhan 2 o'r gwaith fydd yn cynnwys y ffocws sylweddol, a bydd yn cynnwys dwy agwedd:

- Hyrwyddo dysgu – pa waith sicrhau ansawdd a wnaed i wella ansawdd yr arlwy dysgu, a sut y defnyddiwyd hyn i ddatblygu arweiniad pellach a dysgu proffesiynol?
- Cefnogi dysgwyr bregus – sut mae'r awdurdod lleol wedi targedu gwasanaethau a chymorth i ddysgwyr bregus i'w cynorthwyo i ymgysylltu â dysgu, pa rwystrau sy'n bodoli o hyd? Byddwn hefyd yn ystyried cynllunio a gweithredu cynnar y rhaglenni

addysg Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a ariennir ar draws ysgolion, a'r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn.

## Prif themâu a fydd yn cael eu harchwilio

### Dysgu

- **Dysgu o fis Medi** – cymorth i ysgolion i gynllunio dysgu.
- **Cynllunio ar gyfer cynnydd** – cymorth i arweinwyr ysgolion i nodi grwpiau neu garfanau penodol o ddysgwyr y mae cau ysgolion wedi cael effaith anghymesur arnynt.
- **Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau – rhaglen dysgu carlam** – cydweithio â'ch ysgolion i gynllunio gwaith dan gyllid grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.
- **Dysgu proffesiynol** – datblygu arbenigedd ymarferwyr mewn addysgegau/dulliau sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial dysgu cyfunol.

### Dysgwyr bregus

- **Hybu lles** – gweithio i nodi ac ymateb i anghenion lles dysgwyr bregus.
- **Cwricwlwm** – gweithio i sicrhau y gall pob dysgwr bregus fanteisio ar gwricwlwm sy'n briodol i'w (h)anghenion dysgu.
- **Iechyd a Diogelwch** – cymorth i ysgolion i roi arweiniad perthnasol ar waith yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.
- **Gwasanaethau arbenigol a gwaith amlasiantaeth** – ymgysylltu â phartneriaid, a sut bydd hyn yn llywio ac yn cryfhau cydweithio yn y dyfodol.
- **Prosesau ac atgyfeiriadau statudol** – cyflawni dyletswyddau statudol ac ymateb i unrhyw newidiadau o ran y galw am wasanaethau.
- **Dysgu proffesiynol** – cefnogaeth ar gyfer dysgu proffesiynol staff i gefnogi dysgwyr bregus.

Ar ôl cael eich adborth, byddwn yn sicrhau ein bod yn ceisio adborth gan ystod ehangach o weithwyr proffesiynol yn ymwneud â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi dysgwyr bregus.

## Arolygon

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau y caiff ystod o safbwyntiau eu casglu er mwyn helpu i lywio'r cyngor parhaus a roddwn i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r adolygiad hwn. Heddiw, 'rydym yn lansio cyfres o arolygon ar ein gwefan ar gyfer ystod o randdeiliaid. Mae'r holl arolygon yn fyr ac ni fyddant yn cymryd mwy na deng munud i'w llenwi. Nid yw'n ofynnol i unrhyw un eu llenwi os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gallwch ganfod yr [arolygon ar ein gwefan](#).

## Dogfennau allweddol

Fe wnaethoch nodi y byddai'n ddefnyddiol rhestru rhai dogfennau allweddol a all fod yn ddefnyddiol. Gweler rhestr gychwynnol isod sydd wedi ei llunio ar sail y gwaith a wnaed â rhai ohonoch hyd yn hyn. Rwy'n gwybod bod ein harolygwyr cyswllt yn ddiolchgar bod llawer ohonoch wedi parhau i rannu diweddariadau a dogfennau allweddol â nhw yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Rydym hefyd wedi trefnu bod y dogfennau a rannwyd gan y consortia rhanbarthol ar gael i'n holl arolygwyr cyswllt sy'n gweithio yn y rhanbarth.

## Dogfennau i gefnogi trafodaethau gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

- Adroddiadau diweddar a pherthnasol i bwyllgorau craffu/cydbwyllgorau ar ymateb i COVID-19
- Dogfennau canllawiau gweithredol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol i ysgolion
- Dogfennau sy'n amlinellu prosesau a gweithdrefnau ar gyfer cefnogi dysgwyr bregus
- Dadansoddiad o arolygon o randdeiliaid/ysgolion
- Cynlluniau adfer neu gynlluniau strategol sy'n cynnwys cynllunio adferiad
- Canllawiau i gefnogi dysgu cyfunol a dysgu o bell
- Cyfleoedd dysgu proffesiynol a gynigir i ysgolion gan gynnwys cymorth i wella cymhwysedd digidol athrawon
- Cymorth i ysgolion gynllunio ar gyfer defnyddio grantiau gan gynnwys Recriwtio, Adfer, Codi Safonau
- Gwerthusiadau a dysgu o'r gwaith a wnaed hyd yma
- Unrhyw ddogfennau eraill y mae'r awdurdod lleol/consortia rhanbarthol yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol eu trafod gyda ACLIL

Bydd arolygwyr cyswllt yn cysylltu â chi i drefnu cyfleoedd cyfleus i drafod dros y mis neu ddeufis nesaf. Byddwn yn rhoi mwy o ddiweddariadau ac adborth i chi yn ein cyfarfod nesaf, ond mae pob croeso i chi gysylltu â ni cyn hynny os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Cofion,



**Jassa Scott**  
Cyfarwyddwr Strategol

## Trosolwg

Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn rydym wedi aros yn dryw i'n gweledigaeth a'n gwerthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd ein gwaith y bu themâu trawsliniol yr OECD, sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth ac i gydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, yn draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraff allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol. Croesawyd cyswllt rheolaidd ag arweinwyr ysgolion, a chyfrannodd hyn at Benaethiaid yn teimlo y gallent droi at gyd-weithiwr proffesiynol i rannu materion heriol ac i ddod o hyd i ddatrysiadau i fynd i'r afael â materion dydd i ddydd. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau gweithredol ar agor yr ysgol yn ddiogel yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol am ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mae cyfarfodydd staff wythnosol wedi cyfrannu at dull gweithredu cyson o sicrhau negeseuon cyffredin i athrawon ac arweinwyr ysgolion. Bu pwyslais cryf ar foddelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod. Mae hyn wedi cynnwys cyswllt rheolaidd iawn â Phenaethiaid er sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth briodol i weithredu'n effeithiol, a hefyd fel cyfrwng i gefnogi eu llesiant. Mae cefnogaeth bellach ar gyfer lles uwch arweinwyr yn yr arfaeth, a hynny trwy gyfres o weithdai a gweminarau a fydd yn cefnogi eu gwytnwch yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ystyriwn ein hunain fel sefydliad partneriaeth, yn fwy felly yn ystod y cyfnod clo, ac fe fyddwn yn sefydliad partneriaeth wrth symud ymlaen. Ystyriwn ein hunain fel partner arweiniol, partner cefnogol, sy'n arwain o'r canol. Arweinyddiaeth ochrol ac arweinyddiaeth gynnil yw rhai o'n nodweddion yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rydym wedi gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Rydym wedi gweithio'n gyson fel pedwar rhanbarth ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyngor dysgu o bell a dysgu cyfunol, ar asesiadau ac asesu parhaus, ac mae rhanddeiliaid wedi croesawu hyn. Cryfhawyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.

Neilltuwyd llawer o amser ac egni i gysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol ac ymchwilio i arferion rhyngwladol er mwyn deall egwyddorion dysgu o bell effeithiol, a sut y dylai dysgu cyfunol llwyddiannus edrych mewn cyfnod estynedig. Mae trafodaethau efo cyd-weithwyr rhyngwladol, gan gynnwys OECD, wedi dyfnhau ein meddwl a sicrhau profiad gwell, ehangach a fwy cyfoethog i ddysgwyr wrth i amser fynd heibio. Datblygwyd y dysgu hwn yn ddysgu cyfunol effeithiol iawn, sydd wedi bod yn fodd i ysgolion ddarparu ystod o brofiadau ar gyfer eu dysgwyr trwy gynllunio manwl a chynnwys rhieni yn effeithiol mewn partneriaeth i gefnogi eu plant. Bydd adnoddau dysgu cyfunol rhagorol yn lwyfan cryf iawn ar gyfer datblygu ymhellach y sgwrs am sut y bydd cyfres effeithiol o brofiadau dysgu yn llywio'r drafodaeth am y cwricwlwm newydd i Gymru yn eu hysgolion.

Un o brif gryfderau, neu prif gryfder ein gwaith ar draws gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddoli a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio efo ni er mwyn sicrhau un neges gyffredin i ysgolion gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.

Un enghraifft o'r fath yw'r grŵp gweithredol o staff awdurdod lleol a rhanbarthol sy'n gweithio ar ac yn datblygu polisi asesiadau risg, cyngor a chanllawiau, ac yn creu dangosfwrdd rhanbarthol sy'n sylfaen gadarn i bob ysgol allu ailagor gyda risgiau wedi'u hadnabod ac, yn ffodus, eu rheoli a'u cefnogi.

Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu wrth wraidd ein gwaith gydag ysgolion. Mae bob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arfer orau mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn i waith y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

Un agwedd nodedig ar ein gwaith yw cymorth sydd wedi'i deilwra i athrawon ac ysgolion. Rydym wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol.

Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu arferion gorau, yn egwyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu yng nghamau nesaf esblygu'r gwasanaeth.

Mae cymorth clir wedi'i dargedu i ysgolion a oedd yn destun pryder cyn y cyfnod clo, i'w helpu drwy'r cyfnod anodd hwn. Bu hyn ar sawl lefel, gan gynnwys cymorth rhwydwaith, cymorth ar gyfer uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion hynny a chymorth gyda darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol. Cefnogwyd mewn amrywiol ffyrdd yr ysgolion hynny sydd wedi cael y cyfnod clo a'r cyfnod dilynol yn anodd oherwydd bod staff yn gorfod hunan ynysu. Mae hyn wedi cynnwys modelu deunyddiau enghreifftiol, gweminarau, rhannu deunyddiau ac adnoddau. Yn ogystal, staff GwE yn arwain yn uniongyrchol neu'n addysgu yn uniongyrchol mewn ysgolion, neu'n darparu dysgu o bell ar gyfer dysgwyr.

Rydym wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd ein gwaith yn ystod y cyfnod clo. Rydym wedi defnyddio adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd ein gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r *Education Development Trust* a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol.

Cynhyrchwyd cyfres o adroddiadau o ddechrau'r cyfnod clo hyd heddiw, a rannwyd â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys barn ysgolion, staff ac awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion rhanbarthol. Mae pob adroddiad yn manylu ynghylch ansawdd y ddarpariaeth ac yn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant i yrru'r agenda ddysgu ymlaen.

Rydym hefyd yn defnyddio dull cyflymu dysgu rhanbarthol, gan weithio ar dair haen sy'n cynnwys cymorth cyffredinol dan arweiniad y consortiwm, cymorth wedi'i dargedu dan arweiniad y consortia a'r awdurdod lleol ar y cyd, gyda'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gymorth aciwt. Datblygwyd y gwaith hwn ar sail dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol a llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain ar gael i bob dysgwr o bob oedran ym mhob ysgol. Bydd dangosfwrdd rhanbarthol yn arddangos effaith y gwaith hwn, a fydd yn cynnwys yr holl grantiau sydd ar gael i ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

### **Prif ddeilliannau ac effaith**

- Cyd-ymdrech a gweithredu effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
- Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
- Mae cydweithredu fwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr/fforwm wedi sicrhau cyfeiriad a meddwl strategol a lunnir ar y cyd ac sy'n effeithiol.
- Dull rhanbarthol a lleol clir mewn lle ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i ysgolion yn effeithiol.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth effeithiol ar gael os oes angen.
- Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu clir a rheolaidd.
- Rhoi canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- Cefnogi ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm sy'n rhoi cyfleoedd i staff fod yn greadigol a chynnig ystod eang o brofiadau i bob dysgwr mewn partneriaeth efo rhieni/gofalwyr.
- Darparu canllawiau ac adnoddau cydlynol i ysgolion i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu dysgwyr bregus yn effeithiol.
- Rhannu arferion gorau ar draws ysgolion a chlystyrau, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, modelau dysgu cyfunol, ac ati.
- Defnyddio technolegau digidol a sgiliau digidol ein gweithlu yn effeithiol.

### **Cydweithredu**

- Datblygu'r buddsoddiad cryf mewn gweithio clwstwr a chydweithredu.
- Hwyluso cydweithredu clwstwr o fewn ac ar draws sectorau i gefnogi ysgolion drwy'r pedwar cyfnod.
- Hwyluso cyfarfodydd i arweinwyr dysgu ac addysgu a rhwydweithiau pwnc i drafod dulliau dysgu o bell a dulliau dysgu cyfunol (arddull PISA).
- Cydweithio â Phenaethiaid a Swyddogion ALL drwy gyfarfodydd fforwm strategol.
- Cydweithio â swyddogion ALL drwy gyfarfodydd safonau lleol.
- Hwyluso cyd-lunio modelu dysgu cyfunol.
- Cydweithio â phartneriaid haen ganol.
- Cymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng GwE a Phrifysgol Bangor.

### **Trosolwg o'r gwaith a wnaed rhwng mis Mawrth a'r presennol**

#### **Cam 1: Cyn y cyfnod clo**

- Cytuno ar strategaeth gyfathrebu gyda Chyfarwyddwyr y chwe awdurdod lleol.
- Galwadau ffon rheolaidd i bob ysgol gan yr YCG i gefnogi Penaethiaid i gadw ysgolion ar agor a lleddfu pryderon.
- Lleoli staff GwE mewn ysgolion ac UauCD lle bo angen, i'w cefnogi i aros ar agor.
- Lleoli staff GwE yn yr awdurdodau i'w cefnogi gyda gwasanaethau hanfodol.
- Timau GwE yn uwchlwytho adnoddau cychwynnol i Google Classroom dynodedig i gefnogi ysgolion gyda'r cynllunio cychwynnol ar gyfer dysgu o bell.

#### **Cam 2: Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo**

- Cadw cysylltiad rheolaidd ag ysgolion er mwyn sicrhau iechyd a lles staff a disgyblion.
- Parhau i gefnogi ysgolion unigol neu Hybiau pan fu prinder staff.

- Uwchsgilio staff GwE ar gyfer dysgu digidol.
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau dysgu i ysgolion er mwyn dechrau cefnogi dysgu o bell mewn ysgolion.
- Cefnogi ysgolion gyda Dysgu Digidol a chynhyrchu fidios cymorth defnyddiol fel y gall athrawon ddatblygu ac amrywio eu methodoleg dysgu o bell.

### **Cam 3: Dysgu o Bell (DoB)**

- Datblygu canllawiau dysgu o bell i ysgolion ar y cyd â rhanbarthau eraill.
- Ar y dechrau, gosod deunyddiau priodol ar Google Classroom ynghyd â syniadau i bob Cyfnod Allweddol gyfeirio atyn nhw.
- Cymorth i alluogi arweinwyr ac athrawon i weithredu yn unol ag arfer orau wrth greu a defnyddio adnoddau dysgu ar-lein.
- Datblygwyd modelau DoB effeithiol yn GwE. Fe'u rhannwyd yn genedlaethol a'u defnyddio ym mhob rhanbarth.
- Anogwyd ysgolion, arweinwyr ac athrawon i rannu adnoddau ar draws y system. Anogwyd ysgolion i ddefnyddio Hwb i rannu eu dulliau, eu cynlluniau a'u hadnoddau dysgu.
- Sicrhau y caiff pob dysgwr fynediad teg i ddysgu ac adnoddau dysgu.
- Pob YCG i gwblhau Dysgu Proffesiynol priodol o ran DoB effeithiol.

### **Cam 4: Cefnogi ysgolion i ailagor**

- Gweithio ar y cyd â'r chwe Awdurdod Lleol.
- Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
- Cyfarfodydd wythnosol gyda Chyfarwyddwyr a deilyddion portffolio Addysg.
- Creu Fframwaith Polisi a Dangosfwrdd.
- Modelu asesiad risg ar gyfer pob sector.
- Adnabod rolau rhanbarthol a lleol i gefnogi dysgwyr bregus.
- Uwchsgilio staff GwE i gefnogi arweinyddiaeth ysgol yn y meysydd hyn.

### **Cam 5: Dysgu Cyfunol**

- Uwchsgilio tîm GwE gyda gwaith ymchwil rhyngwladol ar ddysgu cyfunol.
- Cyfuno CiG yn naturiol ag arferion presennol.
- Unedau amlddisgyblaethol i atgyfnerthu sgiliau a'u datblygu.
- Graddau Asesu Canolfannau / Cymwysterau / Arholiadau

### **Cam 6: Cyflymu Dysgu / Recriwtio, Adfer, a Chodi Safonau**

- Dull Cyflymu Dysgu rhanbarthol / Recriwtio, Adfer, a Chodi Safonau - cynnwys lles corfforol, lles emosiynol a llythrennedd a rhifedd.
- Dull yn seiliedig ar dystiolaeth ar sail gwaith ymchwil.
- Y triongl angen - GwE yn arwain y cyffredinol, GwE ac AauLL y cynnig wedi'i dargedu ac AauLL yn arwain yr aciwt.





## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

11 TACHWEDD 2020

---

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Ysgolion mewn categori Estyn

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y sefyllfa bresennol o ran yr ysgolion sydd mewn Categori Statudol Estyn a Chategori Adolygu gan Estyn.

### 2.0 Cefndir

2.1 Golyga'r sefyllfa ar hyn o bryd gyda phandemig COVID-19 bod ysgolion yn wynebu ystod o heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Mae'n debygol y bydd yr heriau hyn yn fwy mewn ysgolion sydd mewn categori statudol neu'r categori Adolygu gan Estyn.

2.2 Yn ystod y cyfnod clo, mae'n naturiol bod ysgolion wedi canolbwyntio ar iechyd a lles eu dysgwyr, eu staff a chymuned yr ysgol, ynghyd â hybu parhad dysgu. Ataliwyd ymweliadau monitro GwE ac ymweliadau Estyn yn ystod y cyfnod hwn, gydag ysgolion yn cael cymorth ar faterion gweithredol ac ar gynllunio a darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol.

2.3 Yn ddiweddar, hysbysodd Estyn yr ysgolion hynny mewn Categori Statudol y bydd ymgysylltu ag ysgolion yn ailddechrau, a hynny drwy gynnal ymweliad '*bugeiliol*' yn

ystod ail hanner y tymor. Bydd ymweliadau bugeiliol yn cynnwys trafodaeth broffesiynol efo arweinwyr ysgolion, ond ni fydd adroddiad ysgrifenedig, ffurfiol. Bydd yr ymweliad, ynghyd ag unrhyw adborth gan ysgolion ac AauLL, yn helpu Estyn i benderfynu ar ba bryd y bydd yn briodol ailgydio mewn monitro statudol, uniongyrchol. Ffactorau hanfodol unrhyw benderfyniad, fydd cynhwysedd yr ysgol i ddarparu addysg ar y safle i'r rhan fwyaf o ddisgyblion a chynhwysedd arweinwyr i ymgysylltu â thîm monitro. Ar hyn o bryd, credir y bydd ymweliadau monitro yn ailddechrau yn gynnar yn nhymor y gwanwyn. Fodd bynnag, bydd sefyllfa sy'n newid o ddydd i ddydd efallai yn golygu ffurf 'wahaniaethol' o ymweliad ymgysylltu.

**2.4** I'r ysgolion hynny yng nghategori Adolygu gan Estyn, mae gofyn i awdurdodau lleol/consortia gyflwyno adroddiad cynnydd i Estyn. Gallai penderfyniad Estyn i dynnu ysgol o weithgarwch dilynol fod yn un a wneir o amgylch y bwrdd, neu gallai olygu ymweliad monitro pellach â'r ysgol. Cynhelir y broses hon fel arfer yn hwyr yn nhymor yr hydref, neu'n gynnar yn nhymor y gwanwyn. Hyd yma, ni ddaeth unrhyw ohebiaeth o ran y disgwyliadau ar gyfer 2020/21.

### **3.0 Materion i gael sylw**

**3.1** Fel rhanbarth, rydym yn bryderus ynghylch ailrolygu'r ysgolion hyn, ac mae hyn wedi'i gyfleu i Estyn. Cafwyd trafodaethau cychwynnol gydag Estyn am ystod o faterion gan gynnwys:

- A yw'r argymhellion a wnaed adeg yr arolygiad craidd dal yn berthnasol i sefyllfa bob ysgol sydd mewn categori?
- Pa feini prawf a meincnodau a ddefnyddir wrth arfarnu a dod i farn am safonau ar ddiwedd CA4/CA5, addysgu, dysgu, asesu a dilyniant, gwerthuso ac arweinyddiaeth?
- Sut ydym ni'n sicrhau cydnabyddiaeth ac ardystiad i ysgolion sydd wedi arddangos tystiolaeth o gynnydd cadarn yn erbyn llawer o'u hargymhellion hyd at gyfnod clo Covid Mawrth 2020, a sut ydym ni'n mesur y cyfnod rhwng mis Mawrth a Hydref 2020 wrth ddod i farn, gan bod ysgolion yn gweithredu dan set

o reolau a rheoliadau hollol wahanol, a ble mae bron bob un o'u dysgwyr wedi cael mynediad i'w haddysg drwy ddysgu o bell?

- Pa mor hyderus ydym ni y gall ysgolion fynd i'r afael yn gadarn ac yn effeithiol â'u hargymhellion ôl-arolwg, o gofio'r ffactorau arwyddocaol sydd wedi'u taflu atyn nhw yn sgil y sefyllfa Covid barhaus?
- Sut eir i'r afael â disgwyliadau o ran cynllunio a gweithredu CGOA os yw ysgolion yn wynebu cyfnod clo lleol/cenedlaethol llawn/rhannol arall?
- Sut gallwn ni ddangos y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion, yn ogystal ag mewn meysydd y tu hwnt i unrhyw argymhellion, yn ystod cyfnod pandemig hynod o heriol?

**3.2** Os nad yw'r meini prawf a'r meincnodau ar gyfer y meysydd uchod yn ystyried yr amgylchiadau heriol presennol yn sgil Covid, ac nad ydynt yn adlewyrchu'n deg ddisgwyliadau 'Canllawiau Gweithredol' a 'Chanllawiau Dysgu ac Addysgu' Llywodraeth Cymru ar ysgolion, y pryder yw y bydd llawer o'r ysgolion mewn categori neu weithgarwch dilynol yn cael eu cosbi yn ddiangen ac yn annheg, gan y bydd yn hynod o anodd iddynt ddangos cynnydd yn effeithiol yn erbyn llawer o feysydd allweddol eu hargymhellion.

**3.3** Yn y cyfnod anodd yma, ac er budd tegwch, cydraddoldeb a lles ein harweinwyr, ein staff a'n disgyblion, credwn yn gryf y dylai Estyn ystyried rhoi 'amnest' i bob ysgol mewn categori, ond bod pob sefydliad yn cytuno i arolygiad llawn ymhen 18 mis. Byddai penderfyniad o'r fath hefyd yn sicrhau na fyddai hygrededd fframwaith arolygu Estyn yn cael ei danseilio na'i herio. Byddai pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer yr ysgolion hyn yn cael ei gytuno am y cyfnod cyn yr arolygiad llawn, y gallai Estyn gytuno arno a'i fonitro.

#### **4.0 Argymhellion**

**4.1** Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor drafod a nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno ar y camau nesaf posibl.

## **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

#### **Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymrwymadau ariannol ychwanegol yn codi o'r adroddiad hwn, felly hyderaf y bydd unrhyw gymorth ychwanegol a ddarperir i ysgolion yng nghyd-destun ymweliadau Estyn yn cael ei flaenoriaethu o fewn adnoddau presennol GwE.